Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Y Cofnod Swyddogol)

The National Assembly for Wales
(The Official Record)

Dydd Mawrth 21 Mawrth 2000

Tuesday 21 March 2000

Cynnwys
Contents

3 Cwestiynau i’r Prif Ysgrifennydd
Questions to the First Secretary

19 Cwestiwn Brys: Sector Cynhyrchu Cydrannau Ceir yng Nghymru (Rover/BMW)
Urgent Question: Car Component Manufacture Sector in Wales (Rover/BMW)

24 Datganiad ar Ryddid Gwybodaeth
Statement on Freedom of Information

33 Datganiad Busnes
Business Statement

34 Datganiad ar yr Amserlen
Timetable Statement

35 Cymeradwyo Gorchymyn Deddf Iechyd 1999 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2000 a Gorchymyn Deddf Iechyd 1999 (Practisiau Deiliad Cronfa) (Trosglwyddo Asedau, Arbedion, Hawliau a Rhwymedigaethau a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2000
Approval of the Health Act 1999 (Commencement No. 2) (Wales) Order 2000 and the Health Act 1999 (Fundholding Practices) (Transfer of Assets, Savings, Rights and Liabilities and Transitional Provisions) (Wales) Order 2000

55 Cynnig Trefniadol
Procedural Motion

58 Gorchmynion Brys
Urgent Orders

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o’r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.

Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd
Questions to the First Secretary

Trechu Allgáu Cymdeithasol yng Nghymru
Combating Social Exclusion in Wales

Q1 Mick Bates: What discussion has the First Secretary had with the Secretary of State for Wales concerning the development of policy to combat social exclusion in Wales? (OAQ4217)

C1 Mick Bates: Pa drafod a fu rhwng y Prif Ysgrifennydd ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch datblygu polisi i drechu allgáu cymdeithasol yng Nghymru? (OAQ4217)

The First Secretary (Rhodri Morgan): As well as our weekly meetings, the Secretary of State and myself, as well as Edwina Hart, are members of a Joint Ministerial Committee on Poverty. It has been established to consider joint or co-ordinated action by the UK Government and the devolved administrations to tackle social exclusion and to facilitate exchange of information and sharing of best practice. The next meeting of that committee will be next month and will concentrate on the elderly and pensioner poverty. Three broad categories are identified in the Department of Social Security's social exclusion annual report 'Opportunity for All': the young, working age people and the elderly.

Y Prif Ysgrifennydd (Rhodri Morgan): Yn ogystal â'n cyfarfodydd wythnosol, mae'r Ysgrifennydd Gwladol a minnau, yn ogystal ag Edwina Hart, yn aelodau o Gyd-bwyllgor y Gweinidogion ar Dlodi. Fe'i sefydlwyd i ystyried camau ar y cyd neu rai cydlynol gan Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig i fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol a hwyluso cyfnewid gwybodaeth a rhannu'r arfer gorau. Bydd cyfarfod nesaf y pwyllgor hwnnw y mis nesaf a bydd yn canolbwyntio ar yr henoed a thlodi ymysg pensiynwyr. Dynodir tri dosbarth bras yn adroddiad blynyddol yr Adran Nawdd Cymdeithasol ar allgáu cymdeithasol 'Opportunity for All': yr ifanc, pobl o oedran gweithio a'r henoed.

Mick Bates: Many people in Wales are socially excluded as a result of the current crisis in the health service. Gordon Brown is today proposing to cut income tax by 1p. This money could instead be used to train 900 new doctors or 4,000 nurses, or to fund 1,700 new hospital beds in Wales. Would the First Secretary, therefore, support the Liberal Democrat view that we should abandon this 1p cut in income tax and invest the money in our national health service instead?

Mick Bates: Mae llawer o bobl yng Nghymru wedi eu hallgáu'n gymdeithasol o ganlyniad i'r argyfwng presennol yn y gwasanaeth iechyd. Heddiw, mae Gordon Brown yn cynnig torri 1c oddi ar dreth incwm. Yn hytrach, gellid defnyddio'r arian hwn i hyfforddi 900 o feddygon newydd neu 4,000 o nyrsys, neu i ariannu 1,700 o welyau ysbyty newydd yng Nghymru. A fyddai'r Prif Ysgrifennydd, felly, yn cefnogi barn y Democratiaid Rhyddfrydol y dylem roi'r gorau i'r gostyngiad hwn o 1c mewn treth incwm a buddsoddi'r arian yn ein gwasanaeth iechyd gwladol yn lle hynny?

The First Secretary: That is an interesting way of hooking social exclusion up with events in another legislative chamber, 150 miles east of here, later this afternoon. The 1p cut in income tax was announced in last

Y Prif Ysgrifennydd: Mae hynny'n ffordd ddiddorol o gysylltu allgáu cymdeithasol â'r digwyddiadau mewn siambr ddeddfwriaethol arall, 150 milltir i'r dwyrain oddi yma, yn ddiweddarach y prynhawn yma.

year's budget but will take effect from 1 April this year. I have no idea whether there will be any changes to the plans announced in last year's budget over that 1p cut in income tax as I am not privy to budget secrets. What could be done with that money instead is a matter for speculation. We all know what you could buy with 1p income tax if it were not cut or if it were increased by 1p, as I believe the Liberal Democrats wanted to do. However, it is difficult for the Assembly to discuss matters relating to the budget when it is being dealt with in Westminster later this afternoon.

Cyhoeddwyd y toriad o 1c yn nhreth incwm yng nghyllideb y flwyddyn ddiwethaf ond daw i rym o 1 Ebrill eleni. Nid oes gennyf syniad a fydd unrhyw newidiadau yn y cynlluniau a gyhoeddwyd yng nghyllideb y llynedd ynghylch y toriad hwnnw o 1c mewn treth incwm gan nad wyf yn gwybod am gyfrinachau'r gyllideb. Mae'r hyn y gellid ei wneud â'r arian hwnnw yn lle hynny'n fater i'w ddyfalu. Gwyddom oll am yr hyn y gallech ei brynu ag 1g o dreth incwm pe na châi ei thorri neu os câi ei gynyddu o 1g, fel y credaf fod y Democratiaid Rhyddfrydol am ei wneud. Fodd bynnag, mae'n anodd i'r Cynulliad drafod materion sydd yn ymwneud â'r gyllideb pan yw'n cael ei thrafod yn San Steffan yn ddiweddarach y prynhawn yma.

Dafydd Wigley: A yw'r Prif Ysgrifennydd yn derbyn mai un ffordd o drechu allgáu cymdeithasol yw sicrhau bod gwaith digonol o fewn cyrraedd pob cymuned yng Nghymru? Tra y croesawn newyddion heddiw fod mwy o swyddi yn dod i ardal Caerdydd, a dderbyniwch fod teimlad yn ne-orllewin Cymru, yng nghanolbarth Cymru ac yng ngogledd-orllewin Cymru fod y newyddion da bob amser yn dod i'r ardaloedd poblog a dim ond ychydig o swyddi newydd yn dod i'w hardaloedd hwy? Pa addewidion y gallwch eu rhoi i'r Cynulliad y bydd y sefyllfa yn gwella yn sgîl y datblygiadau presennol—yma ac mewn siambr arall?

Dafydd Wigley: Does the First Secretary accept that one way of overcoming social exclusion is ensuring that there is adequate employment within reach of every community in Wales? While we welcome today's news that more jobs are coming to the Cardiff area, do you accept that, in south-west Wales, in mid Wales and in north-west Wales, there is a feeling that the good news always comes to the populated areas and that only a few new jobs come to their areas? What promises can you give the Assembly that the situation will improve in the wake of current developments—here and in another chamber?

Y Prif Ysgrifennydd: Mae daearyddiaeth Dafydd yn go wan. Nid wyf yn derbyn hyn ac ni chredaf y byddai Pauline Jarman yn ei dderbyn ychwaith. Yr oedd hi'n bresennol yn seremoni agoriadol y ganolfan alwadau ddiweddaraf yn ardal Nantgarw, a gafodd ei chyhoeddi y bore yma gan British Telecom. Yr oedd yn bresennol fel arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac yr oeddwn innau yno fel Prif Ysgrifennydd. Mae'r ganolfan yn disgwyl gwasanaethu'r Cymoedd a denu gweithwyr o'r ardal honno.

The First Secretary: Dafydd's geography is rather weak. I do not accept this and I do not believe that Pauline Jarman would accept that either. She was present at the opening ceremony of the most recent call centre in Nantgarw, which was announced this morning by British Telecom. She was there as the leader of Rhondda Cynon Taff County Borough Council and I was there as First Secretary. The centre expects to serve the Valleys and attract workers from that area.

Er na fydd arian cyhoeddus yn mynd i mewn iddynt, yn ystod y chwe mis diwethaf cafwyd cyhoeddiadau y bydd canolfannau galwadau yn cael eu sefydlu drwy Gymru. Derbyniaf nad oes un yn y Gogledd. Lleolir y rhan fwyaf o'r swyddi yn Abertawe, gan fod ntl wedi cyhoeddi yr wythnos diwethaf y bydd

Although public money will not go into them, in the last six months there have been announcements that call centres will be established throughout Wales. I accept that there is not one in the North. Most of the jobs will be located in Swansea, as ntl announced last week that it will create 500 jobs; it was

yn creu 500 o swyddi; fe gyhoeddwyd heddiw y bydd 500 o swyddi ychwanegol yn cael eu creu yno, er na fydd arian cyhoeddus yn mynd i mewn i'r ganolfan; cyhoeddodd Cable & Wireless flwyddyn yn ôl y bydd yn creu 1,200 o swyddi yn Abertawe; cyhoeddwyd ar ôl y Nadolig y bydd 600 i 700 o swyddi'n cael eu creu yn Noc Penfro a chyhoeddwyd fis yn ôl y bydd 1,000 o swyddi'n cael eu creu ym Merthyr Tudful. Byddai'r sefyllfa wedi bod yn wahanol ddwy flynedd yn ôl gyda gor-bwyslais ar greu swyddi yng Nghaerdydd a Chasnewydd. Dyna batrwm cyhoeddi swyddi newydd yr wyf fi wedi bod yn gysylltiedig â hwy yn ystod y chwe mis diwethaf.

announced today that 500 additional jobs will be created there, although public money will not go into the centre; Cable & Wireless announced a year ago that it will create 1,200 jobs in Swansea; it was announced after Christmas that 600 to 700 jobs will be created in Pembroke Dock and it was announced a month ago that 1,000 jobs will be created in Merthyr Tydfil. The situation would have been different two years ago with an over-emphasis on job creation in Cardiff and Newport. That is the pattern of new job announcements with which I have been involved during the last six months.

Nick Bourne: Will the First Secretary confirm that social exclusion problems in Wales will not be addressed by Sinn Fein's visit—apparently to an all-party group of Members—tomorrow? My party's group first knew of this visit at 12.30 p.m. today when we received a fax. It is extraordinary that this visit is being made to the Assembly at this sensitive time in the peace process—

Nick Bourne: A wnaiff y Prif Ysgrifennydd gadarnhau nad ymdrinnir â phroblemau allgáu cymdeithasol yng Nghymru gan ymweliad Sinn Fein—â grŵp o Aelodau o'r holl bleidiau yn ôl pob golwg—yfory? Cafodd grŵp fy mhlaid i wybod gyntaf am yr ymweliad hwn am 12.30 p.m. heddiw pan dderbyniasom ffacs. Mae'n rhyfeddol bod yr ymweliad hwn â'r Cynulliad yn digwydd ar yr adeg sensitif hon yn y broses heddwch—

The Presiding Officer: Order. This question is about social exclusion, not Irish politics.

Y Llywydd: Trefn. Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud ag allgáu cymdeithasol, nid gwleidyddiaeth Iwerddon.

Nick Bourne: At this sensitive time in the peace process, is it not important so that we can address—

Nick Bourne: Ar yr adeg sensitif hon yn y broses heddwch, onid yw'n bwysig fel y gallwn roi sylw—

The Presiding Officer: Order. This question is about social exclusion, not Irish politics.

Y Llywydd: Trefn. Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud ag allgáu cymdeithasol, nid gwleidyddiaeth Iwerddon.

Nick Bourne: Will this visit assist social exclusion and will Rhodri Morgan disassociate himself from it?

Nick Bourne: A fydd yr ymweliad hwn o gymorth i allgáu cymdeithasol ac a wnaiff Rhodri Morgan ddatgysylltu ei hun oddi wrtho?

The First Secretary: I am not sure if I am permitted to answer that question, which, as I think Nick would agree, is stretching the point of social exclusion to the ultimate. I was not aware of the Sinn Fein visit until I saw the press release that he put before me seconds before I got up to speak. I have not read it. I know nothing about the visit and I do not feel qualified to comment on whether it would contribute to, or has anything to do

Y Prif Ysgrifennydd: Nid wyf yn sicr a ganiateir imi ateb y cwestiwn hwnnw, sydd, fel y credaf y cytunai Nick, yn ymestyn pwynt allgáu cymdeithasol i'r eithaf. Ni wyddwn am yr ymweliad gan Sinn Fein nes gweld y datganiad i'r wasg a roddodd o'm blaen eiliadau cyn imi godi i siarad. Nid wyf wedi ei ddarllen. Nid wyf yn gwybod unrhyw beth am yr ymweliad ac ni theimlaf fy mod yn gymwys i wneud sylw ynghylch a fydd yn

with, social exclusion.

cyfrannu at allgáu cymdeithasol, neu a oes unrhyw gysylltiad rhyngddo a hynny.

Jane Davidson: I was pleased to hear your announcement of the jobs that will be created in Nantgarw in my constituency. How can we ensure that people who have limited access to information technology, which is becoming so important in Wales, do not face increased poverty, and what can the Assembly do to tackle that?

Jane Davidson: Yr oeddwn yn falch o glywed eich cyhoeddiad am y swyddi a grëir yn Nantgarw yn fy etholaeth i. Sut y gallwn sicrhau nad yw pobl sydd â mynediad cyfyngedig at dechnoleg gwybodaeth, sydd yn dod yn beth mor bwysig yng Nghymru, yn wynebu tlodi cynyddol, a beth y gall y Cynulliad ei wneud i ymdrin â hynny?

The First Secretary: The issue of the changing nature of jobs on offer and what kind of training is needed to participate in the future economy is critical. It is about job matching and people matching. If what BT told me this morning is accurate, it will offer considerable training for a relatively upmarket call centre in Nantgarw. It will place an emphasis on women returning to work and others who may start off without much technical knowledge, but have skill and adaptability. The likelihood that, having been trained, those people will stay with BT and not hop over a boundary wall into a call centre next door is one of the Valleys' major attractions for BT. Ensuring that people do not get left out of the call centre boom because of their unfamiliarity with IT, computer technology and the use of voice and data transmission systems is critical. These systems allow people to take telephone queries and call up data on a computer screen at the same time and thus answer the query immediately. It is critical that this system ensures that these are not bottom knocker jobs that require a simple telephone answering technique. We do not want to have a category of people who cannot access jobs because of the absence of training.

Y Prif Ysgrifennydd: Mae natur newidiol y swyddi a gynigir a'r math o hyfforddiant sydd yn angenrheidiol i gymryd rhan yn yr economi yn y dyfodol yn fater holl bwysig. Mae'n ymwneud â chydweddu â swyddi a chydweddu â phobl. Os yw'r hyn a ddywedodd British Telecom wrthyf y bore yma yn gywir, bydd yn cynnig hyfforddiant sylweddol ar gyfer canolfan alwadau gymharol ddrud yn Nantgarw. Bydd yn rhoi pwyslais ar fenywod sydd yn dychwelyd i weithio ac eraill a allai fod yn dechrau ag ond ychydig o wybodaeth dechnegol, heblaw am fedrusrwydd ac addasadwyedd. Y tebygolrwydd y bydd y bobl hynny'n aros gyda British Telecom, ar ôl eu hyfforddi, yn hytrach na neidio dros y clawdd i ganolfan alwadau y drws nesaf yw un o atyniadau mawr y Cymoedd fel lleoliad i British Telecom. Mae'n holl bwysig sicrhau na chaiff pobl eu gadael allan o ffyniant y canolfannau galwadau am nad ydynt yn gyfarwydd â thechnoleg gwybodaeth, technoleg cyfrifiaduron a'r defnydd o systemau trosglwyddo lleisiau a data. Mae'r systemau hyn yn caniatáu i bobl ateb ymholiadau ar y ffôn a galw data i fyny ar sgrîn cyfrifiadur yr un pryd ac felly ateb yr ymholiad ar unwaith. Mae'n hanfodol bod y system hon yn sicrhau nad swyddi di-grefft mo'r rhain gan ofyn dim ond techneg ateb ffôn syml. Nid ydym am gael categori o bobl na allant gyrraedd swyddi oherwydd diffyg hyfforddiant.

This morning's announcement was made in the training annexe of Pontypridd Technical College. In discussions with BT we sought to ensure that the college would be fully involved in ensuring an adequate supply of fully-trained people for the project. That means reducing the number of people who might be socially excluded because of their

Gwnaethpwyd y cyhoeddiad y bore yma yn adain hyfforddi Coleg Technegol Pontypridd. Mewn trafodaethau â BT ceisiasom sicrhau y byddai rhan gyflawn i'r coleg wrth sicrhau cyflenwad digonol o bobl hyfforddedig ar gyfer y prosiect. Mae hynny'n golygu lleihau'r nifer a allai gael eu hallgáu'n gymdeithasol oherwydd eu diffyg profiad

lack of previous experience.

blaenorol.

2:11 p.m.

‘Gwell Cymru’ (Ymateb yr Ysgrifennydd Gwladol)
‘A Better Wales’ (Secretary of State’s Response)

Q2 Pauline Jarman: Has the First Secretary received the Secretary of State for Wales’s response to ‘A Better Wales’? (OAQ4201)

C2 Pauline Jarman: A yw’r Prif Ysgrifennydd wedi derbyn ymateb oddi wrth Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ‘Gwell Cymru’? (OAQ4201)

The First Secretary: I refer you to the answer that I gave to Cynog Dafis on 7 March on the same issue. I have not received a response to the draft plan from the Secretary of State. I did not expect one.

Y Prif Ysgrifennydd: Fe’ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i Cynog Dafis ar 7 Mawrth ar yr un pwnc. Nid wyf wedi derbyn ymateb i’r cynllun drafft oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol. Ni ddisgwyliais hynny.

Pauline Jarman: ‘A Better Wales’ is disappointing, even in its revised format. The health section is particularly poor. It concentrates on worthy aspirations at the expense of serious action plans. Do you agree that the road to hell is paved with good intentions and that, if good intentions are to mean anything, they must be resourced? Are you committed to finding £45 million, the estimated cost of implementing the adult mental health strategy, and the estimated £5 million needed for the children and adolescent mental health strategy?

Pauline Jarman: Mae ‘Gwell Cymru’ yn siomedig, hyd yn oed ar ei ffurf ddiwygiedig. Mae’r adran ar iechyd yn arbennig o wael. Canolbwyntia ar ddyheadau teilwng ar draul cynlluniau gweithredu difrifol. A gytunwch fod y ffordd i uffern wedi ei phalmantu â bwriadau da ac, os yw bwriadau da i olygu rhywbeth, fod yn rhaid darparu adnoddau ar eu cyfer? A ydych wedi ymrwymo i ganfod £45 miliwn, yr amcangyfrif o gost gweithredu’r strategaeth iechyd meddwl i oedolion, a’r amcangyfrif o £5 miliwn y mae ei angen ar gyfer y strategaeth iechyd meddwl i blant a phobl yn eu harddegau?

The First Secretary: I am not clear whether you quoted the figures for implementing the mental health strategies from ‘A Better Wales’ or from another source document. We are committed to enabling the Better Wales strategy to proceed on course, subject to the consultation. The willingness of organisations and individuals throughout Wales to use the Assembly’s website, where ‘A Better Wales’ is prominently featured, and comment on it has been astonishing in that consultation, in terms of citizen participation in the better government agenda and in producing the kind of corporate plan to which everybody can sign up. There have been over 16,000 hits on the Assembly’s website, betterwales.com. Those who designed it did not expect anything like that level of response. It shows that the use of the latest technology enables an active citizenry to emerge in the new Welsh democracy that began last May.

Y Prif Ysgrifennydd: Nid wyf yn sicr a oeddech wedi dyfynnu’r ffigurau ar gyfer gweithredu’r strategaethau iechyd meddwl o ‘Gwell Cymru’ neu o ddogfen ffynhonnell arall. Yr ydym wedi ymrwymo i alluogi’r strategaeth Gwell Cymru i fynd rhagddi, yn amodol ar yr ymgynghoriad. Bu parodrwydd mudiadau ac unigolion ledled Cymru i ddefnyddio gwefan y Cynulliad, lle y dangosir ‘Gwell Cymru’ yn amlwg, a gwneud sylwadau amdano yn rhyfeddol yn yr ymgynghoriad hwnnw, o ran cyfranogiad dinasyddion yn yr agenda gwell llywodraeth ac wrth greu’r math o gynllun corfforaethol y gall pawb ei gefnogi. Bu dros 16,000 o ymweliadau â gwefan y Cynulliad, gwellcymru.com. Nid oedd y rhai a’i cynlluniodd yn disgwyl lefel ymateb o’r fath o gwbl. Dengys fod defnyddio’r dechnoleg ddiweddaraf yn galluogi dinasyddion gweithredol i ddod i’r amlwg yn y ddemocratiaeth Gymreig newydd a ddechreuodd fis Mai diwethaf.

Christine Chapman: You have answered the question that I was going to ask about the response rate to 'A Better Wales', specifically with regard to website hits. Do you agree that that document represents a welcome element of openness and transparency in our Welsh Government, which you have taken further with your recent announcements?

Christine Chapman: Yr ydych wedi ateb y cwestiwn yr oeddwn am ei ofyn ynghylch maint yr ymateb i 'Gwell Cymru', mewn perthynas ag ymweliadau â'r wefan yn benodol. A gytunwch fod y ddogfen honno'n arwydd o elfen agored a thryloyw yn Llywodraeth Cymru sydd i'w chroesawu, y rhoesoch hwb ychwanegol iddi gyda'ch cyhoeddiadau diweddar?

The First Secretary: The consultation ended on 3 March. The responses, including those from the Welsh Local Government Association and the voluntary sector, were overwhelmingly positive. There were also over 100 written responses. We accept that the final version must be clearly stamped 'made in Wales' and include as many made-in-Wales policies as possible. We are working on that. The Assembly will have the opportunity to debate the plan in detail on 28 March.

Y Prif Ysgrifennydd: Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 3 Mawrth. Yr oedd yr ymatebion, gan gynnwys y rhai gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r sector gwirfoddol, yn ysgubol o gadarnhaol. Yr oedd hefyd dros 100 o ymatebion ysgrifenedig. Derbyniwn fod rhaid i'r fersiwn terfynol fod â marc 'gwnaethpwyd yng Nghymru' yn amlwg arno a chynnwys cynifer ag y bo modd o bolisïau a wnaethpwyd yng Nghymru. Yr ydym yn gweithio ar hynny. Bydd cyfle i'r Cynulliad drafod y cynllun yn fanwl ar 28 Mawrth.

Ieuan Wyn Jones: I return to Pauline's question on ensuring that aspirations are met. We do not want 'A Better Wales' to raise aspirations and then find that the resources are not available to meet them. First, do you recognise that the health service in Wales has a disastrous record on heart problems? How can you assure local health groups, in particular, that they will have more resources to realise the aspirations in 'A Better Wales' and ensure better preventative care for heart disease? Secondly, can you give an assurance that more cardiac surgeons will be appointed in our hospitals so that those unfortunate enough to have a heart attack can be cared for in their local district general hospitals?

Ieuan Wyn Jones: Dychwelaf at gwestiwn Pauline ynghylch sicrhau y cyflawnir dyheadau. Nid ydym am i 'Gwell Cymru' ennyn dyheadau a chanfod wedyn nad oes adnoddau ar gael i'w cyflawni. Yn gyntaf, a ydych yn derbyn bod hanes trychinebus gan y gwasanaeth iechyd yng Nghymru ynghylch problemau'r galon? Sut y gallwch roi sicrwydd i grwpiau iechyd lleol, yn arbennig, y bydd ganddynt fwy o adnoddau i gyflawni'r dyheadau yn 'Gwell Cymru' a sicrhau gofal ataliol gwell ar gyfer afiechyd y galon? Yn ail, a allwch roi sicrwydd y penodir mwy o lawfeddygon cardiaidd yn ein hysbytai fel y gall y rhai sydd mor anffodus â dioddef trawiad ar y galon dderbyn gofal yn eu hysbytai dosbarth cyffredinol lleol?

The First Secretary: We never seem to catch up with the need for cardiac surgery. The number of operations or treatments required seems to overtake estimates of need. Anybody who has had heart disease in the family will be conscious of that. I only have to look at Ieuan's party leader, although I was thinking of my father rather than of Dafydd Wigley. The original estimates for the number of operations required in south and mid Wales increased from 800 to 1,200 and then suddenly shot up to 2,000. Cases in north Wales are normally dealt with in

Y Prif Ysgrifennydd: Ymddengys nad ydym byth yn dal i fyny â'r angen am lawfeddygaeth gardiaidd. Ymddengys fod nifer y llawdriniaethau neu driniaethau angenrheidiol yn goddiweddyd yr amcangyfrifon o'r angen. Bydd rhywun y bu afiechyd y galon yn ei deulu yn ymwybodol o hynny. Nid oes ond rhaid imi edrych ar arweinydd plaid Ieuan, er fy mod yn meddwl am fy nhad yn hytrach nag am Dafydd Wigley. Yr oedd yr amcangyfrifon gwreiddiol o'r nifer o lawdriniaethau angenrheidiol yn ne a chanolbarth Cymru

specialist hospitals in Liverpool and Manchester. That would probably give you an estimate of nearly 3,000 operations a year required in Wales. The figure seems to shoot up all the time. Every time you make a capital investment, such as opening the cardiac centre at Morriston Hospital, you find that it is inadequate. We may need to expand the University Hospital of Wales and Morriston Hospital and have additional provision in north Wales. There may be further announcements on that by the Secretary for Health and Social Services later this week.

wedi codi o 800 i 1,200 ac wedyn wedi codi'n sydyn i 2,000. Ymdrinnir ag achosion yng ngogledd Cymru mewn ysbytai arbenigol yn Lerpwl a Manceinion fel arfer. Mae'n debyg y rhoddai hynny amcangyfrif o bron 3,000 o lawdriniaethau angenrheidiol y flwyddyn yng Nghymru. Ymddengys fod y ffigur yn saethu i fyny drwy'r amser. Bob tro y gwnewch fuddsoddiad cyfalaf, fel agor y ganolfan gardiaidd yn Ysbyty Treforys, cewch ei fod yn annigonol. Efallai y bydd angen inni ehangu Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Treforys a chael darpariaeth ychwanegol yng ngogledd Cymru. Efallai y bydd cyhoeddiadau pellach ar hynny gan yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddiweddarach yr wythnos hon.

Michael German: Do you think that the ambitions and the spending commitments that are inherent in 'A Better Wales' would be better achieved if we had more cash or if we had less? If we had more cash, would the cut in income tax, which has a disproportionate influence on spending in Wales through the Barnett formula, be in the best interests of Wales? Do you recognise that, if Wales lost that public expenditure, we would lose the income tax and an extra £30 million that would go a long way to solve some of the big problems that we have in the health service, some of which have been mentioned earlier today?

Michael German: A gredwch y câi'r uchelgeisiau a'r ymrwymiadau gwariant sydd yn hanfodol i 'Gwell Cymru' eu cyflawni'n well pe bai gennym fwy o arian neu lai? Pe bai gennym fwy o arian, a fyddai'r toriad mewn treth incwm, a gaiff ddylanwad anghymesur ar wariant yng Nghymru drwy fformwla Barnett, er budd gorau Cymru? A gydnabyddwch, pe bai Cymru'n colli'r gwariant cyhoeddus hwnnw, y byddem yn colli'r dreth incwm a £30 miliwn ychwanegol a wnâi lawer i ddatrys rhai o'r problemau mawr sydd gennym yn y gwasanaeth iechyd, y crybwyllwyd rhai ohonynt yn gynharach heddiw?

The First Secretary: Given his customary perspicacity and incisiveness of mind, Mike will have observed that I am not the Chancellor of the Exchequer of the United Kingdom, but the First Secretary of the Assembly. Therefore, matters pertaining to levels of income tax are not matters for me. It stands to reason that the greater the budget available for public expenditure by the Assembly, the greater our ability to fund increases in the health service. That would be welcome. However, many other objectives must be borne in mind, such as trying to ensure that inflation is kept under control, that the Bank of England does not raise interest rates in order to stop inflation increasing and that therefore the exchange rate of the pound goes up. Many other factors must be balanced when the Chancellor of the Exchequer makes his budget announcement

Y Prif Ysgrifennydd: Gyda'i graffter a'i feddwl miniog arferol, bydd Mike wedi sylweddoli nad Canghellor Trysorlys y Deyrnas Unedig mohonof, ond Prif Ysgrifennydd y Cynulliad. Felly, nid yw materion sydd yn ymwneud â lefelau treth incwm yn faterion i mi. Mae'n amlwg mai po fwyaf yw'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer gwariant cyhoeddus gan y Cynulliad, mwyaf yw ein gallu i ariannu cynnydd yn y gwasanaeth iechyd. Byddai croeso i hynny. Fodd bynnag, rhaid ystyried llawer o amcanion eraill, fel ceisio sicrhau y cedwir chwyddiant o dan reolaeth, nad yw Banc Lloegr yn codi cyfraddau llog er mwyn rhwystro cynnydd mewn chwyddiant a bod cyfradd gyfnewid y bunt felly'n codi. Rhaid pwyso a mesur llawer o ffactorau eraill pan yw Canghellor y Trysorlys yn gwneud ei ddatganiad ar y gyllideb am 3.30 p.m.

at 3.30 p.m.

David Davies: Page 4 of 'A Better Wales' discusses better quality of life. In view of the tragic deterioration in quality of life suffered by many as a result of terrorist actions, I thank you for your earlier comments. Will you urge all other parties to disassociate themselves from this shameful visit tomorrow?

David Davies: Mae tudalen 4 o 'Gwell Cymru' yn trafod gwell ansawdd bywyd. Yng ngolwg y dirywiad trasig yn ansawdd bywyd a ddioddefwyd gan lawer o ganlyniad i weithredoedd terfysgol, diolchaf i chi am eich sylwadau cynharach. A wnewch annog yr holl bleidiau eraill i ddatgysylltu eu hunain oddi wrth yr ymweliad cywilyddus hwn yfory?

The Presiding Officer: Order. This question is about 'A Better Wales', not Irish politics.

Y Llywydd: Trefn. Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â 'Gwell Cymru', nid gwleidyddiaeth Iwerddon.

The First Secretary: I only saw this document when David's party leader showed it to me seconds before I stood up to answer questions. I cannot comment further as I do not know anything about the visit.

Y Prif Ysgrifennydd: Ni welais y ddogfen hon cyn i arweinydd plaid David ei dangos imi ychydig eiliadau cyn imi sefyll i ateb cwestiynau. Ni allaf wneud sylw pellach gan nad wyf yn gwybod unrhyw beth am yr ymweliad.

Rod Richards: Does the First Secretary agree that we would have a better Wales if he was better informed, particularly on social exclusion? I could not help noticing that in an earlier answer to a Liberal Democrat he said that he was not privy to what the Chancellor of the Exchequer would say this afternoon. However, his colleague, the Secretary of State for Wales, whose response to 'A Better Wales' he is awaiting, is privy to that information. Is the First Secretary telling us that he is junior to the Secretary of State for Wales? Is this social or political exclusion from the Cabinet?

Rod Richards: A yw'r Prif Ysgrifennydd yn cytuno y byddai gennym well Cymru pe câi fwy o wybodaeth, yn enwedig ar allgáu cymdeithasol? Ni allwn beidio â sylwi, mewn ateb cynharach i Ddemocrat Rhyddfrydol, iddo ddweud na wyddai beth a ddywedai Canghellor y Trysorlys y prynhawn yma. Fodd bynnag, mae ei gydweithiwr, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y mae'n disgwyl ymateb ganddo ar 'Gwell Cymru', yn gwybod am yr wybodaeth honno. A yw'r Prif Ysgrifennydd yn dweud wrthym ei fod yn is nag Ysgrifennydd Gwladol Cymru? Ai allgáu cymdeithasol neu wleidyddol o'r Cabinet yw hyn?

The First Secretary: I do not think that the intended social exclusion was my social exclusion from Cabinet meetings in London, which no doubt take place at regular intervals and at which the Chancellor of the Exchequer may or may not reveal budget details. Everybody should be patient and wait to find out the budget details until they switch on television sets at 3.30 p.m. or until they receive the documentation, which will hopefully be available somewhere in this building when the Chancellor sits down at 4.30 p.m. or 5.00 p.m. If Rod could contain his patience, he would be less worried about whether I am attending Cabinet meetings of the UK Government, which plainly I am not.

Y Prif Ysgrifennydd: Ni chredaf mai'r allgáu cymdeithasol a fwriadwyd oedd fy allgáu i'n gymdeithasol o gyfarfodydd y Cabinet yn Llundain, sydd yn digwydd yn rheolaidd mae'n siŵr a lle y gallai Canghellor y Trysorlys ddatgelu neu beidio â datgelu manylion y gyllideb. Dylai pawb fod yn amyneddgar ac aros i ddarganfod manylion y gyllideb hyd nes y rhoddant eu setiau teledu ymlaen am 3.30 p.m. neu hyd nes y derbyniant y ddogfennaeth, a fydd ar gael, gobeithir, yn rhywle yn yr adeilad hwn pan eistedd y Canghellor am 4.30 p.m. neu 5.00 p.m. Pe gallai Rod ffrwyno ei amynedd, poenai lai ynghylch a wyf yn mynychu cyfarfodydd Cabinet Llywodraeth y DU, gan

nad wyf, wrth gwrs, yn gwneud hynny.

Ymweliad â Brwsel (Pwyllgor Materion Ewropeaidd)
Visit to Brussels (European Affairs Committee)

Q3 Lynne Neagle: Will the First Secretary comment on the European Affairs Committee's visit to Brussels? (OAQ4209)

C3 Lynne Neagle: A wnaiff y Prif Ysgrifennydd sylw am ymweliad y Pwyllgor Materion Ewropeaidd â Brwsel? (OAQ4209)

The First Secretary: I am sure that the representatives from all four parties who were on that visit will agree that it was successful. It provided an opportunity for Committee members to meet and strengthen links with members and staff of the European Commission, the European Parliament, the Committee of the Regions, the UK permanent representation and the Wales European Centre.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn sicr y bydd y cynrychiolwyr o bob un o'r pedair plaid a oedd ar yr ymweliad hwnnw'n cytuno ei fod yn llwyddiannus. Rhoddodd gyfle i aelodau'r Pwyllgor gyfarfod a chryfhau cysylltiadau ag aelodau a staff y Comisiwn Ewropeaidd, Senedd Ewrop, Pwyllgor y Rhanbarthau, cynrychiolaeth barhaol y DU a Chanolfan Ewropeaidd Cymru.

2:21 p.m.

Lynne Neagle: Following the appointment of the Assembly's permanent diplomatic representative in Brussels, will the First Secretary outline the benefits that this will bring for Wales? How will this appointment contribute to ensuring a strong voice for Wales in Europe?

Lynne Neagle: Ar ôl penodi cynrychiolydd diplomyddol parhaol y Cynulliad ym Mrwsel, a wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddisgrifio'r manteision a gaiff Cymru drwy hyn? Sut y bydd y penodiad hwn yn cyfrannu at sicrhau llais cryf i Gymru yn Ewrop?

The First Secretary: The intent is clear: the presence of a civil servant—there will be two civil servants eventually, although only one has been appointed so far—in the Wales European Centre, with full access to the UK permanent representation office, which means that those with diplomatic cover can go without hindrance into the UKREP office and see the telegrams, messages, faxes and e-mails that travel back and forth between UK Government departments and UKREP. We will therefore have representation in Brussels on the inside track of diplomatic efforts across the board, with the different institutions and departments of the UK Government, as well as the Scottish Parliament and the Northern Ireland Assembly. Our representatives, who will have diplomatic status, will be on the inside track to receive information so that they are better placed to ensure that nothing damaging—that we can avoid—is done to Wales and that everything possible will be done to maximise the benefit to Wales.

Y Prif Ysgrifennydd: Mae'r bwriad yn glir: presenoldeb gwas sifil—bydd dau was sifil yn y pen draw, er mai ond un a benodwyd hyd yn hyn—yng Nghanolfan Ewropeaidd Cymru, gyda mynediad llawn i swyddfa cynrychiolaeth barhaol y DU, sydd yn golygu y caiff y rhai a chanddynt warant diplomyddol fynd yn ddi-rwystr i swyddfa UKREP a gweld y telegramau, negeseuon, ffacsiau a negeseuon e-bost sydd yn mynd yn ôl ac ymlaen rhwng adrannau Llywodraeth y DU ac UKREP. Felly bydd gennym gynrychiolaeth ym Mrwsel ar y trac mewnol yn yr ymdrechion diplomyddol drwyddynt draw, gyda'r gwahanol sefydliadau ac adrannau Llywodraeth y DU, yn ogystal â Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Bydd ein cynrychiolwyr, a chanddynt statws diplomyddol, ar y trac mewnol er mwyn derbyn gwybodaeth fel y byddant mewn gwell sefyllfa i sicrhau na wneir unrhyw beth sydd yn niweidiol i Gymru—y gallwn ei osgoi—ac y gwneir popeth y gellir i amlhau'r budd i Gymru.

Phil Williams: Bearing in mind the confusion and disappointment associated with the rejection of the all-Wales calf processing aid scheme, problems with the organic aid scheme and, above all, the rejection of the map for regional selective assistance, does Rhodri share my misgivings about the quality of the UK's diplomatic representation in Brussels? In addition to having one observer in the UKREP office, will you outline any further proposals to strengthen direct links between the Assembly and the European Commission during crucial negotiations?

Phil Williams: O gofio'r dryswch a'r siom a oedd yn gysylltiedig â gwrthod y cynllun cymorth prosesu lloi I Gymru gyfan, problemau gyda'r cynllun cymorth organig ac, yn fwy na dim, gwrthod y map ar gyfer cymorth rhanbarthol dewisol, a yw Rhodri'n rhannu'r amheuon sydd gennyf ynghylch ansawdd cynrychiolaeth ddiplomyddol y DU ym Mrwsel? Yn ogystal â chael un sylwebydd yn swyddfa UKREP, a wnewch ddisgrifio unrhyw gynigion pellach i gryfhau'r cysylltiadau uniongyrchol rhwng y Cynulliad a'r Comisiwn Ewropeaidd yn ystod trafodaethau tyngedfennol?

The First Secretary: There will be two observers, not one, although the only one appointed so far is Des Clifford, who is well-known to all of us in this building. Another way in which we can strengthen ties between ourselves and Brussels is to try to maximise attendance by Assembly Cabinet members at Council of Ministers' meetings to ensure that we are in the loop. As Phil will recall from the last European Affairs Committee meeting, we must also make our views known to the institutions of the British Government and place on record the collective views of the European Affairs Committee so that it is not open to the accusation of being a talking shop. We must manifest a Welsh view of issues before they are decided upon at an intergovernmental conference, such as the one in Lisbon this weekend.

Y Prif Ysgrifennydd: Bydd dau sylwebydd, nid un, er mai'r unig un a benodwyd hyd yn hyn yw Des Clifford, sydd yn adnabyddus i bawb ohonom yn yr adeilad hwn. Modd arall inni gryfhau cysylltiadau rhyngom ni a Brwsel yw ceisio sicrhau'r presenoldeb mwyaf posibl o aelodau Cabinet y Cynulliad yng nghyfarfodydd Cyngor y Gweinidogion er mwyn sicrhau ein bod yn y ddolen. Fel y cofia Phil o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor Materion Ewropeaidd, rhaid inni hefyd roi gwybod am ein barn i sefydliadau Llywodraeth Prydain a chofnodi cyd-farn y Pwyllgor Materion Ewropeaidd fel nad yw'n agored i'r cyhuddiad ei fod yn siop siarad. Rhaid inni amlygu barn Gymreig ar faterion cyn eu penderfynu mewn cynhadledd rynglywodraethol, fel yr un yn Lisbon y penwythnos hwn.

Jonathan Morgan: While in Brussels, First Secretary, did you speak to officials about the rejection of the assisted areas map? Are you still confident that the ward-based map that has been put to the Commission will be approved?

Jonathan Morgan: Tra yr oeddech ym Mrwsel, Brif Ysgrifennydd, a siaradasoch â swyddogion ynghylch gwrthod y map ardaloedd a gynorthwyir? A ydych yn ffyddiog o hyd y bydd y map ar sail wardiau a gyflwynwyd i'r Comisiwn yn cael ei gymeradwyo?

The First Secretary: Yes, I had the opportunity to discuss the strong objections of the Competition Directorate of the European Commission to the UK proposals of last summer and its great concern about that methodology, which it saw as a way of circumnavigating the reduction in population coverage. The directorate took this view because of the way that one can collect wards together to take out population but not industrial sites. Therefore one could still have

Y Prif Ysgrifennydd: Do, cefais gyfle I drafod gwrthwynebiadau cryf Cyfarwyddiaeth Gystadleuaeth y Comisiwn Ewropeaidd i'r cynigion a gyflwynodd y DU yr haf diwethaf a'i phryder mawr ynghylch y fethodoleg honno, a ystyriai'n fodd i osgoi'r gostyngiad ym maint y boblogaeth a gynhwysir. Yr oedd y gyfarwyddiaeth o'r farn hon oherwydd y modd y gellir casglu wardiau at ei gilydd er mwyn tynnu allan poblogaeth ond nid safleoedd diwydiannol.

the same employment creation but with the lower residential population officially attached to it. The directorate objected strongly to the methodology because it thought that it frustrated the purposes of the reduced population coverage. We are still hopeful that, by some means or other, the UK Government, with the Department of Trade and Industry taking the lead on this matter, will achieve an agreement with the European Commission before long.

Felly gellid creu'r un gyflogaeth ond gyda'r boblogaeth breswyl is wedi ei chysylltu'n swyddogol â hynny. Yr oedd y gyfarwyddiaeth yn gwrthwynebu'r fethodoleg yn gryf am y credai ei bod yn llesteirio dibenion y boblogaeth lai a gynhwyswyd. Yr ydym yn dal yn obeithiol, drwy ryw fodd neu'i gilydd, y bydd Llywodraeth y DU, â'r Adran Masnach a Diwydiant yn arwain ar y mater hwn, yn cyrraedd cytundeb â'r Comisiwn Ewropeaidd cyn hir.

Val Feld: Have you considered the invitation issued by Neil Kinnock, the vice-president of the European Commission, for the whole Assembly to visit Brussels, as the Northern Ireland Assembly did? Do you feel that social inclusion in Welsh politics would benefit from Assembly Members bonding together in Brussels?

Val Feld: A ydych wedi ystyried y gwahoddiad a roddwyd gan Neil Kinnock, is-lywydd y Comisiwn Ewropeaidd, i'r Cynulliad cyfan ymweld â Brwsel, fel y gwnaeth Cynulliad Gogledd Iwerddon? A deimlwch y byddai cynhwysiant cymdeithasol yng ngwleidyddiaeth Cymru'n elwa o'r bondio ymysg Aelodau'r Cynulliad ym Mrwsel?

The First Secretary: I am not keen to stray into these sensitive matters of whether or not people bond in Brussels. On Northern Ireland Assembly Members, Neil Kinnock made the point firmly that they do not talk to each other in Northern Ireland because the barricades go up as soon as they get off the plane. However, I am sure that Alun Michael, Ron Davies and others will have observed that the Northern Ireland MPs can talk to each other much more freely in the House of Commons, where Dr Ian Paisley will talk freely to Social Democratic and Labour Party members, but cannot be seen to do so in Northern Ireland. We do not have the same inhibitions about talking to each other. However, we should consider the invitation.

Y Prif Ysgrifennydd: Nid wyf yn awyddus I grwydro i'r materion sensitif o ba un a yw pobl yn bondio ym Mrwsel neu beidio. Ynghylch Aelodau Cynulliad Gogledd Iwerddon, gwnaeth Neil Kinnock y pwynt yn gadarn nad ydynt yn siarad â'i gilydd yng Ngogledd Iwerddon am fod y baricedau'n codi cyn gynted ag y deuant oddi ar yr awyren. Fodd bynnag, yr wyf yn sicr y bydd Alun Michael, Ron Davies ac eraill wedi sylwi y gall ASau Gogledd Iwerddon siarad yn llawer rhwyddach â'i gilydd yn Nhŷ'r Cyffredin, lle y bydd Dr Ian Paisley yn siarad yn ddi-rwystr ag aelodau'r Blaid Ddemocrataidd Gymdeithasol a'r Blaid Lafur, ond na allant gael eu gweld yn gwneud hynny yng Ngogledd Iwerddon. Nid ydym yn profi atalfa o'r fath ynghylch siarad â'n gilydd. Fodd bynnag, dylem ystyried y gwahoddiad.

Y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd
The European Social Fund

C4 Elin Jones: Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi eu cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn ddiweddar ynglŷn â gweinyddu arian y gronfa gymdeithasol Ewropeaidd o dan raglenni Amcan 1 a 3 yng Nghymru? (OAQ4212)

Q4 Elin Jones: What discussions has the First Secretary had with the Secretary of State for Wales recently concerning the administration of European social funds under Objective 1 and 3 programmes in Wales? (QAQ4212)

Y Prif Ysgrifennydd: Y mae'r mater hwn yn codi'n rheolaidd yn fy nhrafodaethau â'r Ysgrifennydd Gwladol a gynhelir yn wythnosol, sef a ddylem geisio rhoi'r gronfa gymdeithasol Ewropeaidd o dan ein rheolaeth ni yn hytrach nag o dan reolaeth yr Adran Addysg a Chyflogaeth. Mae pawb yn derbyn y byddai rhoi'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd o dan yr un to yn gwella safon y gweinyddu, yn enwedig pan fydd Amcan 1 yn dod i mewn. Er mwyn sicrhau hynny, y mae'n rhaid i'r Adran Addysg a Chyflogaeth drosglwyddo hawl yr arolwg gwariant cyhoeddus i'r Cynulliad.

The First Secretary: This matter arises regularly in my weekly discussions with the Secretary of State, namely, should we try to place the European social fund under our own control rather than that of the Department for Education and Employment. Everyone accepts that putting all the European structural funds under one roof would improve the quality of the administration, particularly when Objective 1 comes in. To ensure that, the Department for Education and Employment must transfer the public expenditure survey cover to the Assembly.

Elin Jones: Y sefyllfa ddelfrydol yw bod cyfrifoldeb dros yr holl gronfeydd strwythurol yn cael ei drosglwyddo i'r Cynulliad, fel y dywedodd y Prif Ysgrifennydd. Os na fydd hynny'n digwydd, a yw'r Prif Ysgrifennydd wedi cael trafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ynglŷn â faint o adnoddau a ddyrennir o fewn yr Adran Addysg a Chyflogaeth i weithredu'r rhaglenni Amcan 1 a 3 yng Nghymru?

Elin Jones: The ideal situation is for responsibility over all structural funds to be transferred to the Assembly, as the First Secretary said. If that does not happen, has the First Secretary had discussions with the Secretary of State on what resources will be allocated within the Department for Education and Employment to administer the Objective 1 and 3 programmes in Wales?

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, y mae Amcanion 2, 3, 4 a 5b wedi cael eu gweinyddu gan un person yn yr Adran Addysg a Chyflogaeth yn Llundain. Mae hynny'n annerbyniol o ystyried ein bod yn trafod pwysigrwydd y gronfa gymdeithasol Ewropeaidd o dan raglenni Amcan 1 a 3 ar gyfer y saith mlynedd nesaf.

In recent years, Objectives 2, 3, 4 and 5b have been administered by one person in the Department for Education and Employment in London. That is unacceptable given that we are discussing the importance of the European social fund under Objective 1 and 3 programmes for the next seven years.

Y Prif Ysgrifennydd: Y mae'r Adran Addysg a Chyflogaeth yn awyddus i drosglwyddo'r cyfrifoldeb i ni, ond nid yw'n awyddus, hyd yn hyn, i drosglwyddo'r arian y disgwyliwn y bydd ei angen arnom i noddi agweddau cymdeithasol a hyfforddi Amcan 1. Dyna'r broblem.

The First Secretary: The Department for Education and Employment is keen to transfer the responsibility to us, but it has not been keen, so far, to transfer the money that we expect that we will need to sponsor the social and training aspects of Objective 1. That is the problem.

Y mae'r adran yn awyddus i fod yn rhydd o'r cyfrifoldeb oherwydd, fel y dywedodd Elin, un person yn unig yn ei phencadlys yn Llundain sydd yn delio â Chymru. Nid yw'r adran yn delio â rhanbarthau Lloegr; y mae'n delio â Chymru yn unig. Mae'n awyddus i drosglwyddo'r cyfrifoldeb ond, hyn yn hyn, nid ydym yn gallu cytuno ar y ffigurau ar gyfer trosglwyddo hawl yr arolwg gwariant cyhoeddus.

The department is keen to be rid of the responsibility because, as Elin said, only one person in its London headquarters deals with Wales. The department does not deal with the English regions; it only deal with Wales. It is keen to transfer that responsibility but, so far, we cannot agree on the figures for the transferral of the public expenditure survey cover.

William Graham: In the light of what

William Graham: Yng ngoleuni'r hyn a

happened to your predecessor, what additional action will you take to guarantee that you do not suffer the same fate?

ddigwyddodd i'ch rhagflaenydd, pa gamau ychwanegol a gymerwch i sicrhau na fyddwch yn dioddef yr un dynged?

Rhodri Morgan: I am not sure how William's question is connected with European social funds under Objective 1 and 3 programmes in Wales. If the question implies that match funding was linked with the vote of no confidence, that is correct. However, every First Secretary must pursue matters that are delegated to them by the Assembly in the best way that they can. Whatever happens politically in a minority administration is one of those things over which you have no control and which is written about in the history books. If there are 28 people in your group and 32 in the other party groups combined, then, *que será, será.*

Rhodri Morgan: Nid wyf yn sicr o gysylltiad cwestiwn William â chronfeydd cymdeithasol Ewropeaidd o dan raglenni Amcan 1 a 3 yng Nghymru. Os yw'r cwestiwn yn awgrymu bod cysylltiad rhwng cyllid cyfatebol a'r bleidlais o ddiffyg hyder, mae'n gywir. Fodd bynnag, rhaid i bob Prif Ysgrifennydd ddilyn materion a ddirprwyir iddo gan y Cynulliad hyd eithaf ei allu. Nid yw'r hyn a ddigwydd yn wleidyddol mewn gweinyddiaeth leiafrifol ond yn un o'r pethau hynny nad oes gennych reolaeth drosto ac yr ysgrifennir amdano yn y llyfrau hanes. Os oes 28 o bobl yn eich grŵp a 32 yn y grwpiau plaid eraill gyda'i gilydd, yna, *que será, será.*

2:31 p.m.

Christine Humphreys: Do you accept that the only way that we can assess whether the administration of structural funds is effective is if the schemes are independently monitored? What action are you taking to create an independent monitoring structure?

Christine Humphreys: A ydych yn derbyn mai'r unig fodd inni asesu a yw gweinyddiaeth y cronfeydd strwythurol yn effeithiol yw monitro'r cynlluniau'n annibynnol? Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i greu strwythur monitro annibynnol?

The First Secretary: I agree totally that the evaluation of how European structural funds contribute to job or wealth creation or the removal of social exclusion is important. That evaluation must be independent and done regularly. I think that the British lead most European member states in trying to ensure that structural funding is evaluated to see whether it has produced the intended outcome. I have no actions in mind, but I have every sympathy with the principle. If Christine has examples of structural funding that has not been subject to independent evaluation, I will ensure that that gap is filled.

Y Prif Ysgrifennydd: Cytunaf yn llwyr ei bod yn bwysig gwerthuso'r modd y mae cronfeydd strwythurol Ewropeaidd yn cyfrannu at greu swyddi neu gyfoeth neu at ddileu allgáu cymdeithasol. Rhaid i'r gwerthuso hwnnw fod yn annibynnol a chael ei gyflawni'n rheolaidd. Credaf fod y Prydeinwyr ar y blaen i'r rhan fwyaf o aelod wladwriaethau Ewropeaidd wrth geisio sicrhau y caiff ariannu strwythurol ei werthuso i weld a greodd y canlyniad a fwriadwyd. Nid oes gennyf unrhyw gamau mewn golwg, ond cydymdeimlaf yn llwyr â'r egwyddor. Os oes gan Christine enghreifftiau o ariannu strwythurol na werthuswyd yn annibynnol, byddaf yn sicrhau y caeir y bwlch hwnnw.

Cynnydd ynghylch Ariannu Rhaglen Amcan 1
Progress on Financing the Objective 1 Programme

Q5 Janet Davies: Can the First Secretary report on any progress in his recent discussions with the Chief Secretary to the Treasury regarding the financing of the

C5 Janet Davies: A all y Prif Ysgrifennydd adrodd am unrhyw gynnydd yn ei drafodaethau diweddar â Phen Ysgrifennydd y Trysorlys ynghylch ariannu rhaglen Amcan

Objective 1 programme? (OAQ4198)

The First Secretary: As I reported on 29 February, I met with the Chief Secretary to the Treasury on 23 February and discussed Objective 1 funding extensively. Discussions as to the best solution to the problem are ongoing at official and political level. I have made it clear publicly, as did Alun Michael before I became First Secretary, that we would prefer that Objective 1 and other European structural funding be taken outside the Barnett formula. That is the proper, transparent solution to this problem. As yet, that has not been accepted but we live in hope.

Janet Davies: I refer to the recent damning special report on additionality from the European Court of Auditors, especially the comments on the failure of the UK Government to demonstrate that it complies or even to send the relevant data to the European Commission to prove that it does so. Given that report, will you press the Chief Secretary to the Treasury on the need for a UK audit on the application of the additionality principle as regards structural funds?

The First Secretary: Audit matters are more for you, Janet, as Chair of the Audit Committee, than for me. If there are issues that you think need to be examined in terms of Wales, I am sure that you will undertake to do that in the Committee. The question of whether this is a good time to press the UK Government on additionality is distinct from the issue that I mentioned earlier, of trying to get the new structural funds programme put through on the basis that it is over and above the Barnett formula. My inclination, given my responsibilities, would be to concentrate on that and not to open up too many fronts. However, I understand why Janet, given her role, would want to concentrate on any errors identified by the European Court of Auditors as regards past expenditure for previous structural funds.

Alun Cairns: Somewhat appropriately, given that it is budget day and that we are nearing

1? (OAQ4198)

Y Prif Ysgrifennydd: Fel yr adroddais ar 29 Chwefror, cyfarfûm â Phen Ysgrifennydd y Trysorlys ar 23 Chwefror a thrafodasom ariannu Amcan 1 yn helaeth. Mae trafodaethau ynghylch yr ateb gorau i'r broblem yn mynd rhagddynt ar lefel swyddogol a gwleidyddol. Rhoddais ar ddeall yn gyhoeddus, fel y gwnaeth Alun Michael cyn imi ddod yn Brif Ysgrifennydd, y byddai'n well gennym pe bai Amcan 1 ac ariannu strwythurol Ewropeaidd arall yn cael eu tynnu allan o fformwla Barnett. Dyna'r ateb tryloyw, priodol i'r broblem hon. Hyd yn hyn, ni dderbyniwyd hynny ond yr ydym yn byw mewn gobaith.

Janet Davies: Cyfeiriaf at yr adroddiad arbennig damniol diweddar ar ychwanegedd oddi wrth Lys Archwilwyr Ewrop, yn enwedig y sylwadau ar fethiant Llywodraeth y DU i ddangos ei bod yn cydymffurfio neu hyd yn oed anfon y data perthnasol at y Comisiwn Ewropeaidd i brofi ei bod yn gwneud hynny. Yng ngolwg yr adroddiad hwnnw, a fyddwch yn pwyso ar Ben Ysgrifennydd y Trysorlys ynghylch yr angen am archwiliad yn y DU ar gymhwyso egwyddor ychwanegedd mewn perthynas â chronfeydd strwythurol?

Y Prif Ysgrifennydd: Mae materion archwilio yn fwy o beth i chi, Janet, fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, nag i mi. Os oes materion y credwch fod angen eu harchwilio yn nhermau Cymru, yr wyf yn sicr y byddwch yn ymgymryd hynny yn y Pwyllgor. Mae'r cwestiwn o ba un a yw hon yn adeg dda i bwyso ar Lywodraeth y DU ynghylch ychwanegedd yn wahanol i'r mater a grybwyllais yn gynharach, sef ceisio sicrhau y caiff y rhaglen cronfeydd strwythurol newydd ei gyrru drwodd ar y sail ei bod uwchlaw fformwla Barnett. Fy nhueddiad i, yng ngolwg fy nghyfrifoldebau, fyddai canolbwyntio ar hynny a pheidio â mynd i ormod o gyfeiriadau. Fodd bynnag, deallaf pam y byddai Janet, yng ngolwg ei rôl, am ganolbwyntio ar unrhyw wallau a ddynodir gan Lys Archwilwyr Ewrop o ran gwariant yn y gorffennol ar gyfer cronfeydd strwythurol blaenorol.

Alun Cairns: Yn briodol braidd, gan mai heddiw yw diwrnod y gyllideb a chan ein bod

the end of the comprehensive spending review, will you place on record that match funding will be required over and above the Barnett block grant? If there is a large increase in public expenditure on a UK basis, of which Wales will receive its share through the Barnett formula, will you state categorially that that is not acceptable because Wales needs that money over and above the Barnett block grant if it is to make Objective 1 funding work?

yn nesáu at ddiwedd yr arolwg cynhwysfawr o wariant, a gofnodwch y bydd angen cyllid cyfatebol uwchlaw grant bloc Barnett? Os oes cynnydd mawr mewn gwariant cyhoeddus drwy'r DU, y bydd Cymru'n derbyn ei chyfran ohono drwy fformwla Barnett, a wnewch ddatgan yn bendant nad yw hynny'n dderbyniol am fod ar Gymru angen yr arian hwnnw uwchlaw grant bloc Barnett os ydyw i gael cyllid Amcan 1 i weithio?

The First Secretary: That was a nitpicking question, Alun. You could nitpick for Wales, if you did not have three New Zealander grandmothers. I have stated publicly, and restate this afternoon, the long-held belief of this administration that it would be better for the Treasury, ourselves, Europe, and potential recipients of structural funds, that the funds—that is, the public expenditure survey cover—be taken outside the Barnett formula. That is the key issue. PES cover is loosely referred to as match funding by the public, though match funding is a slightly different matter. Getting the PES cover taken outside the Barnett formula is the big battle. If we can win that battle, we are 90 per cent of the way there.

Y Prif Ysgrifennydd: Cwestiwn sydd yn pigo beiau oedd hwnnw, Alun. Gallech bigo beiau dros Gymru, pe na bai tair o'ch neiniau o Seland Newydd. Datgenais ar goedd, a datganaf eto y prynhawn yma, y gred sydd gan y weinyddiaeth hon ers amser maith y byddai'n well i'r Trysorlys, ninnau, Ewrop, a derbynwyr posibl y cronfeydd strwythurol, i'r cyllid—hynny yw, yr arian yn yr arolwg o wariant cyhoeddus—gael ei dynnu o fformwla Barnett. Dyna'r mater allweddol. Cyfeirir at arian yr arolwg o wariant cyhoeddus fel cyllid cyfatebol gan y cyhoedd, er bod cyllid cyfatebol yn fater ychydig yn wahanol. Sicrhau y caiff arian yr arolwg o wariant cyhoeddus ei dynnu o fformwla Barnett yw'r frwydr fawr. Os gallwn ennill y frwydr honno, yr ydym 90 y cant o'r ffordd yno.

Darpariaeth Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru
Provision of Health Services in Wales

Q6 Kirsty Williams: What discussions has the First Secretary had with the Assembly Secretary for Health and Social Services on the provision of health services to the people of Wales? (OAQ4202)

C6 Kirsty Williams: Pa drafod a fu rhwng y Prif Ysgrifennydd ac Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cynulliad ynghylch darparu gwasanaethau iechyd i bobl Cymru? (OAQ4202)

The First Secretary: I have frequent discussions with the Secretary for Health and Social Services, as Kirsty will not be surprised to learn. I have almost as many discussions with Jane Hutt on this issue as Kirsty does as Chair of the Health and Social Services Committee. These focus on the key issues facing NHS Wales and the mechanisms through which the Assembly seeks to address the issues concerning our poor state of health in Wales.

Y Prif Ysgrifennydd: Caf drafodaethau'n aml â'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac ni fydd Kirsty'n synnu o glywed hynny. Caf bron gymaint o drafodaethau â Jane Hutt ar y mater hwn ag y mae Kirsty fel Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar y materion allweddol sydd yn wynebu NHS Cymru a'r mecanweithiau a ddefnyddia'r Cynulliad i geisio ymdrin â'r materion sydd yn ymwneud â'n cyflwr iechyd gwael yng Nghymru.

Kirsty Williams: I have not had an

Kirsty Williams: Ni chefais gyfle'n

opportunity recently to discuss with Jane our ability to perform kidney transplants in Wales with Jane, but I did so before the Christmas recess. Will the First Secretary comment on the decision by the University Hospital of Wales Healthcare NHS Trust to suspend such services given that the two surgeons involved in delivering them were exhausted? What will he do to ensure that NHS Wales attracts the best quality staff, who will do their job in the best circumstances and remain in Wales?

ddiweddar i drafod gyda Jane ein gallu i gyflawni trawsblaniadau o arennau yng Nghymru, ond gwneuthum hynny cyn toriad y Nadolig. A wnaiff y Prif Ysgrifennydd sylw am benderfyniad Ymddiriedolaeth NHS Gofal Iechyd Ysbyty Athrofaol Cymru i atal gwasanaethau o'r fath yng ngolwg y ffaith bod y ddau lawfeddyg a oedd yn gysylltiedig â'u cyflawni wedi ymlâdd? Beth a wna i sicrhau bod NHS Cymru'n denu staff o'r ansawdd gorau, a fydd yn gwneud eu gwaith yn yr amgylchiadau gorau ac yn aros yng Nghymru?

The First Secretary: All of us probably read the story of how kidneys ready for transplant had not been used because of the exhaustion of two locum surgeons who had been operating continuously for 15 days. The management wisely decided that enough was enough and that they could not carry on because they risked making a mistake.

Y Prif Ysgrifennydd: Mae'n debyg bod pawb ohonom wedi darllen y stori am y modd yr oedd arennau a oedd yn barod i'w trawsblannu heb eu defnyddio oherwydd blinder dau ddirprwy lawfeddyg a fu'n gweithredu'n ddi-dor am 15 niwrnod. Penderfynodd y rheolwyr yn ddoeth mai digon oedd digon ac na allent barhau am fod perygl y gwnaent gamgymeriad.

This situation has been building up since Rosanna Lord and her outstanding team—the best team in the world in terms of its results—was persuaded to go to such hospitals as Guys or St Thomas's in London. That was a tragic loss for us. Locum surgeons were appointed. Only two out of three were available and they became exhausted. Moves to appoint a team of three are imminent. I hope that such a situation as dedicated kidney surgeons having to take a long weekend of rest and recovery after operating as a team of two instead of three will not recur and that a long-term solution of having a full team of three on a permanent basis will follow shortly.

Bu'r sefyllfa hon yn crynhoi ers i Rosanna Lord a'i thîm rhagorol—y tîm gorau yn y byd o ran ei ganlyniadau—gael eu perswadio i fynd i ysbytai fel Guys neu St Thomas's yn Llundain. Yr oedd hynny'n golled enbyd i ni. Penodwyd dirprwy lawfeddygon. Dim ond dau o'r tri oedd ar gael ac yr oeddent wedi blino'n llwyr. Mae camau i benodi tîm o dri ar fin digwydd. Gobeithiaf na fydd sefyllfa o'r fath lle'r oedd llawfeddygon arennau ymroddedig wedi gorfod gorffwys ac ymadfer dros benwythnos hir ar ôl gweithredu fel tîm o ddau yn lle tri yn digwydd eto ac y bydd ateb tymor hir o gael tîm llawn o dri yn barhaol yn dilyn cyn hir.

Geraint Davies: What progress is being made on the Assembly's substance and alcohol abuse strategy, bearing in mind that Wales holds the record for the highest rate of beer consumption by 15-year-old boys in the European Union? What action does the First Secretary propose to take and what resources will he allocate to tackle this serious problem?

Geraint Davies: Pa gynnydd sydd yn digwydd ar strategaeth camddefnyddio sylweddau ac alcohol y Cynulliad, o gofio mai gan Gymru y mae'r record am y gyfradd uchaf o yfed cwrw ymysg bechgyn 15 mlwydd oed yn yr Undeb Ewropeaidd? Pa gamau y mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu eu cymryd a pha adnoddau y bydd yn eu dyrannu i ymdrin â'r broblem ddifrifol hon?

The First Secretary: I cannot give details about resources to be allocated to address alcohol and substance abuse but I accept the high priority that Geraint has put on the issue.

Y Prif Ysgrifennydd: Ni allaf roi manylion am yr adnoddau sydd i'w dyrannu i ymdrin â chamddefnyddio alcohol a sylweddau ond derbyniaf y flaenoriaeth uchel a roddodd

I heard Alun Michael talking about it on Radio 5 Live this morning as I was on my way to Nantgarw for the call centre opening. It is serious that we have the highest rates of near alcoholism among 15 year-old boys in Europe. The matter deserves urgent attention. We must make young people realise how much damage excessive drinking causes to internal organs so that they can avoid kidney or liver transplants when they reach 35. At 15, they may not realise how much damage they are doing to themselves. This issue has been hidden and needs to be brought out into the open. Urgent action must be taken to combat it.

Geraint i'r mater. Clywais Alun Michael yn siarad amdano ar Radio 5 Live y bore yma pan oeddwn ar fy ffordd i Nantgarw ar gyfer agoriad y ganolfan alwadau. Mae'n ddifrifol mai gennym ni y mae'r cyfraddau uchaf o led-alcoholiaeth ymysg bechgyn 15 mlwydd oed yn Ewrop. Mae'r mater yn teilyngu sylw brys. Rhaid inni beri i bobl ifanc sylweddoli maint y difrod y mae yfed gormodol yn ei achosi i organau mewnol fel y gallant osgoi trawsblaniadau aren neu iau pan gyrhaeddant 35. Yn 15, efallai nad ydynt yn sylweddoli faint o ddifrod y maent yn ei wneud iddynt hwy eu hunain. Bu'r mater hwn yn guddiedig ac mae angen dod ag ef i'r amlwg. Rhaid gweithredu ar frys yn ei erbyn.

David Melding: Your party promised to cut in-patient waiting lists in Wales by 5,000 but they have increased by 10,000. What has happened?

David Melding: Addawodd eich plaid dorri rhestrau aros cleifion mewnol o 5,000 ond cynyddasant o 10,000. Beth a ddigwyddodd?

The First Secretary: It is simple. We all know what has happened. People are surviving longer and so greater demands are being made on the health service. Even though the number of treatments has increased, there is still an increase in waiting lists. This increase may be in the wait for treatment or for first diagnosis by a consultant, which has gone up more rapidly than the waiting list for treatment in general. That does not mean that we have been doing less. It is compatible with what has been happening. We have been doing more but demands are increasing even faster than we can expand the capacity of the NHS to meet them.

Y Prif Ysgrifennydd: Mae'n syml. Gwyddom oll beth sydd wedi digwydd. Mae pobl yn goroesi'n hwy felly mae mwy o alwadau ar y gwasanaeth iechyd. Er bod nifer y triniaethau wedi cynyddu, mae cynnydd o hyd yn y rhestrau aros. Gallai'r cynnydd hwn fod ar gyfer aros am driniaeth neu ar gyfer diagnosis cyntaf gan ymgynghorydd, sydd wedi codi'n gynt na'r rhestr aros ar gyfer triniaeth yn gyffredinol. Nid yw hynny'n golygu ein bod wedi bod yn gwneud llai. Mae'n gyson â'r hyn a fu'n digwydd. Buom yn gwneud mwy ond mae'r galwadau'n cynyddu'n gynt hyd yn oed nag y gallwn i ehangu gallu'r NHS i'w diwallu.

2:41 p.m.

Cwestiwn Brys
Urgent Question

Sector Cynhyrchu Cydrannau Ceir yng Nghymru (Rover/BMW)
Car Component Manufacture Sector in Wales (Rover/BMW)

Brian Gibbons: Will the First Secretary make a statement on the implications for the car component sector in Wales following recent events at Rover and BMW? (EAQ4486)

Brian Gibbons: A wnaiff y Prif Ysgrifennydd ddatganiad ar yr oblygiadau i'r sector cynhyrchu cydrannau ceir yng Nghymru yn dilyn digwyddiadau diweddar yn Rover a BMW? (EAQ4486)

The First Secretary: I am grateful to you for raising this issue. In the press and political coverage of the likely closure of mass

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn ddiolchgar i chi am godi'r mater hwn. Yn y sylw gan y wasg a chan wleidyddion ar ddiwedd tebygol

production of Rover cars at Longbridge, although not at Cowley, it is sometimes forgotten how dependent on supplying the British car industry much of the manufacturing industry in Wales is. That applies not only to the strip mills and the finished products end of the steel industry, such as Port Talbot, Llanwern, Ebbw Vale and Shotton, but also to all manner of car component suppliers across Wales. You could almost say that every part of a car is manufactured in Wales even though there is no car assembly plant in Wales and there never has been. The likely effect has been broadly anticipated or calculated on a broad-brush basis by the WDA. This is not an estimate on which you could rely. About 1,000 jobs are likely to be lost if mass production of cars ends at Longbridge. We do not know exactly where those jobs will be lost. The figure is taken as a proportion of the total automotive components industry in Wales, plus the steel industry. It is divided by the proportion of car production in the UK that will be lost as a result of mass production car assembly finishing in Longbridge under Alchemy's proposals to take over from BMW. That is against a background of an expanding automotive components industry. This gives the industry immense diversity and strength and the ability to attract other customers at the same time as maybe losing a customer at Rover in Longbridge.

masgynhyrchu ceir Rover yn Longbridge, er nad yn Cowley, anghofir weithiau mor ddibynnol ar gyflenwi diwydiant ceir Prydain y mae llawer o'r diwydiant cynhyrchu yng Nghymru. Mae hynny'n wir nid yn unig am y melinau stribed ac ochr cynhyrchion gorffenedig y diwydiant dur, fel Port Talbot, Llanwern, Glyn Ebwy a Shotton, ond hefyd am bob math o gyflenwyr rhannau ceir ledled Cymru. Gallech bron â dweud bod pob rhan o gar yn cael ei chynhyrchu yng Nghymru er nad oes gwaith cydosod ceir yng Nghymru ac na fu un erioed. Mae'r effaith debygol wedi ei lled-ddisgwyl neu ei chyfrifo'n fras gan ADC. Nid yw hwn yn amcangyfrif y gallech ddibynnu arno. Mae tua 1,000 o swyddi'n debygol o gael eu colli os daw masgynhyrchu ceir i ben yn Longbridge. Ni wyddom ym mha le yn union y collir y swyddi hynny. Cymerir y ffigur fel cyfran o'r diwydiant cydrannau ceir cyfan yng Nghymru, ynghyd â'r diwydiant dur. Fe'i rhennir â chyfran y cynnyrch ceir yn y DU a gollir o ganlyniad i orffen masgynhyrchu cydosod ceir yn Longbridge o dan gynigion Alchemy i gymryd lle BMW. Mae hynny'n digwydd ar gefndir o ddiwydiant rhannau ceir sydd yn ehangu. Mae hyn yn rhoi amrywiaeth a chryfder aruthrol i'r diwydiant a'r gallu i ddenu cwsmeriaid eraill ar yr un pryd â cholli cwsmer efallai yn Rover yn Longbridge.

Brian Gibbons: In view of this serious number of job losses and how it impacts on industry in south Wales, do you agree that it is important that the Assembly looks at the business impact of all its policies in the manufacturing sector and tries to make south Wales an attractive area for employment in the manufacturing sector?

Brian Gibbons: Yng ngolwg y nifer ddifrifol hon o golledion swyddi a'r modd yr effeithia ar ddiwydiant yn ne Cymru, a gytunwch ei bod yn bwysig i'r Cynulliad ystyried effeithiau busnes ei holl bolisïau yn y sector cynhyrchu a cheisio gwneud de Cymru'n ardal ddeniadol ar gyfer cyflogaeth yn y sector cynhyrchu?

The First Secretary: Yes, I agree. Anyone who travels regularly on the M5 and M50 between south Wales and Birmingham—I am sure that the same would be true on the M6 from north-east Wales—sees a constant stream of lorries travelling back and forth to Rover and other car factories in the west Midlands. That umbilical cord between us producing the steel or the pressed steel panels or whatever and then shipping them to Longbridge has existed for the past 40 or 50 years and it would have a serious impact in

Y Prif Ysgrifennydd: Cytunaf. Mae rhywun sydd yn teithio'n rheolaidd ar yr M5 a'r M50 rhwng de Cymru a Birmingham—ac yr wyf yn siŵr y byddai hynny'n wir hefyd ar yr M6 o ogledd-ddwyrain Cymru—yn gweld llif cyson o lorïau'n teithio'n ôl ac ymlaen i Rover a ffatrïoedd ceir eraill yng ngorllewin canolbarth Lloegr. Mae'r llinyn bogail hwnnw rhyngom ni sydd yn cynhyrchu'r dur neu'r paneli dur gwasgedig neu beth bynnag a'u cludo wedyn i Longbridge yn bod ers 40 neu 50 mlynedd a byddai ei dorri'n cael

Wales if it were cut. However, I would not want to say—because there are no Rover subsidiaries left in south Wales—that the car components industry cannot attract customers elsewhere in the car industry. In the west Midlands, the Peugeot and Citroën plants remain open as do the Jaguar plants in Coventry and Castle Bromwich. Last year was a record year for unit car production in the UK, nevertheless we accept that Rover, being the only indigenous producer, has a better record of buying British components than many of the other car companies. Therefore the loss of the Rover orders could have a bigger impact than you might expect on a pro rata basis.

effaith ddifrifol yng Nghymru. Fodd bynnag, ni hoffwn ddweud—oherwydd nid oes is-gwmnïau i Rover ar ôl yn ne Cymru—na all y diwydiant cydrannau ceir ddenu cwsmeriaid o leoedd eraill yn y diwydiant ceir. Yng ngorllewin canolbarth Lloegr, mae gweithfeydd Peugeot a Citroën yn agored o hyd fel y mae gweithfeydd Jaguar yn Coventry a Castle Bromwich. Y flwyddyn ddiwethaf oedd yr orau erioed o ran nifer y ceir a gynhyrchwyd yn y DU, er hynny, derbyniwn fod Rover, fel yr unig gynhyrchydd brodorol, wedi bod yn well o ran prynu cydrannau Prydeinig na llawer o'r cwmnïau ceir eraill. Felly, gallai colli archebion Rover gael mwy o effaith nag y gallech ddisgwyl wrth gyfrifo yn ôl yr un gyfradd.

Phil Williams: I think that you would agree that the estimate of 1,000 job losses may be optimistic, especially if you consider the additional effect on steel production in Wales of the loss of the orders for Rover. Bearing in mind, therefore, that the impact on Wales could be even greater, what representation does this Assembly have on the taskforce set up by the Government to consider the economic implications? Also, what proportion of—and I am afraid that I did not have notice of this question, so I quote this from memory—the £129 million that has been allocated will be given to the Assembly to deal with the consequences of this reorganisation?

Phil Williams: Credaf y byddech yn cytuno y gallai'r amcangyfrif o 1,000 o golledion swyddi fod yn optimistaidd os ystyriwch yr effaith ychwanegol ar gynhyrchu dur yng Nghymru o ganlyniad i golli'r archebion ar gyfer Rover. O ystyried, felly, y gallai'r effaith ar Gymru fod yn fwy byth, pa gynrychiolaeth sydd gan y Cynulliad hwn ar y tasglu a sefydlwyd gan y Llywodraeth i ystyried yr oblygiadau economaidd? Hefyd, pa gyfran—ac mae arnaf ofn na chefais rybudd o'r cwestiwn hwn, felly yr wyf yn dyfynnu hyn oddi ar fy nghof—o'r £129 miliwn a ddyrannwyd a roddir i'r Cynulliad i ymdrin â chanlyniad yr ad-drefnu hwn?

The First Secretary: It is not clear from the notes that I have from the WDA as to whether its broad-brush 1,000 job loss estimate includes or excludes the steel industry, therefore I cannot comment on the first part of the question. You made an interesting point in the second part. If it became clear over the next week, from information coming directly from suppliers to Rover, that there would be knock-on effects which were easy to calculate in Wales, we would need to make representations for a share of the additional urban regeneration or job creation money. This money seems to have been allocated exclusively to the west Midlands where the bulk of the impact will be. If there were big job losses in Wales, then we would try to secure a share of that money and we would make appropriate

Y Prif Ysgrifennydd: Nid yw'n glir yn y nodiadau sydd gennyf oddi wrth ADC a yw ei amcangyfrif bras o 1,000 o golledion swyddi yn cynnwys y diwydiant dur ai peidio, felly ni allaf wneud sylw ar y rhan gyntaf o'r cwestiwn. Gwnaethoch bwynt diddorol yn yr ail ran. Pe deuai'n amlwg dros yr wythnos nesaf, o wybodaeth a ddaw'n uniongyrchol o gyflenwyr Rover, y byddai effeithiau canlyniadol yng Nghymru a fyddai'n hawdd eu cyfrifo, byddai angen inni gyflwyno sylwadau er mwyn derbyn cyfran o'r arian adfywio trefi neu greu swyddi ychwanegol. Ymddengys fod yr arian hwn wedi ei ddyrannu'n gyfan gwbl i orllewin canolbarth Lloegr lle y bydd y rhan fwyaf o'r effaith. Pe bai colledion swyddi mawr yng Nghymru, byddem wedyn yn ceisio sicrhau cyfran o'r arian hwnnw a byddem yn

representations to that effect. I am sure that that would be supported by all parties in the Assembly.

cyflwyno sylwadau priodol i'r diben hwnnw. Yr wyf yn sicr y cefnogid hynny gan yr holl bleidiau yn y Cynulliad.

Janice Gregory: Thank you for making that statement. We are all aware that the crisis in Rover has far-reaching implications throughout Wales as well as in England. I have a special concern about this, because there is a car component manufacturer in my constituency in Ogmore. It is an ex-mining Valley area, which has already been badly affected by the closure of the Bairdwear factory. The company is concerned that because of the Rover crisis, its business will be severely affected, possibly with the loss of jobs. Can you give us an assurance that you will continue to emphasise the promotion of relevant training opportunities for the workforce in Wales who may be so unfortunate as to lose their jobs because of this?

Janice Gregory: Diolch am wneud y datganiad hwnnw. Yr ydym oll yn ymwybodol bod gan yr argyfwng yn Rover oblygiadau pell-gyrhaeddol ledled Cymru yn ogystal ag yn Lloegr. Pryderaf yn arbennig am hyn, oherwydd bod gwneuthurwr cydrannau ceir yn fy etholaeth i yn Ogwr. Mae'n ardal cyn-lofaol yn y Cymoedd, sydd eisoes wedi ei niweidio drwy gau ffatri Bairdwear. Mae'r cwmni'n pryderu y bydd effaith ddifrifol ar ei fusnes oherwydd argyfwng Rover, gyda cholli swyddi o bosibl. A allwch roi sicrwydd inni y byddwch yn parhau i roi pwyslais ar hybu cyfleoedd hyfforddi perthnasol i'r gweithlu yng Nghymru a allai fod mor anffodus â cholli eu swyddi oherwydd hyn?

The First Secretary: I hope that we can keep job losses to a minimum. However, where we cannot reduce it any further by any other action to help firms to get different end-markets, if they lose their Rover orders, then the emergency intervention procedure will be followed. If the worst comes to the worst, the emergency procedure for the training and enterprise councils to get involved and to make special assistance available to those made redundant, will be used. I assure her about that.

Y Prif Ysgrifennydd: Gobeithiaf y gallwn sicrhau'r nifer leiaf posibl o golledion swyddi. Fodd bynnag, pan na allwn leihau hynny ymhellach drwy unrhyw gamau eraill i helpu busnesau i gael marchnadoedd terfynol gwahanol, os collant eu harchebion o Rover, yna dilynir y weithdrefn ymyrryd argyfwng. Os daw i'r gwaethaf, defnyddir y weithdrefn argyfwng er mwyn i'r cynghorau hyfforddi a menter gymryd rhan ac i ddarparu cymorth arbennig i'r rhai a ddiswyddir. Rhoddaf sicrwydd iddi ynghylch hynny.

Janet Davies: The last two questions have to an extent covered what I was going to ask. However, could you tease this out a bit further? About a week ago there was a report of the possible loss of 800 jobs at TRW. Would those 800 job losses be included in the 1,000 that you quoted? Are you having any discussions on an action plan if the worst comes to the worst for this firm?

Janet Davies: Mae'r ddau gwestiwn diwethaf wedi rhoi sylw i raddau i'r hyn yr oeddwn am ei ofyn. Fodd bynnag, a allech ymhelaethu ychydig pellach ar hyn? Tua wythnos yn ôl yr oedd adroddiad am golled bosibl o 800 o swyddi yn TRW. A gynhwysir yr 800 o golledion swyddi hynny yn y 1,000 a grybwyllwyd gennych? A ydych yn cynnal unrhyw drafodaethau ar gynllun gweithredu os daw i'r gwaethaf i'r cwmni hwn?

The First Secretary: The figure of 1,000 job losses is a composite estimate. I do not know whether Janet Davies is right in assuming that 800 jobs will be lost at TRW. I am not aware of anything quite as severe as that. I heard a radio broadcast and read an article in *The South Wales Evening Post,* about a fortnight ago, which referred to a threat to

Y Prif Ysgrifennydd: Mae'r ffigur o 1,000 o golledion swyddi yn amcangyfrif cyfansawdd. Ni wn a yw Janet Davies yn gywir wrth gymryd y bydd 800 o swyddi'n cael eu colli yn TRW. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw beth cyn waethed â hynny. Clywais ddarllediad radio a darllenais erthygl yn *The South Wales Evening Post*, tua

800 jobs at TRW. However, there is no closure proposal for TRW. It is an issue relating to productivity and so forth. The 1,000 job loss estimate certainly does not include job losses at TRW. We should not say it is all doom and gloom. Companies may have export orders, they may supply other UK car producers or the 'Japanese transplants'—as they call them in the United States—of Honda, Toyota and Nissan. Unit car production was at its highest ever level in the UK last year. It is not all doom and gloom and markets exist. However, I am not in any way complacent about the impact of the Longbridge closure on mass production in the component industry in Wales.

phythefnos yn ôl, a gyfeiriodd at fygythiad i 800 o swyddi yn TRW. Fodd bynnag, nid oes bwriad i gau TRW. Mae'n fater sydd yn ymwneud â chynhyrchiant ac yn y blaen. Yn bendant, nid yw'r amcangyfrif o 1,000 o golledion swyddi'n cynnwys colledion swyddi yn TRW. Ni ddylem ddweud ei bod yn gwbl anobeithiol. Mae'n bosibl bod gan gwmnïau archebion tramor, efallai eu bod yn cyflenwi cynhyrchwyr ceir eraill yn y DU neu'r 'trawsblaniadau Siapaneaidd'—fel y'u galwant yn yr Unol Daleithiau—sef Honda, Toyota a Nissan. Yr oedd nifer y ceir a gynhyrchwyd ar ei huchaf erioed yn y DU y llynedd. Nid yw'n gwbl anobeithiol ac mae marchnadoedd yn bodoli. Fodd bynnag, nid wyf yn ddifater o gwbl ynghylch effaith cau Longbridge ar fasgynhyrchu yn y diwydiant cydrannau ceir yng Nghymru.

Alun Pugh: Quinton Hazell Automotive Limited is a manufacturer of high quality motor components in my constituency. It supplies Rover and Land Rover. It is the only manufacturer of any scale in the whole of Clwyd West. Do you accept that the high pound is causing difficulty not only for vehicle manufacturers in the Midlands but for the Welsh companies that supply them?

Alun Pugh: Mae Quinton Hazell Automotive Cyfyngedig yn wneuthurwr cydrannau moduron o ansawdd uchel yn fy etholaeth i. Mae'n cyflenwi Rover a Land Rover. Ef yw'r unig wneuthurwr sylweddol ei faint yn y cwbl o Orllewin Clwyd. A ydych yn derbyn bod y bunt uchel yn achosi anhawster nid yn unig i wneuthurwyr cerbydau yng nghanolbarth Lloegr ond i'r cwmnïau yng Nghymru sydd yn eu cyflenwi?

The First Secretary: Yes. I do not know if I need to add anything more to that. I have said it before and I will say it again—Eddie George has said it before and will probably say it again—how you impact on the financial markets for currencies to get the pound down to what everybody would agree would be a more reasonable level, is a great mystery. Normally Labour chancellors at this stage in a Labour Government would desperately try to prevent a run on sterling. However, what we are trying to do is to prevent a run on the Deutschmark. That is unusual. In some ways it is a tribute to the prudence and quality of Gordon Brown's management of the economy and the delegation of responsibility for interest rates to the monetary policy committee of the Bank of England. However, it is extremely inconvenient to three regions of the country in particular. The west Midlands, the east Midlands and Wales are the three regions with the highest dependence on manufacturing industries.

Y Prif Ysgrifennydd: Ydwyf. Ni wn a oes angen imi ychwanegu unrhyw beth at hynny. Fe'i dywedais o'r blaen ac fe'i dywedaf eto—mae Eddie George wedi ei ddweud o'r blaen ac fe'i dywed eto yn ôl pob tebyg—mae'r modd yr effeithiwch ar y marchnadoedd ariannol er mwyn i ariannoedd ddod â'r bunt i lawr i'r hyn y cytunai pawb ei bod yn lefel fwy rhesymol yn ddirgelwch mawr. Fel arfer byddai cangellorion Llafur ar yr adeg hon mewn Llywodraeth Lafur yn ymdrechu'n daer i atal gwerthu ar sterling. Fodd bynnag, yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud yw atal gwerthu ar y Deutschmark. Mae hynny'n anarferol. Mewn rhai ffyrdd mae'n deyrnged i ddarbodaeth ac ansawdd rheolaeth Gordon Brown o'r economi a'r dirprwyo cyfrifoldeb dros gyfraddau llog i bwyllgor polisi ariannol Banc Lloegr. Fodd bynnag, mae'n anghyfleus dros ben i dri rhanbarth o'r wlad yn arbennig. Gorllewin canolbarth Lloegr, dwyrain canolbarth Lloegr a Chymru yw'r tri rhanbarth sydd yn fwyaf dibynnol ar

ddiwydiannau cynhyrchu.

Gwenda Thomas: I would like to comment on the job situation at TRW. Would you agree that it is good that there is a joint taskforce within TRW involving trade unions, workers and management in order to increase productivity? Even now there is good news that productivity has risen by a percentage point.

Gwenda Thomas: Hoffwn wneud sylw ar y sefyllfa swyddi yn TRW. A gytunech ei bod yn dda bod tasglu ar y cyd oddi mewn i TRW sydd yn cynnwys undebau llafur, gweithwyr a rheolwyr er mwyn cynyddu cynhyrchiant? Mae newyddion da eisoes fod cynhyrchiant wedi codi o ryw ganran.

The First Secretary: I am pleased to hear that, Gwenda. When you believe that it would be in the best interest of the workforce and the management at TRW, she and I may want to see if we can secure an invitation to congratulate the workforce on increasing their productivity sufficiently to assure their futures and the economic future of the Neath valley.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn falch o glywed hynny, Gwenda. Pan gredwch y byddai hynny er y budd gorau i'r gweithlu a'r rheolwyr yn TRW, efallai y bydd hi a mi am weld a allwn sicrhau gwahoddiad i longyfarch y gweithlu ar gynyddu eu cynhyrchiant yn ddigonol i sicrhau eu dyfodol a dyfodol economaidd cwm Nedd.

2:51 p.m.

Datganiad ar Ryddid Gwybodaeth
Statement on Freedom of Information

The First Secretary: Greater openness must be at the heart of our business. Not only will decisions made in the open be better-informed decisions, they will be better decisions, because they will be made in the knowledge that they will be open to scrutiny at every stage in the process. We must remove the barriers between the governed and the governing. Our new democracy in Wales means that this is what people have come to expect, and it is what I would like to deliver. I promised that, if I became leader of the Assembly, I would introduce the principles of open government in Wales, ahead of the Westminster Government's legislation on this. I said at that time that we should govern in the sunshine and not behind curtains. My aim is that, as far as the Assembly's papers and processes are concerned, there should be a clear presumption in favour of making information available, unless there is a strong likelihood of substantial harm being done as a result of disclosure. There must be a culture change in favour of making information available.

Y Prif Ysgrifennydd: Rhaid i weithredu mwy agored fod wrth graidd ein busnes. Nid yn unig y bydd penderfyniadau a wneir yn agored yn benderfyniadau mwy goleuedig, byddant yn benderfyniadau gwell, oherwydd fe'u gwneir gan wybod y byddant yn agored i'w harchwilio ar bob cam yn y broses. Rhaid inni ddileu'r rhwystrau rhwng y rhai a lywodraethir a'r rhai sydd yn llywodraethu. Mae ein democratiaeth newydd yng Nghymru'n golygu mai hynny y mae pobl yn ei ddisgwyl bellach, a dyna'r hyn yr hoffwn ei gyflawni. Addewais, os deuwn yn arweinydd y Cynulliad, y byddwn yn cyflwyno egwyddorion llywodraeth agored yng Nghymru, o flaen deddfwriaeth Llywodraeth San Steffan ar hyn. Dywedais bryd hynny y dylem lywodraethu yng ngolau'r haul ac nid y tu ôl i lenni. Y nod sydd gennyf, o ran papurau a phrosesau'r Cynulliad, yw y dylid cael rhagdybiaeth eglur o blaid darparu gwybodaeth, oni bai fod tebygolrwydd cryf o achosi niwed sylweddol o ganlyniad i ddatgelu. Rhaid cael newid diwylliant o blaid darparu gwybodaeth.

The Assembly's present code of practice on public access to information goes a long way towards achieving this aim. However, the test

Mae cod ymarfer presennol y Cynulliad ar ganiatáu i'r cyhoedd weld gwybodaeth yn cyfrannu'n helaeth at gyflawni'r nod hon.

in the existing code is whether disclosure would result in harm or prejudice—simple harm or prejudice. I want us to go further and test for substantial harm, as stated in the Government's White Paper of December 1997. I hope that the Assembly and the public sector in Wales will agree with this approach. As I have already announced, I intend for the minutes of Cabinet meetings to be published on the internet six weeks after the relevant meeting. Summaries of press briefings by the First Secretary's official spokesman will be published on the internet on the same day. All Assembly business should be presented simply, in clear language and in line with our bilingual policy. I will ensure that all the Assembly's published documents are made available on the internet, and that there is a ready means of ensuring that people can find out what is available, namely a register. In future, advice from officials to myself and Cabinet colleagues will be presented so that the direct advice on policy will, in principle, always remain confidential, but the facts and analysis in relation to that advice can be separated from it. The factual analysis can therefore be disclosed to those interested in the policy decision, should they wish to see the basis on which it was made.

Fodd bynnag, y prawf yn y cod presennol yw a fyddai datgelu'n arwain at niwed neu afles—niwed neu afles syml. Yr wyf am inni fynd ymhellach a gwneud prawf niwed sylweddol, fel y nodir ym Mhapur Gwyn y Llywodraeth yn Rhagfyr 1997. Gobeithiaf y bydd y Cynulliad a'r sector cyhoeddus yng Nghymru'n cytuno â'r dull gweithredu hwn. Fel y cyhoeddais eisoes, fy mwriad yw y bydd cofnodion cyfarfodydd y Cabinet yn cael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd chwe wythnos ar ôl y cyfarfod perthnasol. Cyhoeddir crynodebau o gyfarwyddyd i'r wasg gan lefarydd swyddogol y Prif Ysgrifennydd ar y rhyngrwyd yr un diwrnod. Dylai holl fusnes y Cynulliad gael ei gyflwyno'n syml, mewn iaith glir ac yn unol â'n polisi dwyieithog. Byddaf yn sicrhau bod holl ddogfennau cyhoeddedig y Cynulliad ar gael ar y rhyngrwyd, a bod dull hwylus i sicrhau y caiff pobl ddarganfod beth sydd ar gael, sef cofrestr. Yn y dyfodol, cyflwynir cyngor gan swyddogion i mi ac i'm cyd-Aelodau yn y Cabinet fel y bydd y cyngor uniongyrchol ynghylch polisi'n aros yn gyfrinachol bob amser, mewn egwyddor, ond gellir gwahanu'r ffeithiau a'r dadansoddiad mewn perthynas â'r cyngor hwnnw oddi wrtho. Felly gellir datgelu'r dadansoddiad ffeithiol i'r rhai sydd yn ymddiddori yn y penderfyniad polisi, os dymunant weld ar ba sail y'i gwnaethpwyd.

There will be circumstances where confidentiality must be observed. For example, where commercial interests or the privacy of individuals, including children, are concerned. We will also need to observe the confidentiality of material provided by Government departments and the other devolved administrations in Scotland and Northern Ireland. Otherwise, we could become a back door route for securing access to material that is lawfully denied under other jurisdictions. The Government has introduced its Freedom of Information Bill, which will give people new statutory rights to access information held by Government departments and public authorities. Access to such information will be subject to the test of whether harm is likely to be caused as a result. I want to go further in Wales and test for a strong likelihood of substantial, rather than simple, harm. I have consulted the Parliamentary Ombudsman and he is content

Bydd amgylchiadau pan fydd yn rhaid cadw cyfrinachedd. Er enghraifft, lle y mae buddiannau masnachol neu breifatrwydd unigolion, gan gynnwys plant, yn gysylltiedig. Bydd yn rhaid inni hefyd gadw cyfrinachedd deunydd a ddarperir gan adrannau'r Llywodraeth a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Fel arall, gallem ddod yn ffordd drwy'r drws cefn o gael mynediad at ddeunydd a wrthodir yn gyfreithiol o dan awdurdodaethau eraill. Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno ei Mesur Rhyddid Gwybodaeth, a fydd yn rhoi hawliau statudol newydd i bobl gael gweld gwybodaeth a gedwir gan adrannau'r Llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus. Bydd y mynediad at wybodaeth o'r fath yn ddarostyngedig i'r prawf o ba un a yw niwed yn debyg o gael ei achosi o ganlyniad. Yr wyf am fynd ymhellach yng Nghymru a gwneud prawf am debygolrwydd cryf o niwed sylweddol, yn

that we should adopt this as the test to be applied in Wales. He will therefore use substantial harm as the basis for a finding of maladministration, if people are wrongly denied access to the information that they have requested.

hytrach na niwed syml. Ymgynghorais â'r Ombwdsmon Seneddol ac mae'n fodlon inni fabwysiadu hwn fel y prawf sydd i'w gymhwyso yng Nghymru. Bydd felly'n defnyddio niwed sylweddol fel y sail ar gyfer dyfarniad o gamweinyddu, os gwrthodir caniatáu i bobl weld gwybodaeth y gwnaethant gais amdani ar gam.

As I have already mentioned, the Assembly has its own Code of Practice on Public Access to Information, adopted in May 1999, shortly after the Assembly came into existence. The code requires us to be proactive in making information available. We have made enormous progress and more information is available to the public on the workings of the Assembly than there was ever available about the Welsh Office. More importantly, that that information is easily obtainable, thanks to new technology. The code requires prompt responses to requests for information, and it provides that information should normally be released, unless doing so would cause harm. Even if harm is likely, the code allows disclosure where the public interest outweighs that harm. There is also a right of appeal against non-disclosure of information.

Fel y soniais eisoes, mae gan y Cynulliad ei God Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth ei hun, a fabwysiadwyd ym Mai 1999, yn fuan wedi i'r Cynulliad ddod i fodolaeth. Mae'r cod yn ei gwneud yn ofynnol inni fod yn rhagweithiol wrth ddarparu gwybodaeth. Gwnaethom gynnydd aruthrol ac mae mwy o wybodaeth ar gael i'r cyhoedd ar waith y Cynulliad nag a fu erioed ar gael am y Swyddfa Gymreig. Pwysicach na hynny yw bod yr wybodaeth honno ar gael yn rhwydd, diolch i dechnoleg newydd. Mae'r cod yn mynnu ymateb buan i geisiadau am wybodaeth, ac yn rhagnodi y dylai gwybodaeth gael ei rhyddhau fel arfer, ac eithrio pan fyddai hynny'n achosi niwed. Hyd yn oed os yw niwed yn debygol, mae'r cod yn caniatáu datgelu pan yw'r budd cyhoeddus yn gorbwyso'r niwed. Mae hawl apelio hefyd yn erbyn methiant i ddatgelu gwybodaeth.

We will need to create a register of documents, in electronic and hard copy form, so that the public knows what information is available. We have already broken the mould of secrecy and the closed world of the few taking decisions on behalf of the many, but we can do more. First, we can see whether the code fully meets the needs of the new, open style of government that we are developing. I therefore propose that we consult on whether, in the light of new experience, we need to revise that code to give greater emphasis to the presumption that information will be made available. Secondly, we must see that Assembly sponsored public bodies adopt the same principles. Where we lead, we need to ensure that the bodies for which we are responsible will follow. We cannot always insist on this, but our job, through persuasion and example, will be to create a climate where fully open administration becomes the norm in Wales. The people of Wales want that. They want and expect the barriers to be broken down

Bydd angen inni greu cofrestr o ddogfennau, ar ffurf electronig a chopi caled, fel bod y cyhoedd yn gwybod pa wybodaeth sydd ar gael. Yr ydym eisoes wedi torri'r arfer o gyfrinachedd a byd caeëdig yr ychydig sydd yn penderfynu ar ran y lliaws, ond gallwn wneud mwy. Yn gyntaf, gallwn weld a yw'r cod yn llwyr ateb anghenion y dull llywodraeth newydd, agored yr ydym yn ei ddatblygu. Cynigiaf felly y dylem ymgynghori, yng ngoleuni profiad newydd, ynghylch a oes angen inni adolygu'r cod hwnnw er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar y rhagdybiaeth y bydd gwybodaeth yn cael ei darparu. Yn ail, rhaid inni weld bod cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn mabwysiadu'r un egwyddorion. Lle y byddwn yn arwain, rhaid inni sicrhau y bydd y cyrff yr ydym yn gyfrifol amdanynt yn dilyn. Ni allwn fynnu hynny bob amser, ond ein gwaith ni, drwy ddwyn perswâd a gosod esiampl, fydd creu hinsawdd lle y mae gweinyddu cwbl agored yn norm yng Nghymru. Mae pobl Cymru am gael hynny.

and that is what we should deliver.

Maent yn dymuno ac yn disgwyl i'r rhwystrau gael eu dymchwel a dyna'r hyn y dylem ei gyflawni.

Open government is about being honest and developing a relationship of trust between the governing and the governed. Certain matters will always have to be treated in confidence and the public and businesses must be able to trust us to respect confidences. The more open we can be where there is no overriding need for confidentiality, the more people will accept that when a matter is treated as confidential, there is a sound reason for doing so. A relationship of trust is the mark of a sound and mature democracy and we must achieve that in Wales.

Mae llywodraeth agored yn ymwneud â bod yn onest a datblygu perthynas o ymddiriedaeth rhwng y rhai sydd yn llywodraethu a'r rhai a lywodraethir. Mae rhai materion y bydd angen eu trin yn gyfrinachol bob amser a rhaid i'r cyhoedd a busnesau allu ymddiried ynom i gadw cyfrinachau. Po fwyaf agored y gallwn fod lle nad oes angen holl bwysig am gyfrinachedd, mwyaf y bydd pobl yn derbyn, pan drinnir mater yn gyfrinachol, fod rheswm dilys dros wneud hynny. Perthynas o ymddiriedaeth yw nod amgen democratiaeth gadarn ac aeddfed a rhaid inni gyflawni hynny yng Nghymru.

Janet Davies: Point of order. I raise a point of order on the contradiction between that statement and what you said earlier. You mentioned inclusivity in your statement. Do you apply this to regional Members? You said that you would visit Neath with a constituency Member, but you did not mention regional Members. It seems that you made two opposing statements.

Janet Davies: Pwynt o drefn. Codaf bwynt o drefn ar y gwrth-ddweud rhwng y datganiad hwnnw a'r hyn a ddywedasoch yn gynharach. Cyfeiriasoch at gynwysoldeb yn eich datganiad. A ydych yn cymhwyso hyn at Aelodau rhanbarthol? Dywedasoch y byddech yn ymweld â Chastell-nedd gydag Aelod etholaeth, ond ni soniasoch am Aelodau rhanbarthol. Ymddengys eich bod wedi gwneud dau ddatganiad gwrthgyferbyniol.

The Presiding Officer: Order. That is not a point of order arising out of the statement. It is an attempt to pursue further question time by other means, and as you know I do not approve of that.

Y Llywydd: Trefn. Nid yw hwnnw'n bwynt o drefn sydd yn codi o'r datganiad. Mae'n ymgais i gael amser pellach ar gyfer cwestiynau drwy ddulliau eraill, ac fel y gwyddoch nid wyf yn cymeradwyo hynny.

Dafydd Wigley: I congratulate Rhodri on coming out from behind the curtains. I do not know whether we should be greeting the First Secretary with 'hello sunshine' from now on.

Dafydd Wigley: Llongyfarchaf Rhodri ar ddod allan o'r tu ôl i'r llenni. Ni wn a ddylem ddweud 'helô heulwen' wrth gyfarch y Prif Ysgrifennydd o hyn ymlaen.

Croesawaf yn gynnes y datganiad hwn a'r ffaith ein bod yn symud ymlaen gyda rhyddid gwybodaeth yng Nghymru. Yr oeddwn yn un o hyrwyddwyr Mesur yn Nhŷ'r Cyffredin yn 1977 a gyflwynwyd gan Frank Hooley o Sheffield. Yr ydym wedi disgwyl yn hir ym Mhrydain am ddeddfwriaeth fel hon. Yr ydym wedi bod ar ein colled o ran anabledd er enghraifft, o gymharu â'r Unol Daleithiau ble mae deddfwriaeth fel hon yn y llyfr statud. Fodd bynnag, mae cwestiynau yn codi o hyn a gofynnaf ddau neu dri ohonynt i'r Prif Ysgrifennydd.

I warmly welcome this statement and the fact that we are now proceeding with freedom of information in Wales. I was one of the sponsors of a Bill in the House of Commons in 1997 which was tabled by Frank Hooley from Sheffield. We have waited a long time in Britain to have such legislation. We have lost out on disability for example, in comparison with the United States where such legislation is on the statute book. However, questions arise from this, and I will put two or three of them to the First Secretary.

Yn gyntaf, sut y bydd yn sicrhau bod trafodaethau'r Cabinet yn llawn a thrylwyr, ac yn cynnwys gwahaniaeth barn os oes angen, heb iddynt gael eu mygu gan yr ystyriaeth y bydd yr wybodaeth yn cael ei gwneud yn gyhoeddus?

First, how will he ensure that the Cabinet's discussions are full and thorough, and include differences of opinion where necessary, without being stifled by the consideration that the information will be made public?

Yn ail, soniodd mai gwirfoddol fyddai'r polisi ar y dechrau. Os dibynnwn ar bolisi'r Prif Ysgrifennydd i hyrwyddo'r egwyddorion hyn, sut y gallwn sicrhau na fydd Prif Ysgrifennydd yn y dyfodol yn dychwelyd at agwedd fwy caeëdig? A all y Prif Ysgrifennydd sicrhau bod y ddeddfwriaeth a fydd yn mynd trwy San Steffan yn ystod y cyfnod i ddod yn rhoi hawl statudol i ni yng Nghymru allu sicrhau'r math o ryddid gwybodaeth yr ydym yn symud tuag ato?

Secondly, he mentioned that the policy would be voluntary in the first instance. If we are to depend on the First Secretary's policy to promote these principles, how can we ensure that a future First Secretary will not return to a more closed attitude? Can the First Secretary ensure that the legislation passing through Westminster over the ensuing period will give us in Wales the statutory right to secure the kind of freedom of information towards which we are now moving?

A all y Prif Ysgrifennydd hefyd sicrhau bod yr wybodaeth sydd ar gael ar fewnrwyd y Cynulliad hefyd ar gael yn llawn i'r wasg a'r cyfryngau? Mae honno'n un agwedd o ddiffyg rhyddid gwybodaeth sydd wedi peri anfodlonrwydd ymhlith ein cyfeillion yn y wasg. A fydd unrhyw sail statudol i'r rhyddid gwybodaeth fel y bydd yn cael ei weithredu i lywodraeth leol? Mae agwedd rhai o'n cynghorau yng Nghymru wedi bod yn sylweddol wahanol i'r math o ddatgelu gwybodaeth y mae'r Prif Ysgrifennydd yn symud tuag ato. Mae'n bosibl fod angen sail statudol i symud hynny yn y cyfeiriad iawn ym mhob rhan o Gymru.

Can the First Secretary also ensure that the information that is available on the Assembly intranet is also fully available to the press and media? That is one aspect of the lack of freedom of information that has caused a great deal of dissatisfaction among our friends in the press. Will there be any statutory basis to the freedom of information as it is implemented for local government? The attitude of some of our councils in Wales has been substantially different to the kind of disclosure of information towards which the First Secretary is moving. There is possibly a need for a statutory basis to move that in the right direction in every part of Wales.

A oes unrhyw ddarpariaeth i sicrhau y bydd cofnodion y cyfarfodydd rhwng y Prif Ysgrifennydd ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Paul Murphy, yn cael eu gwneud yn gyhoeddus ar yr un sail â chofnodion y Cabinet? Beth fydd yn digwydd pan fydd y Cabinet yng Nghaerdydd yn trafod materion sydd yn deillio o Lundain ac a fyddai'n agored yn ôl ein canllawiau ni yng Nghymru ond yn gaeëdig yn ôl canllawiau mwy cyfyngedig Llundain? Mae'r cwestiynau hyn yn rhai ymarferol ac mae gennym hawl i wybod yr atebion.

Is there any provision to ensure that the minutes of meetings between the First Secretary and the Secretary of State for Wales, Paul Murphy, will be made public on the same basis as Cabinet minutes? What will happen when the Cabinet in Cardiff discusses issues which emanate from London and which would be open according to our guidelines in Wales but closed according to the more restrictive guidelines of London? These are practical questions and we have a right to know the answers.

Y Prif Ysgrifennydd: Efallai fy mod wedi anghofio ambell i gwestiwn a ofynnodd Dafydd oherwydd na ddechreuais gymryd nodiadau hyd ddiwedd yr araith, gan fy mod o dan yr argraff nad oedd pin ysgrifennu

The First Secretary: I might have forgotten a couple of Dafydd's questions because I did not start to take notes until the end of the speech, as I was under the impression that I did not have a pen with me at the lectern. On

gennyf ar y darllenfwrdd. O ran y Cabinet, yr ydym yn dilyn esiampl pwyllgor polisi arianyddol Banc Lloegr. Fel arfer, ar ôl chwech wythnos, mae llawer o'r fflam wedi diflannu o'r pynciau llosg. Felly yr ydym yn disgwyl y gallwn fod yn eithaf agored, er efallai y byddai'r cyfryngau yn disgwyl cael stori o ryw sgandal neu anghytundeb yn ystod cyfarfod y Cabinet. Ond, ar ôl chwech wythnos, mae llawer o ddiddordeb wedi mynd ar goll o'r cwestiwn a fu gynt yn un llosg. Yr ydym yn bwrw ymlaen ar y sail nad oes rhwystr i roi cyfrif llawn o'r hyn a ddigwyddodd y tu mewn i'r Cabinet pan gyhoeddwn gofnodion y Cabinet chwech wythnos ar ôl y cyfarfod perthnasol.

the Cabinet, we are following the example of the monetary policy committee of the Bank of England. Usually, when six weeks have elapsed, much of the heat has gone out of the debate. Therefore we expect to be able to be quite open, although perhaps the media would expect a story of some scandal or disagreement during a Cabinet meeting. However, after six weeks, much of the interest has fallen away from an issue that was previously controversial. We are proceeding on the basis that there is no obstacle to giving a full account of what occurred within Cabinet when we publish the Cabinet minutes six weeks after the relevant meeting.

3:01 p.m.

Dywedodd Dafydd mai ar sail wirfoddol y byddai hyn. Ni fyddech yn disgrifio'r cod presennol fel un gwirfoddol oherwydd gallai'r Ombwdsman wneud dehongliad o gamweinyddu. Os dywedwn fel Llywodraeth ein bod yn bwriadu gweinyddu mewn modd sydd yn rhoi'r hawl i'r Ombwdsman wneud dyfarniad o gamweinyddu pan fo rhywun wedi rhwystro aelod o'r cyhoedd, Aelod o'r gwrthbleidiau, Aelod o'r meinciau cefn neu gynrychiolydd o'r cyfryngau rhag cael gwybodaeth y tybiant bod ganddynt hawl iddi, a bod yr Ombwdsman yn dyfarnu o'u plaid hwy yn hytrach na ni, nid yw hynny yn agwedd wirfoddol. Nid yw'n statudol ond nid yw'n wirfoddol ychwaith.

Dafydd said that this would be done on a voluntary basis. You would not describe the existing code as a voluntary one because the Ombudsman could make an interpretation of maladministration. If we as a Government say that we intend to administrate in a way that will give the Ombudsman the right to bring a ruling of maladministration when somebody has prevented a member of the public, a Member of the opposition parties, a backbencher or a media representative from having information to which they think they have a right, and the Ombudsman finds for them rather than for us, that is not a voluntary aspect. It is not statutory but neither is it voluntary.

Yng nghyd-destun llywodraeth leol yn unig y gellir ei disgrifio fel agwedd wirfoddol. Ni allwn orchymyn llywodraeth leol, yn wahanol i gwangos, i ddilyn ein hesiampl. Byddem yn disgwyl ac yn gobeithio y byddai'n gwneud hynny ond y cyfan y gallwn ei wneud yw dangos trwy esiampl.

Only in the context of local government could it be described as voluntary. We cannot command local government, unlike quangos, to follow our example. We would expect and hope that it would do so but all we can do is lead by example.

William Graham: The Welsh Conservative Party broadly welcomes the thrust of the remarks made by the First Secretary. I hope that he agrees with the remarks made by Sir Winston Churchill, a great leader of a great party, that the greatest security for a democracy is a well-informed democracy. We ask you to take that remark on board and follow through from this so that they are not empty words.

William Graham: Mae Plaid Geidwadol Cymru'n rhoi croeso cyffredinol i fyrdwn y sylwadau a wnaethpwyd gan y Prif Ysgrifennydd. Gobeithiaf ei fod yn cytuno â'r sylwadau a wnaethpwyd gan Syr Winston Churchill, arweinydd mawr ar blaid fawr, mai'r amddiffyniad mwyaf i ddemocratiaeth yw democratiaeth wybodus. Gofynnwn ichi dderbyn y sylw hwnnw a mynd ymlaen o'r fan hon fel nad ydynt yn eiriau gwag.

The First Secretary: I am grateful for that comment. I agree about the need for a well-informed democracy, and I cannot see how you can have that except by greater freedom of information. I accept that it is easier for the Assembly than for the UK Government to have a strong, substantial, harm-based freedom of information policy because we do not deal with matters of diplomacy or security. We do not have the responsibilities of the Home Office, the Ministry of Defence, the Foreign and Commonwealth Office and certain matters with which the Department of Trade and Industry deals. We do not license arms exports to Iraq or conduct cold war related negotiations and so forth. Therefore it is much easier for us and we can feel more able and less inhibited about creating the well-informed democracy that William Graham and his noble predecessor, Winston Churchill, were talking about.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn ddiolchgar am y sylw hwnnw. Cytunaf ynghylch yr angen am ddemocratiaeth wybodus, ac ni allaf weld sut y gallwch gael hynny heblaw drwy fwy o ryddid gwybodaeth. Derbyniaf ei bod yn haws i'r Cynulliad nag i Lywodraeth y DU gael polisi rhyddid gwybodaeth cryf, sylweddol, ar sail niwed am nad ydym yn ymdrin â materion diplomyddiaeth neu ddiogelwch. Nid oes gennym gyfrifoldebau'r Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Amddiffyn, y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad a rhai materion y mae'r Adran Masnach a Diwydiant yn ymwneud â hwy. Nid ydym yn trwyddedu allforion arfau i Irac neu'n cynnal trafodaethau ynghylch y rhyfel oer ac yn y blaen. Felly mae'n haws o lawer i ni a gallwn deimlo'n fwy galluog ac yn llai ymatalgar ynghylch creu'r ddemocratiaeth wybodus yr oedd William Graham a'i ragflaenydd bonheddig, Winston Churchill, yn sôn amdani.

Michael German: Thank you for your statement today because it will go a long way towards building trust between Assembly Members and the Executive and between the people of Wales and the Executive and the Assembly as a whole. Trust is at the heart of information flow in our society. It is interesting, in the context of local government in the 1980s, that local government reform of freedom of information was largely superseded by the demands of the rest of the world, while Westminster lagged behind. Now Scotland and Wales are taking the lead. I welcome that and I hope that the examples will be passed on to Westminster. I would like your views on the issue of all Assembly Members getting appropriate access to information of all sorts, whether it be legal advice or facts. I particularly welcome the section in your statement on access to information upon which the policies and decisions of the Executive are based so that we will know upon what information you are making your decisions. We would like to have the statutory powers that Scotland has, and I take on board your points about the code under which we will operate, which is a political and moral code. I welcome that you are extending it to bodies such as the Welsh Development Agency, the Wales Tourist Board, the Countryside Council for Wales,

Michael German: Diolch i chi am eich datganiad heddiw oherwydd bydd yn cyfrannu'n fawr at feithrin ymddiriedaeth rhwng Aelodau'r Cynulliad a'r Weithrediaeth a rhwng pobl Cymru a'r Weithrediaeth a'r Cynulliad fel cyfangorff. Mae ymddiriedaeth wrth wraidd y llif o wybodaeth yn ein cymdeithas. Mae'n ddiddorol, yng nghyd-destun llywodraeth leol yn y 1980au, fod y diwygio gan lywodraeth leol ar ryddid gwybodaeth wedi ei ddisodli i raddau helaeth gan ofynion gweddill y byd, tra oedd San Steffan yn llusgo ar ôl. Yn awr mae'r Alban a Chymru'n achub y blaen. Croesawaf hynny a gobeithiaf y caiff y patrymau eu trosglwyddo i San Steffan. Hoffwn gael eich barn ar y mater o roi mynediad priodol i holl Aelodau'r Cynulliad at wybodaeth o bob math, boed yn gyngor cyfreithiol neu'n ffeithiau. Croesawaf yn arbennig y rhan o'ch datganiad ar fynediad at wybodaeth y seilir polisïau a phenderfyniadau'r Weithrediaeth arni fel y byddwn yn gwybod ar ba sail yr ydych yn gwneud eich penderfyniadau. Hoffem gael y pwerau statudol sydd gan yr Alban, a derbyniaf eich pwyntiau am y cod y byddwn yn gweithredu oddi tano, sydd yn god gwleidyddol a moesol. Croesawaf y ffaith eich bod yn ei ymestyn i gyrff fel Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, yr Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu a'r

the Qualifications Curriculum and Assessment Authority and the funding councils. These have been the hidden parts of Welsh bureaucratic life for many years and they are not yet out in the open.

cynghorau cyllido. Y rhain yw'r rhannau cuddiedig o fywyd biwrocrataidd Cymru ers blynyddoedd lawer ac nid ydynt wedi dod i olau dydd eto.

If we adopt and carry these measures through, Wales will be ahead of the UK. I hope that press freedom and media access will be given high priority. The media in Wales is anxious about the Freedom of Information Bill passing through Westminster. I hope that the code that we develop will allow that sort of debate and give them access. We will be at the forefront of an open democracy, setting an example for the UK as a whole if we achieve this. In that light, I welcome your statement.

Os ydym yn mabwysiadu ac yn cyflawni'r mesurau hyn, bydd Cymru ar y blaen i'r DU. Gobeithiaf y rhoddir blaenoriaeth uchel i ryddid y wasg a mynediad i'r cyfryngau. Mae'r cyfryngau yng Nghymru'n bryderus ynghylch hynt y Mesur Rhyddid Gwybodaeth yn San Steffan. Gobeithiaf y bydd y cod a ddatblygwn yn caniatáu trafodaeth o'r fath ac yn rhoi mynediad iddynt. Byddwn yn rheng flaen democratiaeth agored, gan osod esiampl ar gyfer y DU gyfan os cyflawnwn hyn. Yng ngoleuni hynny, croesawaf eich datganiad.

The First Secretary: I am grateful to Mike for that warm commendation. I cannot ask for better than that. Mike mentioned an important point about the media: I think that was one of Dafydd Wigley's questions that I forgot to answer, and I have thought of another two that I will try addressing one way or another. I think that Dafydd thought I said the information would be available on the intranet, but I said the internet. Papers such as Cabinet minutes would be available to the media. We are talking about publishing on the internet not intranet, and the media would therefore have access to documents.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn ddiolchgar i Mike am y ganmoliaeth gynnes honno. Ni allaf ofyn mwy na hynny. Cyfeiriodd Mike at bwynt pwysig am y cyfryngau: credaf ei fod yn un o gwestiynau Dafydd Wigley yr anghofiais ei ateb, ac yr wyf wedi meddwl am ddau arall yr wyf am geisio ymdrin â hwy rywfodd neu'i gilydd. Credaf fod Dafydd yn tybio imi ddweud y byddai'r wybodaeth ar gael ar y fewnrwyd, ond y rhyngrwyd a ddywedais. Byddai papurau fel cofnodion y Cabinet ar gael i'r cyfryngau. Yr ydym yn sôn am gyhoeddi ar y rhyngrwyd, nid y fewnrwyd, ac felly câi'r cyfryngau fynediad at ddogfennau.

However, the creation of the register is the critical issue. You cannot exercise a right to freedom of information unless you know what information you have the freedom to access. There therefore has to be a published register. It will need to be created, and it is far more complicated now that there are electronic as well as hard copy data. Long-established freedom of information regimes such as the one in Sweden have faced similar issues. Sweden has had freedom of information since 1753, when quill pens were used. Then came typewriters and computers. However, electronic information must now be registered and the documents created must be held in a central register. As a result, journalists, special interest groups, individuals concerned about information held on them, the media, researchers for opposition parties or backbenchers, will be

Fodd bynnag, creu'r gofrestr yw'r mater holl bwysig. Ni allwch arfer hawl i ryddid gwybodaeth oni wyddoch pa wybodaeth y mae rhyddid ichi ei gweld. Felly rhaid cael cofrestr gyhoeddedig. Bydd angen ei chreu, ac mae'n fwy cymhleth o lawer yn awr gan fod data electronig yn ogystal â rhai copi caled. Mae cyfundrefnau rhyddid gwybodaeth hir-sefydlog fel yr un yn Sweden wedi gorfod wynebu materion fel y rhain. Mae gan Sweden ryddid gwybodaeth ers 1753, pan ddefnyddid cwils. Wedyn daeth teipiaduron a chyfrifiaduron. Fodd bynnag, rhaid cofrestru gwybodaeth electronig yn awr a rhaid cadw dogfennau a greir mewn cofrestr ganolog. O ganlyniad, bydd newyddiadurwyr, grwpiau buddiant arbennig, unigolion sydd yn bryderus ynghylch gwybodaeth a gedwir amdanynt, y cyfryngau, ymchwilwyr pleidiau'r wrthblaid neu

able to consult the register to see what documents exist. It is only then that you will know what information you can access. It is important to ensure that there are registers for the quangos and us. This will be subject to consultation because people must have time to adapt to this system and must have a right to comment on it. However, the creation of the register and the right to access the documents listed in it is critical to an effective freedom of information dispensation.

feincwyr cefn yn gallu troi at y gofrestr i weld pa ddogfennau sydd yno. Dim ond wedyn y byddwch yn gwybod pa wybodaeth y gallwch fynd ati. Mae'n bwysig sicrhau bod cofrestri ar gyfer y cwangos a ni. Bydd ymgynghori ar hyn oherwydd rhaid i bobl gael amser i ymaddasu i'r system hon a rhaid iddynt gael hawl i wneud sylwadau arni. Fodd bynnag, mae creu'r gofrestr a'r hawl i weld y dogfennau a restrir ynddi yn holl bwysig i oruchwyliaeth rhyddid gwybodaeth effeithiol.

Val Feld: I welcome Rhodri's statement. It is important that the Assembly is setting high standards as a new political institution. It is good to see the statement welcomed by all the other parties. Would you like to invite the leaders of the parties to follow suit? Would Dafydd Wigley, for example, consider publishing the minutes of shadow cabinet meetings and would the other parties act similarly? We are particularly interested—

Val Feld: Croesawaf ddatganiad Rhodri. Mae'n bwysig bod y Cynulliad yn gosod safonau uchel fel sefydliad gwleidyddol newydd. Mae'n dda gweld croeso i'r datganiad gan yr holl bleidiau eraill. A hoffech wahodd arweinyddion y pleidiau i ddilyn eich esiampl? A fyddai Dafydd Wigley, er enghraifft, yn fodlon ystyried cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd cabinet yr wrthblaid ac a fyddai'r pleidiau eraill yn fodlon gwneud yr un modd? Ymddiddorwn yn arbennig—

Dafydd Wigley: We have already decided to do that.

Dafydd Wigley: Yr ydym eisoes wedi penderfynu gwneud hynny.

Michael German: We have also decided to do so.

Michael German: Yr ydym ni hefyd wedi penderfynu gwneud hynny.

Val Feld: Good. The Liberal Democrats are always on the ball with such issues. We would be intrigued to see recent Conservative Party minutes. It would be good if this pattern could be followed throughout the Assembly.

Val Feld: Da iawn. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol bob amser o gwmpas eu pethau gyda materion o'r fath. Byddai'n ddiddorol iawn inni weld cofnodion diweddar y Blaid Geidwadol. Byddai'n dda os gellid dilyn y patrwm hwn drwy'r Cynulliad.

The First Secretary: I am glad that the opposition parties do not consider the suggestion to be below the belt. Freedom of information normally applies to Government institutions because they hold information. However, if the other parties are already doing that, I welcome it as being in the spirit of a mature democracy.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn falch nad yw pleidiau'r wrthblaid yn ystyried yr awgrym yn un annheg. Mae rhyddid gwybodaeth yn ymwneud fel arfer â sefydliadau Llywodraeth am eu bod yn cadw gwybodaeth. Fodd bynnag, os yw'r pleidiau eraill eisoes yn gwneud hynny, croesawaf hynny fel rhywbeth sydd yn gydnaws â democratiaeth aeddfed.

3:11 p.m.

Datganiad Busnes
Business Statement

The Business Secretary (Andrew Davies): This is the next three weeks' Plenary business statement. In light of points made in the Business Committee meeting this morning on the timing of the debate on 'A Better Wales' that was to be held on Tuesday, 28 March, I have decided to defer it until the week commencing on 3 April. I will consider the views of the members of the Business Committee on the exact timing of the debate and also on the item of business that will replace it on 28 March. Committee members will also be given an opportunity to consider the wording of the motion of the debate on 'A Better Wales'.

Y Trefnydd (Andrew Davies): Dyma ddatganiad busnes y Cyfarfodydd Llawn ar gyfer y tair wythnos nesaf. Yng ngoleuni pwyntiau a wnaethpwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Busnes y bore yma ar amseriad y ddadl ar 'Gwell Cymru' a oedd i'w chynnal ddydd Mawrth 28 Mawrth, penderfynais ei gohirio hyd yr wythnos yn dechrau 3 Ebrill. Byddaf yn ystyried barn aelodau'r Pwyllgor Busnes ar union amseriad y ddadl a hefyd ar yr eitem busnes a roddir yn ei lle ar 28 Mawrth. Rhoddir cyfle hefyd i aelodau'r Pwyllgor ystyried geiriad cynnig y ddadl ar 'Gwell Cymru'.

Business on Wednesday, 29 March and Tuesday, 4 April is as reported in last week's business statement. On Wednesday, 5 April, business will include debates on the voluntary sector scheme and the revision of the Assembly's Standing Orders. I have also scheduled time to consider the remaining Orders that must be made before 1 April under the urgency procedure. Business on Tuesday, 11 April will include two debates on matters chosen by the Conservative Party and the Liberal Democrat Party. There will also be a motion to approve the Sure Start Scheme 2000-01: Special Grant Report and the Youth Partnership Scheme 2000-01: Special Grant Report. On Wednesday, 12 April, there will be a debate on the Objective 1 single programming document that has been the subject of negotiation between the European Commission and the Welsh European Partnership.

Mae'r busnes ddydd Mercher, 29 Mawrth a dydd Mawrth, 4 Ebrill fel y'i hadroddwyd yn natganiad busnes yr wythnos diwethaf. Ddydd Mercher, 5 Ebrill, bydd y busnes yn cynnwys dadleuon ar gynllun y sector gwirfoddol a'r adolygiad o Reolau Sefydlog y Cynulliad. Yr wyf hefyd wedi trefnu amser i ystyried y Gorchmynion sydd yn weddill y mae'n rhaid eu gwneud cyn 1 Ebrill o dan y weithdrefn frys. Bydd y busnes ddydd Mawrth, 11 Ebrill yn cynnwys dwy ddadl ar faterion a ddewisir gan y Blaid Geidwadol a chan Blaid y Democratiaid Rhyddfrydol. Bydd cynnig hefyd i gymeradwyo'r Cynllun Cychwyn Cadarn 2000-01: Adroddiad Grant Arbennig a'r Cynllun Partneriaeth Ieuenctid 2000-01: Adroddiad Grant Arbennig. Ddydd Mercher, 12 Ebrill, bydd dadl ar y ddogfen raglennu sengl Amcan 1 a fu'n destun negodi rhwng y Comisiwn Ewropeaidd a Phartneriaeth Ewropeaidd Cymru.

Following the Business Committee meeting this morning, and on the Committee's advice, the Deputy Presiding Officer has determined that the National Assistance (Sums for Personal Requirements) (Wales) Regulations 2000 should not be referred to a Subject Committee. Arrangements will be made after Plenary today to post the statement to the intranet and the internet.

Ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Busnes y bore yma, ac yn unol â chyngor y Pwyllgor, penderfynodd y Dirprwy Lywydd na ddylid cyfeirio'r Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau ar gyfer Anghenion Personol) (Cymru) 2000 at Bwyllgor Pwnc. Gwneir trefniadau ar ôl y Cyfarfod Llawn heddiw i osod y datganiad ar y fewnrwyd a'r rhyngrwyd.

Ieuan Wyn Jones: Andrew will recall discussions on the debate on 'A Better

Ieuan Wyn Jones: Bydd Andrew yn cofio'r trafodaethau ar y ddadl ar 'Gwell Cymru'. A

Wales'. Will he confirm that, if further discussions are required between the parties on the content of the motion and the document, he would be prepared to delay the debate, even if that is only for a week?

fydd gystal â chadarnhau, os oes angen trafodaethau pellach rhwng y pleidiau ar gynnwys y cynnig a'r ddogfen, y byddai'n barod i ohirio'r ddadl, hyd yn oed pe bai hynny ond am wythnos?

Andrew Davies: As I said in my statement, I would delay the debate for a week.

Andrew Davies: Fel y dywedais yn fy natganiad, byddwn yn gohirio'r ddadl am wythnos.

Business statement adopted.

Derbyniwyd y datganiad busnes.

Datganiad ar yr Amserlen
Timetable Statement

The Business Secretary (Andrew Davies): I propose that

Y Trefnydd (Andrew Davies): Cynigiaf fod

the Assembly, in accordance with Standing Order No. 5.1, adopts the outline timetable of Plenary meetings, times available for Committee meetings, meetings of political groups and recesses up to 16 June 2000 laid in the Table Office on 14 March 2000.

y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 5.1, yn mabwysiadu'r amserlen fras ar gyfer y Cyfarfodydd Llawn, yr amseroedd sydd ar gael ar gyfer cynnal cyfarfodydd y Pwyllgorau, cyfarfodydd grwpiau gwleidyddol a thoriadau hyd at 16 Mehefin 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2000.

I will table a revised statement when the composition and membership of the Subject Committees has been agreed. In future, the three-month business statement will include the timings of the meetings of the three partnership councils, a point that was made during a Business Committee meeting.

Byddaf yn cyflwyno datganiad diwygiedig ar ôl cytuno ar gyfansoddiad ac aelodaeth y Pwyllgorau Pwnc. Yn y dyfodol, bydd y datganiad busnes tri mis yn cynnwys amseriadau cyfarfodydd y tri chyngor partneriaeth, pwynt a wnaethpwyd yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor Busnes.

Cynnig: O blaid 42, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion: For 42, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Black, Peter
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Dafis, Cynog
Davies, Andrew
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Feld, Val
German, Michael
Graham, William

Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Halford, Alison
Hancock, Brian
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lloyd, David
Melding, David
Middlehurst, Tom
Neagle, Lynne
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Owen John
Williams, Kirsty
Williams, Phil

Motion adopted.

Derbyniwyd y cynnig.

Cymeradwyo Gorchymyn Deddf Iechyd 1999 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2000 a Gorchymyn Deddf Iechyd 1999 (Practisiau Deiliad Cronfa) (Trosglwyddo Asedau, Arbedion, Hawliau a Rhwymedigaethau a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2000

Approval of the Health Act 1999 (Commencement No. 2) (Wales) Order 2000 and the Health Act 1999 (Fundholding Practices) (Transfer of Assets, Savings, Rights and Liabilities and Transitional Provisions) (Wales) Order 2000

The Secretary for Health and Social Services (Jane Hutt): I propose that

the Assembly considers the report of the Legislation Committee relating to the draft Health Act 1999 (Commencement No. 2) (Wales) Order 2000, laid in the Table Office on 8 March 2000;

considers the principle of the draft Order; and

approves that the Order is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 8 March 2000.

I also propose that

the Assembly considers the report of the Legislation Committee relating to the draft

Yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt): Cynigiaf fod

y Cynulliad yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau sydd yn ymwneud â drafft Gorchymyn Deddf Iechyd 1999 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2000, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2000;

yn ystyried egwyddor y Gorchymyn drafft; ac

yn cymeradwyo gwneud y Gorchymyn yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mawrth 2000.

Cynigiaf hefyd fod

y Cynulliad yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau sydd yn ymwneud â drafft

Health Act 1999 (Fundholding Practices) (Transfer of Assets, Savings, Rights And Liabilities and Transitional Provisions) (Wales) Order 2000, laid in the Table Office on 8 March 2000;

Gorchymyn Deddf Iechyd 1999 (Practisiau Deiliad Cronfa) (Trosglwyddo Asedau, Arbedion, Hawliau a Rhwymedigaethau a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2000, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2000;

considers the principle of the draft Order; and

yn ystyried egwyddor y Gorchymyn drafft; ac

approves that the Order is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 8 March 2000.

yn cymeradwyo gwneud y Gorchymyn yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mawrth 2000.

The NHS Wales White Paper 'Putting Patients First' and the subsequent Health Act 1999 gave a clear commitment to modernise the NHS, moving away from competition to a new system of co-operation and partnership. The provisions brought forward today are specified in the primary legislation that is coming into force by Commencement Order. The Commencement Order route allows different dates to be picked for different provisions and for control over exactly when a provision comes into effect in Wales. The transitional Order is essential to underpin the abolition of GP fundholding, enabling the winding-up of the scheme.

Yr oedd Papur Gwyn NHS Cymru 'Rhoi Cleifion yn Gyntaf' a'r Ddeddf Iechyd 1999 a'i dilynodd yn gwneud ymrwymiad clir i foderneiddio'r NHS, gan symud oddi wrth gystadleuaeth ac at system newydd o gydweithrediad a phartneriaeth. Mae'r darpariaethau a gyflwynir heddiw wedi eu dynodi yn y ddeddfwriaeth sylfaenol sydd yn dod i rym drwy Orchymyn Cychwyn. Mae'r dull Gorchymyn Cychwyn yn caniatáu dethol gwahanol ddyddiadau ar gyfer gwahanol ddarpariaethau a rheolaeth dros ba pryd yn union y daw darpariaeth i rym yng Nghymru. Mae'r Gorchymyn trosiannol yn hanfodol fel sail i ddiddymu dal cronfeydd gan feddygon teulu, fel y gellir dirwyn y cynllun i ben.

The second Commencement Order brings into force, from 1 April 2000, the abolition of GP fundholding in Wales. It extends the membership of local representative committees, enabling local medical and dental committees to represent doctors and dentists other than those on health authority lists. It makes detailed amendments to legislation in respect of NHS trust establishment provisions for payment for goods and services carried out other than under NHS contract. The transitional Orders wind-up GP fundholding and address issues of the closure of accounts, the allotted sum savings, assets and complaints.

Mae'r ail Orchymyn Cychwyn yn gweithredu diddymiad dal cronfeydd gan feddygon teulu yng Nghymru, o 1 Ebrill 2000. Mae'n ehangu aelodaeth pwyllgorau cynrychioladol lleol, gan alluogi pwyllgorau meddygol a deintyddol lleol i gynrychioli meddygon a deintyddion heblaw'r rhai sydd ar restrau awdurdodau iechyd. Mae'n gwneud newidiadau manwl i ddeddfwriaeth mewn perthynas â darpariaethau sefydlu ymddiriedolaethau NHS ar gyfer talu am nwyddau a gwasanaethau a gyflawnir heblaw drwy gontract NHS. Mae'r Gorchmynion trosiannol yn dirwyn dal cronfeydd gan feddygon teulu i ben ac yn ymwneud â materion mewn perthynas â chau cyfrifon, arbedion o'r swm a ddyrannwyd, asedau a chwynion.

This Order finally abolishes the GP fundholding regime in Wales. Only four residual fundholders remain in Wales, in the Morgannwg Health Authority area. Their combined lists amount to some 46,000

Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu'n derfynol y gyfundrefn o ddal cronfeydd gan feddygon teulu yng Nghymru. Dim ond pedwar deiliad cronfa gweddilliol sydd yn aros yng Nghymru, yn ardal Awdurdod

patients—about 1.3 per cent of the population. The fundholding system, in which individual GPs were allowed to take on powers, functions and a budget, was the centrepiece of the old internal market. GP fundholders themselves made use of the fundholding arrangements to deliver benefits to their patients. These benefits, however, were only available to some patients, and often achieved only at the expense of others. Abolishing this system is crucial to delivering our commitment to improve the quality of healthcare for all patients.

Iechyd Morgannwg. Mae eu rhestrau gyda'i gilydd yn dod i ryw 46,000 o gleifion—tua 1.3 y cant o'r boblogaeth. Y system dal cronfeydd, lle y caniateid i feddygon teulu unigol ymgymryd â phwerau, swyddogaethau a chyllideb, oedd prif eitem yr hen farchnad fewnol. Defnyddid y trefniadau dal cronfa gan y meddygon teulu a oedd yn dal cronfa eu hunain i ddod â manteision i'w cleifion. Fodd bynnag, nid oedd y manteision hyn ond ar gael i rai cleifion, ac fe'u sicrheid yn aml ar draul eraill. Mae diddymu'r system hon yn holl bwysig i gyflawni ein hymrwymiad i wella ansawdd gofal iechyd i'r holl gleifion.

Local health groups have been in place since last April. With these groups, we have the opportunity to act differently in Wales. We have taken a different approach to planning health improvement and services in order to support our partnership agenda. Local health groups enable GPs and other caring professions to work together with local government, the voluntary sector and community representatives to improve health and address health inequalities in their local communities. These arrangements build on the experience of GP fundholders, total purchasing and GP commissioning groups. They do so without the competition embedded in the fundholding system and extend the influence of GPs across the full range of the health service.

Mae grwpiau iechyd lleol ar waith ers mis Ebrill diwethaf. Gyda'r grwpiau hyn, mae gennym gyfle i weithredu'n wahanol yng Nghymru. Yr ydym wedi ymdrin yn wahanol â chynllunio gwella iechyd a gwasanaethau er mwyn cynnal ein hagenda partneriaeth. Mae grwpiau iechyd lleol yn galluogi meddygon teulu a phroffesiynau gofal eraill i weithio gyda llywodraeth leol, y sector gwirfoddol a chynrychiolwyr cymunedol i wella iechyd ac ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd yn eu cymunedau lleol. Mae'r trefniadau hyn yn adeiladu ar brofiad meddygon teulu a oedd yn dal cronfa, prynu holl gynhwysol a grwpiau comisiynu meddygon teulu. Gwnânt hynny heb y gystadleuaeth sydd yn rhan hanfodol o'r system dal cronfeydd ac yn ehangu dylanwad meddygon teulu ar draws holl ystod y gwasanaeth iechyd.

The Order also puts right an inequity in allowing doctors and dentists who are not on health authority lists to be represented by their local medical and dental committees. Those not on the list include assistants, deputies and GP locums, along with those practitioners in personal medical and dental pilot schemes, providing Part 1 services, who wish to be represented by local committees.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn unioni annhegwch drwy ganiatáu cynrychiolaeth i feddygon a deintyddion nad ydynt ar restrau awdurdod iechyd gan eu pwyllgorau meddygol a deintyddol lleol. Ymhlith y rhai nad ydynt ar y rhestr y mae cynorthwywyr, dirprwyon a dirprwy feddygon teulu, ynghyd â'r ymarferwyr hynny mewn cynlluniau peilot meddygol a deintyddol personol, sydd yn darparu gwasanaethau Rhan 1, sydd yn dymuno cael eu cynrychioli gan bwyllgorau lleol.

The overall aim of making changes to trusts' financial regimes is to create a more transparent, less bureaucratic financial structure for NHS trusts than that in place at the moment under the previous internal market. In our first Commencement Order we provided for changes to be made to the trusts'

Y nod gyffredinol wrth wneud newidiadau yng nghyfundrefn ariannol yr ymddiriedolaethau yw creu strwythur ariannol mwy tryloyw, llai biwrocrataidd ar gyfer ymddiriedolaethau'r NHS na'r hyn sydd ar waith ar hyn o bryd o dan y farchnad fewnol flaenorol. Yn ein Gorchymyn

financial regimes so that under paragraph 7 of schedule 3 to the National Health Service and Community Care Act 1990, NHS trusts are allowed to invest temporary cash surpluses in Government securities or other approved public or private sector deposit facilities. These include local authorities, nationalised industries, banks and building societies.

Cychwyn cyntaf darparasom ar gyfer newidiadau yng nghyfundrefn ariannol yr ymddiriedolaethau fel bod ymddiriedolaethau NHS, o dan baragraff 7 o atodlen 3 i'r Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990, yn cael buddsoddi gwargedau ariannol dros dro yng ngwarannau'r Llywodraeth neu gyfleusterau cadw cymeradwyedig eraill yn y sector cyhoeddus neu breifat. Mae'r rhain yn cynnwys awdurdodau lleol, diwydiannau gwladoledig, banciau a chymdeithasau adeiladu.

3:21 p.m.

There is a cost to the Exchequer in allowing NHS trusts to invest in institutions other than the paymaster account, where the Government acts as a bank, as this money is not available for the Government to use, thereby increasing the amount needed to be borrowed from the market. Paragraph 84 of schedule 4 of the Health Act 1999 inserts a provision to this power by stating that a maximum amount of these investments may also be set. This function has been delegated to the Assembly with the Treasury's consent. Once this Order has commenced, it is planned that a direction will be issued which will have the effect of constraining investments to the paymaster account, apart from an upper limit, which has been agreed with the Treasury to be set at £50,000 initially.

Mae cost i'r Trysorlys wrth ganiatáu i ymddiriedolaethau NHS fuddsoddi mewn sefydliadau heblaw am gyfrif y tâl-feistr, lle y mae'r Llywodraeth yn gweithredu fel banc, gan nad yw'r arian hwn ar gael i'w ddefnyddio gan y Llywodraeth, a thrwy hynny cynyddu'r swm y mae angen ei fenthyca oddi wrth y farchnad. Mae paragraff 84 o atodlen 4 i'r Ddeddf Iechyd 1999 yn mewnosod amod ar y pŵer hwn drwy ddatgan y gellir hefyd bennu uchafswm ar gyfer y buddsoddiadau hyn. Dirprwywyd y swyddogaeth hon i'r Cynulliad gyda chydsyniad y Trysorlys. Wedi i'r Gorchymyn hwn gychwyn, bwriedir cyhoeddi cyfarwyddyd a fydd yn peri y caiff buddsoddiadau eu cyfyngu i gyfrif y tâl-feistr, ar wahân i derfyn uchaf, y cytunwyd â'r Trysorlys i'w osod ar £50,000 i ddechrau.

This change will have the effect of reducing overall Exchequer borrowing costs. Trusts have said that there will be a reduction in interest received, causing an additional cost pressure. However, this will be partly offset by a reduction in the administrative costs of planning and managing investment.

Effaith y newid hwn fydd lleihau costau benthyca cyffredinol y Trysorlys. Dywedodd yr ymddiriedolaethau y bydd gostyngiad yn y llog a dderbynnir, gan achosi pwysau costau ychwanegol. Fodd bynnag, gwrthbwysir hyn yn rhannol drwy ostyngiad yn y costau gweinyddol a geir wrth gynllunio a rheoli buddsoddi.

I turn to the extension of the Assembly's general powers of direction to cover NHS trusts. The Act puts NHS trusts on the same footing as other NHS bodies, reflecting their status as part of a national health service. However, the new direction-making power might be used, for example, to ensure that major trust investment decisions are consistent with the local health improvement programme, or that all trusts contribute

Trof at yr ehangu ar bwerau cyffredinol y Cynulliad i gynnwys ymddiriedolaethau'r NHS. Mae'r Ddeddf yn rhoi ymddiriedolaethau'r NHS ar yr un sylfaen â chyrff NHS eraill, gan adlewyrchu eu statws fel rhan o wasanaeth iechyd gwladol. Fodd bynnag, gellid defnyddio'r pŵer penderfynu newydd, er enghraifft, i sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi pwysig yr ymddiriedolaethau'n gyson â'r rhaglen

relevant data for communicable disease programmes.

gwella iechyd lleol, neu fod yr holl ymddiriedolaethau'n cyfrannu data perthnasol ar gyfer rhaglenni clefydau trosglwyddadwy.

The transitional Order provides for the transfer of assets, rights and liabilities connected with GP fundholding to the relevant health authority of the former fundholding practice. The health authority may use those assets in meeting the liabilities transferred to it and those retained by former members of fundholding practices. The aim of the transitional arrangements is to secure as smooth as possible transition from fundholding for the few practices that are still involved in it. The majority of fundholders left voluntarily to participate in local health groups over a year ago. Although only relatively small numbers are involved, it is important that all GP practices participate in this new partnership approach to improving health services and healthcare via local health groups.

Mae'r Gorchymyn trosiannol yn darparu ar gyfer trosglwyddo asedau, hawliau a rhwymedigaethau sydd yn gysylltiedig â dal cronfeydd gan feddygon teulu i awdurdod iechyd perthnasol y cyn-bractis dal cronfeydd. Gallai'r awdurdod iechyd ddewis defnyddio'r asedau hynny i gyflawni'r rhwymedigaethau a drosglwyddwyd iddo a'r rhai a gadwyd gan gyn-aelodau practisau a oedd yn dal cronfa. Nod y trefniadau trosiannol yw sicrhau trosglwyddiad mor esmwyth â phosibl oddi wrth ddal cronfa i'r ychydig bractisau sydd yn gysylltiedig â hynny o hyd. Gadawodd y rhan fwyaf o ddeiliaid cronfeydd o'u gwirfodd er mwyn cymryd rhan mewn grwpiau iechyd lleol dros flwyddyn yn ôl. Er mai ond niferoedd cymharol fach sydd yn gysylltiedig, mae'n bwysig i'r holl bractisau meddygon teulu gymryd rhan yn y dull partneriaeth newydd hwn o wella gwasanaethau iechyd a gofal iechyd drwy grwpiau iechyd lleol.

These two Orders are essential components of the jigsaw that will enable us to provide a better, fairer, quality service to patients in Wales. We have made much progress, particularly with local health groups. We have set in train a new approach to working together across boundaries which has been broadly welcomed. I hope that we can move forward in the spirit of partnership with a clear focus on providing better services and improved health for the people of Wales.

Mae'r ddau Orchymyn hyn yn elfennau hanfodol yn y jig-so a fydd yn ein galluogi i ddarparu gwasanaeth gwell, tecach, o ansawdd da i gleifion yng Nghymru. Gwnaethom lawer o gynnydd, yn enwedig gyda grwpiau iechyd lleol. Yr ydym wedi cychwyn dull newydd o weithio gyda'n gilydd ar draws ffiniau sydd wedi cael croeso cyffredinol. Gobeithiaf y gallwn symud ymlaen yn ysbryd partneriaeth gan ganolbwyntio'n eglur ar ddarparu gwell gwasanaethau a gwell iechyd i bobl Cymru.

David Lloyd: Trafodwyd y Ddeddf Iechyd ym mis Tachwedd ac fe gollwyd y ddadl bryd hynny. Heddiw, byddwn yn pleidleisio o blaid y mesurau hyn, ond mae nifer o bryderon gennym, er ein bod yn cefnogi materion megis diddymu dal cronfeydd gan feddygon teulu. Datganaf fy niddordeb fel meddyg teulu.

David Lloyd: The Health Act was discussed in November and the debate was lost then. Today, we will vote in favour of these measures, but we have many concerns, although we support matters such as abolishing fundholding for general practitioners. I declare my interest as a GP.

We welcome the Health Act 1999, because it abolishes GP fundholding measures. However, let nobody be persuaded that that means the end of the internal market, because trusts remain and the essential mechanics of

Croesawn y Ddeddf Iechyd 1999, am ei bod yn diddymu mesurau dal cronfeydd gan feddygon teulu. Fodd bynnag, na foed i neb gredu bod hynny'n golygu diwedd y farchnad fewnol, oherwydd mae'r

the internal markets remain. We welcome the end of GP fundholding. As we have said before in this Chamber, it was divisive and pitched GPs into competing against one another. The GP fundholders were preferentially financed so they could offer better treatment for their patients. At the end of the day that proves that the system needed more money.

ymddiriedolaethau'n aros ac mae mecaneg hanfodol y marchnadoedd mewnol yn aros. Croesawn ddiwedd dal cronfeydd gan feddygon teulu. Fel y dywedasom o'r blaen yn y Siambr hon, yr oedd yn gynhennus ac yn rhoi meddygon teulu i gystadlu yn erbyn ei gilydd. Ariannwyd meddygon teulu a oedd yn dal cronfa yn ffafriol fel y gallent gynnig gwell triniaeth i'w cleifion. Yn y pen draw mae hynny'n profi bod ar y system angen mwy o arian.

We welcome other aspects of the Health Act 1999 as well as the end of GP fundholding, such as the idea of pooled budgets and the greater inter-relationship between health and social services. We have mentioned previously a problem with pooled budgets, which is that if social services is the lead commissioner, it could commission a service that is traditionally in the health service such as physiotherapy. We would need guarantees or at least reassurances that health service provision with a social services lead commissioner would not be charged like other services that are unfortunately led by social services.

Croesawn agweddau eraill ar y Ddeddf Iechyd 1999 yn ogystal â'r diwedd ar ddal cronfeydd gan feddygon teulu, fel y syniad o gyllidebau ar y cyd a'r gydberthynas ehangach rhwng gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. Soniasom o'r blaen am broblem sydd yn gysylltiedig â chyllidebau ar y cyd, sef os mai'r gwasanaethau cymdeithasol yw'r comisiynydd arweiniol, gallai gomisiynu gwasanaeth sydd yn draddodiadol yn y gwasanaeth iechyd fel ffisiotherapi. Byddai arnom angen cael sicrwydd neu o leiaf dawelwch meddwl na chodir tâl am ddarpariaeth gwasanaeth iechyd lle y bo gwasanaethau cymdeithasol yn gomisiynydd arweiniol yn yr un modd â gwasanaethau eraill a arweinir, gwaetha'r modd, gan wasanaethau cymdeithasol.

We will debate prescription charges tomorrow but within the context of the Health Act debate today there is an important aspect of prescription charge evasion which we support wholeheartedly. The NHS Audit Office report last week highlighted the unacceptable fact that due to resource constraints, there is no Welsh equivalent of England's service to counter fraud in regard to evading prescription charges. However, prescription fraud is only one aspect of tackling prescription charges. The cost of prescription drugs is 11 per cent of the NHS budget in Wales. An element of that is the number of prescriptions we dish out but the other element is the actual cost of the drugs. Unfortunately, in this legislation, the cost of the drugs remains an issue decided by central government, perpetuating the cosy relationship between them and the large global pharmaceutical companies via an unreformed Pharmaceutical Price Regulation Scheme at present. Disappointingly, we have no control over much of our prescription

Byddwn yn trafod taliadau presgripsiwn yfory ond oddi mewn i gyd-destun y ddadl ar y Ddeddf Iechyd heddiw mae agwedd bwysig ar osgoi taliadau presgripsiwn a gefnogwn yn llwyr. Tynnwyd sylw yn adroddiad Swyddfa Archwilio'r NHS yr wythnos diwethaf at y ffaith annerbyniol nad oes dim yng Nghymru, oherwydd cyfyngiadau ar adnoddau, sydd yn cyfateb i'r gwasanaeth yn Lloegr i ymladd twyll mewn perthynas ag osgoi taliadau presgripsiwn. Fodd bynnag, nid yw twyll ynghylch presgripsiynau ond yn un agwedd ar ymdrin â thaliadau presgripsiwn. Mae cost cyffuriau ar bresgripsiwn yn 11 y cant o gyllideb yr NHS yng Nghymru. Un elfen o hynny yw nifer y presgripsiynau a rannwn ond yr elfen arall yw gwir gost y cyffuriau. Gwaetha'r modd, yn y ddeddfwriaeth hon, mae cost y cyffuriau yn fater i'w benderfynu gan lywodraeth ganolog o hyd, gan barhau'r berthynas gysurus rhyngddynt hwy a'r cwmnïau fferyllol byd-eang mawr drwy Gynllun Rheoleiddio Prisiau Fferyllol sydd heb ei ddiwygio ar hyn o bryd. Testun siom

costs because the actual cost of the individual drug is decided outside Wales.

yw nad oes gennym reolaeth dros lawer o'n costau presgripsiwn oherwydd penderfynir ar wir gost y cyffur unigol y tu allan i Gymru.

Tackling health inequalities is also an important aspect. We have debated the issue of community health action zones before. In the spirit of inclusiveness, I am pleased that Jane has taken on board our ideas and we will debate them in the Health and Social Services Committee shortly. I believe that when dealing with health inequalities, you cannot treat all areas similarly. Health improvements are fine as far as they go but to actually tackle the health inequalities in our society, the poorest, worst-off areas need to be targeted. That is why there must be community based health action zones in the poorest, most deprived wards. Merely talking of partnerships and health improvement programmes that go across the board and treating every electoral ward the same will not tackle those essential inequalities. In fact, it may perpetuate inequalities or, at least, the inequalities will remain. We are not doing anything about cutting down on those health inequalities.

Mae ymrin ag anghydraddoldebau iechyd hefyd yn agwedd bwysig. Trafodasom fater rhanbarthau gweithredu iechyd cymunedol o'r blaen. Yn unol ag ysbryd cynwysoldeb, yr wyf yn falch bod Jane wedi rhoi derbyniad i'n syniadau ac y byddwn yn eu trafod yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol cyn hir. Credaf, wrth ddelio ag anghydraddoldebau iechyd, na allwch drin pob ardal yn yr un modd. Mae gwelliannau iechyd yn iawn fel y cyfryw ond er mwyn mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau iechyd yn ein cymdeithas, rhaid targedu'r ardaloedd tlotaf, gwaethaf eu byd. Dyna pam y mae'n rhaid cael rhanbarthau gweithredu iechyd cymunedol yn y wardiau tlotaf, mwyaf difreintiedig. Nid yw dim ond sôn am bartneriaethau a rhaglenni gwella iechyd sydd yn cynnwys pobman a thrin pob ward etholaethol yr un fath yn fodd i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hanfodol hynny. Mewn gwirionedd, gallai barhau anghydradddebau neu, o leiaf, bydd yr anghydraddoldebau'n aros. Nid ydym yn gwneud dim ynghylch lleihau'r anghydraddoldebau iechyd hynny.

There are some positive aspects to the Health Act 1999. However, although we have a different health policy for Wales, much of it appears negative at the moment. The formation of primary care trusts in Wales is mentioned a lot in the Health Act. I have received assurances before now from Jane that it would hopefully not necessarily be the case in Wales that our local health groups would evolve into primary care trusts. That would be difficult to accommodate now because in our merging of trusts we have amalgamated our community trusts with our acute secondary hospital trusts. We would have to de-amalgamate that lot if we are to separate the community trusts from the secondary care trusts so that we can form primary care trusts again. It does not make a lot of sense. We have fewer trusts now; we are down to 15 from 31. However, the essential mechanics of the internal markets remain because the trusts remain. If we are going to form local health groups into primary care trusts, that means another 22

Mae rhai agweddau cadarnhaol ar y Ddeddf Iechyd 1999. Fodd bynnag, er bod gennym bolisi iechyd gwahanol ar gyfer Cymru, ymddengys llawer ohono'n negyddol ar hyn o bryd. Mae llawer o sôn am ffurfio ymddiriedolaethau gofal sylfaenol yng Nghymru yn y Ddeddf Iechyd. Derbyniais sicrwydd o'r blaen gan Jane na fyddai ein grwpiau iechyd lleol yng Nghymru o reidrwydd, gobeithir, yn datblygu'n ymddiriedolaethau gofal sylfaenol. Byddai'n anodd cymhwyso hynny'n awr oherwydd wrth gyfuno ymddiriedolaethau yr ydym wedi uno ein hymddiriedolaethau cymunedol â'n hymddiriedolaethau ysbyty eilaidd arhosiad byr. Byddai'n rhaid inni ddaduno'r cwbl os ydym i wahanu'r ymddiriedolaethau cymunedol oddi wrth yr ymddiriedolaethau gofal eilaidd fel y gallwn ffurfio ymddiriedolaethau gofal sylfaenol eto. Nid oes fawr o synnwyr ynddo. Mae gennym lai o ymddiriedolaethau'n awr; yr ydym i lawr i 15 o 31. Fodd bynnag, mae mecaneg hanfodol y marchnadoedd mewnol yn aros oherwydd

primary care trusts in addition to the 15 trusts that we already have. That is a total of 37 trusts, which is far more than the Conservatives ever had. We cannot truthfully talk about abolishing the internal market while that sort of system remains.

mae'r ymddiriedolaethau'n aros. Os ydym i ffurfio grwpiau iechyd lleol yn ymddiriedolaethau gofal sylfaenol, golyga hynny 22 ymddiriedolaeth gofal sylfaenol arall ar ben y 15 ymddiriedolaeth sydd gennym eisoes. Dyna gyfanswm o 37 o ymddiriedolaethau, sydd yn fwy o lawer nag a fu gan y Ceidwadwyr erioed. A bod yn onest, ni allwn sôn am ddiddymu'r farchnad fewnol tra ceir system o'r fath o hyd.

3:31 p.m.

I have received letters from many of my GP colleagues about certain aspects of health legislation that has appeared in England but which has not, as yet, appeared in Wales. People are wondering what is going on, as am I. It may have been made, for all I know. I am referring particularly to the edict from the Department of Health about violence against GPs and their staff, which has already been made in England. Violence is a real and daily problem. The health edict on this issue exists in England and it should appear in Wales at some stage. Perhaps it has, but I have not seen it. We await it.

Derbyniais lythyrau oddi wrth lawer o'm cyd-feddygon teulu am rai agweddau ar ddeddfwriaeth iechyd a ymddangosodd yn Lloegr ond nad ydyw, hyd yn hyn, wedi ymddangos yng Nghymru. Mae pobl yn meddwl tybed beth sydd yn digwydd, fel yr wyf fi. Efallai ei fod wedi ei wneud, am a wn i. Cyfeiriaf yn benodol at y gorchymyn oddi wrth yr Adran Iechyd ynghylch trais yn erbyn meddygon teulu a'u staff, a wnaethpwyd eisoes yn Lloegr. Mae trais yn broblem wirioneddol a beunyddiol. Mae'r gorchymyn iechyd ar y mater hwn yn bodoli yn Lloegr a dylai ymddangos yng Nghymru rywbryd. Efallai ei fod wedi gwneud, ond nis gwelais. Yr ydym yn aros amdano.

We must not experience negative effects from having a different health policy in Wales. We voted for a different NHS in Wales for positive reasons. Legislation must not hold us back. In extending the categories of people eligible for free eye tests, we discovered last week that we could act together positively. Jane is to be commended for listening to the arguments of the professionals, the voluntary sector groups and people of other political persuasions. In the true spirit of inclusiveness, I hope that such positive health policy development can be moved forward at the same time as in England rather than Wales having to wait for legislation. We must tackle that, particularly in health, as it seems to be holding us back.

Rhaid inni beidio â phrofi effeithiau negyddol o gael polisi iechyd gwahanol yng Nghymru. Pleidleisiasom dros NHS gwahanol yng Nghymru am resymau cadarnhaol. Ni ddylai deddfwriaeth ein dal yn ôl. Wrth ymestyn y categorïau o bobl sydd â hawl i dderbyn prawf ar y llygaid am ddim, darganfuasom yr wythnos diwethaf y gallem gydweithredu'n gadarnhaol. Mae Jane i'w chanmol am wrando ar ddadleuon y gweithwyr proffesiynol, grwpiau'r sector gwirfoddol a phobl â daliadau gwleidyddol eraill. Yng ngwir ysbryd cynwysoldeb, gobeithiaf y gellir hybu datblygiad polisi iechyd cadarnhaol o'r fath yr un pryd ag yn Lloegr yn hytrach na bod Cymru'n gorfod aros am ddeddfwriaeth. Rhaid inni ddelio â hynny, yn enwedig ar iechyd, gan ei bod yn ymddangos ei fod yn ein dal yn ôl.

We can have a different health policy for Wales within the NHS. We have shown this with eye tests last week. There are other matters by which we can make a difference such as community health action zones.

Gallwn gael polisi iechyd gwahanol i Gymru oddi mewn i'r NHS. Dangosasom hynny gyda phrofion llygaid yr wythnos diwethaf. Mae materion eraill lle y gallwn wneud gwahaniaeth megis rhanbarthau gweithredu

Some areas in Wales have the worst health statistics in the UK. The current system of having the same arrangement for England and Wales has failed us in the past. We must make a positive difference. Since devolution we have seen a Food Standards Agency for England and Wales but with a Welsh arm, as we could not get an agency for Wales only. The National Institute for Clinical Excellence is an England and Wales body as is the Commission for Health Improvement, mentioned in the Health Act 1999. A Wales body for nursing, midwifery and health visitors will soon be subsumed by a UK body.

iechyd cymunedol. Mae gan rai ardaloedd yng Nghymru yr ystadegau iechyd gwaethaf yn y DU. Mae'r system gyfredol o gael yr un trefniant ar gyfer Lloegr a Chymru wedi ein methu yn y gorffennol. Rhaid inni wneud gwahaniaeth cadarnhaol. Ers datganoli gwelsom Asiantaeth Safonau Bwyd ar gyfer Lloegr a Chymru ond gydag adain i Gymru, gan na allem gael asiantaeth i Gymru'n unig. Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol yn gorff i Gymru a Lloegr fel y mae'r Comisiwn Gwella Iechyd, y sonir amdano yn y Ddeddf Iechyd 1999. Caiff corff Cymreig ar gyfer nyrsio, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd ei gynnwys cyn hir o fewn corff ar gyfer y DU.

We appear to be experiencing counter-devolution just when we need pro-devolution movements to emphasise what happened in 1997 and last May. We are working towards a NHS health policy that is relevant to the people of Wales but, in certain critical sectors, we insist on hanging on to the old idea that we must be part of an England and Wales body. That is disappointing. How we cost our prescription drugs is also out of our control despite the fact that the national health service in Wales spends £300 million a year on that. We need to be brave and move on together to develop a truly devolved health policy. The Health Act 1999 is a start. Let us be brave and move on together. We can do it. We have the capability, and the need exists. We have the worst health statistics in the UK and some of the worst in Europe. Let us be brave and move on together.

Ymddengys ein bod yn profi gwrth-ddatganoli ar yr union adeg pan fo arnom angen symudiadau pro-ddatganoli er mwyn pwysleisio'r hyn a ddigwyddodd yn 1997 a mis Mai diwethaf. Yr ydym yn gweithio tuag at bolisi iechyd NHS sydd yn berthnasol i bobl Cymru ond, mewn rhai sectorau holl bwysig, mynnwn ddal gafael ar yr hen syniad bod rhaid inni fod yn rhan o gorff ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae hynny'n siomedig. Mae sut yr ydym yn prisio ein cyffuriau presgripsiwn y tu hwnt i'n rheolaeth hefyd er gwaethaf y ffaith bod y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru yn gwario £300 miliwn y flwyddyn ar hynny. Rhaid inni fod yn ddewr a symud ymlaen gyda'n gilydd i ddatblygu polisi iechyd gwirioneddol ddatganoledig. Mae'r Ddeddf Iechyd 1999 yn fan cychwyn. Gadewch inni fod yn ddewr a symud ymlaen gyda'n gilydd. Gallwn wneud hynny. Mae'r gallu gennym, ac mae'r angen yn bod. Gennym ni y mae'r ystadegau iechyd gwaethaf yn y DU a rhai o'r gwaethaf yn Ewrop. Gadewch inni fod yn ddewr a symud ymlaen gyda'n gilydd.

David Melding: The Conservative group will vote against these Commencement Orders. We have been around this racecourse before, so my contribution will be brief. I am surprised that so much time has been devoted to discussing these Orders this afternoon. However, another significant event is going on in another place. As we will record our opposition by voting against, I will give some of our reasons.

David Melding: Bydd y grŵp Ceidwadol yn pleidleisio'n erbyn y Gorchmynion Cychwyn hyn. Buom ar hyd y llwybr hwn o'r blaen, felly bydd fy nghyfraniad yn fyr. Synnaf fod cymaint o amser wedi ei neilltuo i drafod y Gorchmynion hyn y prynhawn yma. Fodd bynnag, mae digwyddiad pwysig arall yn mynd rhagddo mewn lle arall. Gan y byddwn yn cofnodi'n gwrthwynebiad trwy bleidleisio yn erbyn, rhoddaf rai o'n rhesymau.

We greatly regret the end of GP fundholding.

Testun gofid mawr i ni yw diwedd dal

It had become a popular scheme, and was making all sorts of innovations possible and raising standards. Best practice was becoming common practice. That must be the number one aim in healthcare, particularly in primary healthcare. I am not convinced that the new system will take forward the gains of GP fundholding. There is a great risk that the local health groups will become an ersatz command and control system. We have moved on from the old world where a universal service could be delivered from Westminster or Cathays Park. It is recognised that that is no longer viable. However, we do not recommend using the local health group model.

cronfeydd gan feddygon teulu. Daeth yn gynllun poblogaidd, ac yr oedd yn galluogi pob math o arloesi ac yn codi safonau. Yr oedd yr arfer gorau'n dod yn arfer cyffredin. Rhaid i hynny fod yn nod bennaf mewn gofal iechyd, yn enwedig mewn gofal iechyd sylfaenol. Nid wyf wedi fy argyhoeddi y bydd y system newydd yn parhau â manteision dal cronfeydd gan feddygon teulu. Mae perygl mawr y bydd y grwpiau iechyd lleol yn troi'n system gorchymyn a rheoli *ersatz*. Yr ydym wedi symud ymlaen o'r hen fyd lle y gellid cyflenwi gwasanaeth cyffredinol o San Steffan neu o Barc Cathays. Derbynnir nad yw hynny'n ymarferol bellach. Fodd bynnag, nid ydym yn argymell defnyddio patrwm y grŵp iechyd lleol.

We also greatly regret the end of statutory consultation through joint consultative committees. Although the joint working provisions of the Health Act 1999 are encouraging, the Health and Social Services Committee's discussions with the Welsh Local Government Association and representatives from various councils in Wales do not give me grounds for encouragement. I am not encouraged that they will take forward the new joint working provisions. However, they are only coming forward now. The Executive has the opportunity to encourage the use of joint working provisions. If it acts effectively and ensures that its local government colleagues use them, there will be a great advance in healing the division between health and social care. Therefore, we hope that the new provisions will be used effectively.

Mae hefyd yn ofid mawr inni fod yr ymgynghori statudol drwy gyd-bwyllgorau ymgynghorol yn dod i ben. Er bod darpariaethau gweithio ar y cyd y Ddeddf Iechyd 1999 yn galonogol, nid yw trafodaethau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chynrychiolwyr o wahanol gynghorau yng Nghymru yn fy nghalonogi. Nid wyf wedi fy nghalonogi y byddant yn hybu'r darpariaethau gweithio ar y cyd newydd. Fodd bynnag, dim ond yn awr y maent yn dod ymlaen. Mae cyfle gan y Weithrediaeth i annog y defnydd o ddarpariaethau gweithio ar y cyd. Os gweithreda'n effeithiol a sicrhau bod ei chydweithwyr llywodraeth leol yn eu defnyddio, bydd cam mawr ymlaen o ran cyfannu'r rhaniad rhwng gofal iechyd a gofal cymdeithasol. Felly, gobeithiwn y caiff y darpariaethau newydd eu defnyddio'n effeithiol.

We are relieved that the trust system will be retained. The reconfiguration was botched, and the amalgamation of acute and community care trusts will cause great difficulty in the health service in Wales. The months and years ahead will demonstrate that clearly. I am concerned that community and mental healthcare services will be downgraded. They will not be seen by senior managers as having the importance and priority of acute services. Acute services are in terrific demand and the use of resources is questioned constantly. There are great challenges there. However, grouping

Mae'n rhyddhad i ni y caiff y system ymddiriedolaethau ei chadw. Gwnaethpwyd llanastr o'r ailgyflunio, a bydd cyfuno ymddiriedolaethau gofal arhosiad byr a chymunedol yn achosi trafferth mawr yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Bydd y misoedd a'r blynyddoedd sydd i ddod yn dangos hynny'n glir. Testun pryder i mi yw y bydd y gwasanaethau gofal iechyd cymunedol a meddwl yn cael eu hisraddio. Ni fydd uwch reolwyr yn gweld bod iddynt yr un pwysigrwydd a blaenoriaeth â gwasanaethau arhosiad byr. Mae galw aruthrol am wasanaethau arhosiad byr a

community and mental healthcare with acute services is a backward step.

chwestiynir y defnydd o adnoddau'n gyson. Mae heriau mawr yn y fan honno. Fodd bynnag, mae grwpio gofal iechyd cymunedol a meddwl gyda gwasanaethau arhosiad byr yn gam yn ôl.

That is the criticism. The Government won a clear victory and has taken forward these reforms. The debate is pretty much over. It is now the place of a responsible opposition to say that the new system must be allowed time to work. We will be constructive in our criticisms and observations. We are sceptical of future success but are open to being won over. In that process we will ensure that issues such as joint working, the unification of social and health care, and better joint working with local health groups become a reality. We will be vigorous in examining these issues. We do not wish the new system ill. That would be inappropriate. We all want the best possible health service. We must now ensure that the Executive delivers that and that we can attempt to reform and improve a system that we would not have desired.

Dyna'r feirniadaeth. Enillodd y Llywodraeth fuddugoliaeth glir ac aeth ymlaen â'r diwygiadau hyn. Mae'r ddadl drosodd i raddau helaeth. Cyfrifoldeb gwrthblaid gyfrifol yn awr yw dweud bod rhaid caniatáu amser i'r system newydd weithio. Byddwn yn adeiladol yn ein beirniadaethau a'n sylwadau. Yr ydym yn amheus a geir llwyddiant yn y dyfodol ond yr ydym yn agored i'n perswadio. Yn y broses honno byddwn yn sicrhau y bydd materion fel gweithio ar y cyd, uno gofal cymdeithasol a iechyd, a gwell gweithio ar y cyd gyda grwpiau iechyd lleol yn cael eu gwireddu. Byddwn yn drwyadl wrth archwilio'r materion hyn. Nid ydym yn dymuno drwg i'r system newydd. Byddai hynny'n amhriodol. Mae pawb ohonom am gael y gwasanaeth iechyd gorau posibl. Yn awr rhaid inni sicrhau bod y Weithrediaeth yn cyflawni hynny ac y gallwn geisio diwygio a gwella system na fyddem wedi ei dymuno.

Kirsty Williams: I thank Jane for her statement, for bringing forward these Orders and for her comments on the provisions of the Health Act 1999 that allow for the closer working between the NHS and social services, to which Dai and David referred. That is much needed. At any point during this winter, up to 600 beds in Welsh hospitals were blocked by people who did not medically need them. That had a knock-on effect on waiting times and lists.

Kirsty Williams: Diolchaf i Jane am ei datganiad, am gyflwyno'r Gorchmynion hyn ac am ei sylwadau ar ddarpariaethau'r Ddeddf Iechyd 1999 sydd yn caniatáu'r gweithio agosach rhwng yr NHS a gwasanaethau cymdeithasol, y cyfeiriodd Dai a David ato. Mae angen mawr am hyn. Ar bob adeg yn ystod y gaeaf hwn, yr oedd hyd at 600 o welyau mewn ysbytai yng Nghymru wedi eu blocio gan bobl nad oedd ganddynt angen meddygol amdanynt. Cafodd hynny effaith gynyddol ar amseroedd a rhestrau aros.

3:41 p.m.

We desperately need to take forward the proposals contained in the Health Act 1999 and achieve closer working between health and social services. However, as David said, that is easier said than done, especially when one sees, as we did during recent Health and Social Services Committee meetings, the failure of some local authorities to invest in social services as the Assembly advised them to do. They have failed to invest resources in

Mae angen dybryd inni fwrw ymlaen â'r cynigion a geir yn y Ddeddf Iechyd 1999 a sicrhau gweithio agosach rhwng gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. Fodd bynnag, fel y dywedodd David, haws dweud na gwneud, yn enwedig pan welir, fel y gwelsom ni yn ystod cyfarfodydd diweddar o'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, fethiant rhai awdurdodau lleol i fuddsoddi mewn gwasanaethau

this area. I know from my home constituency the difficulty of getting a straight answer out of social services departments about putting money into social care to enable people to come out of hospital and back into the community. One must think, Jane, not only about what carrots we will use to promote closer working, but at what stage we will set an example and ensure that it happens.

cymdeithasol fel y cynghorodd y Cynulliad hwy i wneud. Maent wedi methu â buddsoddi adnoddau yn y maes hwn. Gwn o'm hetholaeth gartref y trafferth a geir wrth geisio cael ateb syml gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol ynghylch rhoi arian mewn gofal cymdeithasol i alluogi pobl i adael yr ysbyty a dod yn ôl i'r gymuned. Rhaid i rywun feddwl, Jane, nid yn unig am yr abwyd y byddwn yn ei ddefnyddio i hybu gweithio'n agosach, ond hefyd ar ba adeg y byddwn yn gosod esiampl ac yn sicrhau ei fod yn digwydd.

The setting up of local health groups is welcome, as you said, because they involve the health professions in setting health priorities for particular areas. I have one concern about the setting up of local health groups in that it creates another tier of bureaucracy within the NHS in Wales. We now have local health groups, trusts and health authorities and one begins to wonder whether all these tiers are necessary. However, given the fact that the local health groups were only set up a year ago and have recently taken up their roles—some with greater speed than others—we need to give them the opportunity to bed down before we begin to consider whether we need to maintain these three levels of bureaucracy in the NHS in Wales. I welcome the fact that the Commencement Orders today allow for the opening up of trusts and allow us to scrutinise them more closely.

Mae sefydlu grwpiau iechyd lleol i'w groesawu, fel y dywedasoch, am eu bod yn cynnwys y proffesiynau iechyd wrth bennu blaenoriaethau iechyd ar gyfer ardaloedd penodol. Un pryder sydd gennyf ynghylch sefydlu grwpiau iechyd lleol yw bod hyn yn creu haen arall o fiwrocratiaeth oddi mewn i'r NHS yng Nghymru. Bellach mae gennym grwpiau iechyd lleol, ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd ac mae rhywun yn dechrau meddwl tybed a oes angen yr holl haenau hyn. Fodd bynnag, yng ngolwg y ffaith mai dim ond blwyddyn yn ôl y sefydlwyd y grwpiau iechyd lleol a'u bod wedi ymgymryd â'u rôl yn ddiweddar—rhai'n gynt na'i gilydd—mae angen inni roi cyfle iddynt ymsefydlu cyn inni ddechrau ystyried a oes angen inni gynnal y tair lefel hyn o fiwrocratiaeth yn yr NHS yng Nghymru. Croesawaf y ffaith bod y Gorchmynion Cychwyn heddiw'n caniatáu agor y drws ar ymddiriedolaethau ac yn caniatáu inni eu harchwilio'n fanylach.

I cannot share David Melding's nostalgia for GP fundholding. The internal market cost the NHS a great deal, without delivering the quality of care promised to the majority of Welsh patients. It was a divisive situation that created a two tier NHS where a minority of patients were treated more quickly than others, not because their conditions merited it but because their GPs were fundholders. It set patient against patient, doctor against doctor and hospital against hospital. It distorted priorities and contributed to the debt problems now faced by many of our health authorities. It was incredibly bureaucratic. One only has to think of the hoops that people had to jump through. The vast amount of paperwork involved in drawing up a single

Ni allaf rannu hiraeth David Melding am ddal cronfeydd gan feddygon teulu. Costiodd y farchnad fewnol lawer i'r NHS, heb gyflenwi'r ansawdd gofal a addawyd i fwyafrif y cleifion yng Nghymru. Yr oedd yn sefyllfa gynhennus a greodd NHS o ddwy haen lle y câi lleiafrif o gleifion eu trin yn gynt nag eraill, nid am fod eu cyflwr yn teilyngu hynny ond am fod eu meddygon teulu'n dal cronfa. Gosododd glaf yn erbyn claf, meddyg yn erbyn meddyg ac ysbyty yn erbyn ysbyty. Ystumiodd flaenoriaethau a chyfrannodd at y problemau dyled a wynebir yn awr gan lawer o'n hawdurdodau iechyd. Yr oedd yn anhygoel o fiwrocrataidd. Nid oes ond rhaid meddwl am y felin yr oedd yn rhaid i bobl fynd drwyddi. Yr oedd y swm

extra contractual referral showed how paper-driven it was. It is somewhat typical of the Tories to protest against this. Not only do they want to return to the old system, if their Westminster spokesperson on Welsh affairs is to be believed, they have nothing more serious to offer the patients of Wales than promoting private care rather than the investment—

enfawr o waith papur a oedd yn gysylltiedig â gwneud un cyfeiriad cytundebol ychwanegol yn dangos mor ddibynnol ydoedd ar bapur. Mae braidd yn nodweddiadol o'r Torïaid eu bod yn protestio yn erbyn hyn. Nid yn unig y maent am fynd yn ôl i'r hen system, os yw eu llefarydd yn San Steffan ar faterion Cymreig i'w gredu, nid oes ganddynt ddim mwy difrifol i'w gynnig i gleifion Cymru na hybu gofal preifat yn hytrach na'r buddsoddi—

David Melding: The national health service is a universal service. Part of being a citizen in this country is that you can receive universal healthcare. Any party that quibbled with that would be destroyed by the electorate.

David Melding: Mae'r gwasanaeth iechyd gwladol yn wasanaeth i bawb. Rhan o fod yn ddinesydd yn y wlad hon yw y gallwch dderbyn gofal iechyd cyffredinol. Câi unrhyw blaid a ddadleuai'n groes i hynny ei dinistrio gan yr etholwyr.

Kirsty Williams: Will the comments that David Melding made last Thursday night destroy his colleagues?

Kirsty Williams: A fydd y sylwadau a wnaeth David Melding nos Iau ddiwethaf yn dinistrio ei gydweithwyr?

While we welcome the Commencement Order today, the reality is, if the Health Act 1999 is to work and is to deliver joined-up care and begin to tackle health inequalities in Wales, it can only do so if it is properly resourced.

Er ein bod yn croesawu'r Gorchymyn Cychwyn heddiw, y gwir yw, os yw'r Ddeddf Iechyd 1999 i weithio a chyfenwi gofal cydgysylltiol a dechrau ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru, ni all wneud hynny oni chaiff adnoddau priodol.

Ieuan Wyn Jones: Yr wyf yn falch o gael y cyfle i gymryd rhan yn y drafodaeth hon. Er fy mod yn deall safbwynt David Melding a'r Blaid Dorïaidd ar y rheoliadau hyn, yr wyf yn siomedig ynglŷn â'i ddatganiad. Yr wyf yn siomedig ynglŷn â'i agwedd tuag at yr amser yr ydym wedi'i neilltuo i drafod y rheoliadau hyn. Wedi'r cwbl, dyma un o'r Deddfau pwysicaf y byddwn yn ei thrafod yn ystod cyfnod cyntaf y Cynulliad, sef patrwm newydd o sicrhau gwasanaeth iechyd yn y sector cynradd. Gobeithiaf, Lywydd, y bydd yr amser y mae'r Cynulliad yn ei neilltuo i drafod rheoliadau pwysig fel hyn yn cynyddu yn hytrach na lleihau. Y realiti yw—

Ieuan Wyn Jones: I am pleased to have the opportunity to participate in this debate. Although I understand David Melding's and the Tory Party's viewpoint on these regulations, I am disappointed with his statement. I am disappointed with his attitude towards the time that we have set aside to discuss these regulations. After all, this is one of the most important Acts that we will discuss during the first session of the Assembly, namely a new pattern of ensuring a health service in the primary sector. I hope, Llywydd, that the time the Assembly sets aside to discuss important regulations such as these will increase rather than decrease. The reality is—

David Melding: If we need time to discuss these matters in detail, it has to be done months in advance of their coming into effect. One of these Orders comes into effect on 1 April.

David Melding: Os oes arnom angen amser i drafod y materion hyn yn fanwl, rhaid gwneud hynny fisoedd cyn y byddant yn dod i rym. Daw un o'r Gorchmynion hyn i rym ar 1 Ebrill.

Ieuan Wyn Jones: Yn anffodus, mae amseriad cyflwyniad rheoliadau yn aml y tu allan i reolaeth y Cynulliad oherwydd eu bod

Ieuan Wyn Jones: Unfortunately, the timing of the presentation of regulations is often beyond the Assembly's control because they

yn ganlyniad i ddeddfwriaeth San Steffan. Mae'n bwysig bod y Cynulliad yn cynnal trafodaethau manwl ac eang ar faterion a gaiff effaith uniongyrchol ar fywydau pobl. Er y cynhaliwyd trafodaethau angenrheidiol ar ystod eang o bynciau yn ystod wyth mis cyntaf bodolaeth y Cynulliad, yn rhy aml o lawer, am resymau a ddeellir gan bawb ohonom, gwastraffwyd gormod o amser yn trafod pynciau na fydd yn effeithio ar fywydau pobl o ddydd i ddydd. Gobeithiaf, o hyn allan, y bydd Aelodau'r Cynulliad yn cymryd rhan mewn trafodaethau helaeth, dwys, ar rai o egwyddorion y rheoliadau newydd hyn sydd yn ymwneud ag addysg ac iechyd.

are a result of Westminster legislation. It is important that the Assembly holds detailed, extensive discussions on matters that have a direct effect on people's lives. Even though necessary discussions have been held on a wide range of subjects during the first eight months of the Assembly's existence, far too often, for reasons that all of us understand, too much time has been wasted on discussing subjects that will not affect people's everyday lives. I hope that, from now on, Assembly Members will take part in in-depth, extensive discussions on some of the principles of these new regulations which relate to education and health.

Yr hyn sydd yn gwneud y rheoliadau yn bwysig yw'r ffaith ein bod, er nad ydym yn credu bod y Ddeddf yn mynd yn ddigon pell, yn ceisio dechrau datgymalu rhai o'r egwyddorion sylfaenol Thatcheraidd a lywodraethodd Gymru am gymaint o flynyddoedd, megis y farchnad fewnol yn y sector iechyd ac eithrio ysgolion o reolaeth llywodraeth leol. Dyna'r math o athroniaeth a fu'n wrthun gan fwyafrif pobl Cymru ac a roddodd reswm cryf dros sefydlu'r Cynulliad. Gan fod y Cynulliad yn fforwm i leisio barn, mae'n bwysig ein bod yn manteisio ar y cyfle i ofyn i'r Llywodraeth yn y Cynulliad ac yn San Steffan fynd yn llawer pellach i ddatgymalu'r athroniaeth honno na chafodd gefnogaeth mwyafrif etholwyr Cymru erioed. O edrych ar Ddeddf Iechyd 1999, ein gobaith oedd y byddai'r Llywodraeth yn Llundain, ac yn enwedig y Llywodraeth yn y Cynulliad, wedi mynd ymhellach ar hyd y ffordd i ddatgymalu'r farchnad fewnol yn y gwasanaeth iechyd. Rhaid inni dderbyn mai un cam ymlaen yn unig oedd sefydlu'r grwpiau iechyd lleol. Mae diddymu'r system dal cronfeydd yn gam pwysig, ond rhaid inni fynd ymhellach na hynny. Rhannaf bryderon Kirsty Williams y gellid ystyried y grwpiau iechyd lleol yn ddim ond haen arall o weinyddiaeth ddianghenraid yn y gwasanaeth iechyd.

What makes the regulations important is the fact that, even though we do not think that the Act goes far enough, we are attempting to start to dismantle some of the fundamental Thatcherist principles that governed Wales for so many years, such as the internal market in the health sector and opting schools out of local authority control. That is the kind of philosophy that was abhorrent to the majority of the people of Wales and which gave a strong reason for establishing the Assembly. As the Assembly is a forum to voice opinions, it is important that we take advantage of the opportunity to ask the Government in the Assembly and in Westminster to go much further in dismantling the philosophy that never had the support of the majority of the electorate in Wales. Looking at the Health Act 1999, we had hoped that the Government in London, and especially the Assembly Government, would have gone further down the road of dismantling the internal market in the health service. We must accept that establishing the local health groups was only one step forward. Repealing the fundholding system is an important step, but we need to go further than that. I share Kirsty Williams's concerns that the local health groups could be regarded as merely another tier of unnecessary administration in the health service.

Un peth arwyddocaol ym mhatrwm newydd y sector cynradd yw'r berthynas yr hoffem ei gweld yn datblygu rhwng meddygon teulu, nyrsys yn y gymuned ac ymwelwyr iechyd, a hynny heb greu haen arall o fiwrocratiaeth leol i ychwanegu at yr ymddiriedolaethau a'r

One significant element in the primary sector's new pattern is the relationship that we would like to see develop between general practitioners, community nurses and health visitors, without creating another tier of local bureaucracy to add to the health

awdurdodau iechyd sydd yn bodoli eisoes. Dylem gefnogi neilltuo mwy o gyllid i'r sector cynradd er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r hyn sydd yn digwydd ar lefel leol.

trusts and authorities that already exist. We should support the allocation of more funds to the primary sector in order to make the best use of what happens at a local level.

I have serious reservations about turning local health groups into commissioning bodies, for the reasons that Dai Lloyd mentioned. We want less bureaucracy and less administration in the health service. I welcome the greater flexibility that the introduction of local health groups will give to the delivery of healthcare at the primary level in Wales. The Assembly should promote and welcome this kind of teamwork approach at a local level. The teamwork involves general practitioners, community nurses and health visitors. I hope that local health groups will be able to ensure better co-ordination between primary health and social care at a local level. A difficulty that we have experienced with large health authorities and trusts is that the necessary co-ordination between primary healthcare and social care has not always been what we would have liked. I hope that the Secretary for Health and Social Services will make it clear to local health groups that we want greater co-ordination at that level. I also want local health groups to set up local initiatives that consider local circumstances and health needs.

Mae gennyf amheuon difrifol ynghylch troi grwpiau iechyd lleol yn gyrff comisiynu, am y rhesymau a grybwyllwyd gan Dai Lloyd. Yr ydym am gael llai o fiwrocratiaeth a llai o weinyddu yn y gwasanaeth iechyd. Croesawaf yr hyblygrwydd ehangach a geir drwy gyflwyno grwpiau iechyd lleol wrth gyflenwi gofal iechyd ar y lefel sylfaenol yng Nghymru. Dylai'r Cynulliad hybu a chroesawu dull gwaith tîm o'r math hwn ar lefel leol. Mae'r gwaith tîm yn cynnwys ymarferwyr cyffredinol, nyrsys cymunedol ac ymwelwyr iechyd. Gobeithiaf y bydd y grwpiau iechyd lleol yn gallu sicrhau gwell cydweithrediad rhwng iechyd sylfaenol a gofal cymdeithasol ar lefel leol. Un anhawster a brofasom gydag awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaethau mawr yw na fu'r cydlynu angenrheidiol rhwng gofal iechyd sylfaenol a gofal cymdeithasol bob amser fel y dymunem. Gobeithiaf y bydd yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi ar ddeall i grwpiau iechyd lleol ein bod am gael mwy o gydlynu ar y lefel honno. Yr wyf hefyd am i grwpiau iechyd lleol sefydlu mentrau lleol sydd yn ystyried amgylchiadau ac anghenion iechyd lleol.

3:51 p.m.

Following a discussion that I had recently with the Anglesey local health group, I commend in particular to Jane Hutt its coronary care initiative. Prevention must be fully developed at a local level. That clearly has cost implications, but I commend that kind of initiative. Why should the Anglesey local health group, for example, be interested in coronary care? If you live in Anglesey or Blaenau Gwent you are more likely to suffer a heart attack and to have difficulty in getting good coronary care at your local hospital. I want these local health groups to develop preventative practices at a local level so that, wherever you live in Wales, you are entitled to the best healthcare and prevention.

Ar ôl trafodaeth a gefais yn ddiweddar â grŵp iechyd lleol Ynys Môn, cymeradwyaf ei fenter gofal coronaidd i Jane Hutt yn arbennig. Rhaid datblygu ataliad yn llawn ar lefel leol. Mae'n amlwg bod goblygiadau o ran cost, ond cymeradwyaf fenter o'r math hwnnw. Pam y dylai grŵp iechyd lleol Ynys Môn, er enghraifft, ymddiddori mewn gofal coronaidd? Os ydych yn byw yn Ynys Môn neu ym Mlaenau Gwent yr ydych yn fwy tebygol i ddioddef trawiad ar y galon a chael anhawster wrth sicrhau gofal coronaidd da yn eich ysbyty lleol. Yr wyf am i'r grwpiau iechyd lleol hyn ddatblygu arferion ataliol ar lefel leol fel bod gennych hawl, ym mha le bynnag yng Nghymru yr ydych yn byw, i gael y gofal iechyd a'r ataliad gorau.

That is why I welcome this debate. Although

Dyna pam y croesawaf y ddadl hon. Er y

Plaid Cymru—the Party of Wales will support these motions, we want the Government to know that we have serious reservations about them.

bydd Plaid Cymru—the Party of Wales yn cefnogi'r cynigion hyn, yr ydym am i'r Llywodraeth wybod bod gennym amheuon difrifol yn eu cylch.

Jane Hutt: I welcome any chance to have a debate on health. A few weeks ago, we had a good debate on health inequalities in a meeting of the South East Wales Regional Committee. At the end of the meeting, I suggested that all the Regional Committees could have a similar debate. We discussed many of the issues that arose today, particularly on tackling health inequalities in our communities.

Jane Hutt: Croesawaf unrhyw gyfle i gael dadl ar iechyd. Ychydig wythnosau'n ôl, cawsom ddadl dda ar anghydraddoldebau iechyd mewn cyfarfod o Bwyllgor Rhanbarthol Dwyrain De Cymru. Ar ddiwedd y cyfarfod, awgrymais y gallai'r holl Bwyllgorau Rhanbarthol gael dadl debyg. Trafodasom lawer o'r materion a gododd heddiw, yn enwedig ynghylch mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn ein cymunedau.

I am glad, Dai, that your party supports the Orders. You stated your concerns about the internal market. You must have been in the thick of it when you were a GP fundholder, and we share your concerns. Kirsty clearly spelt out the joint opposition to GP fundholding. Dai also voiced concerns about the role of trusts. One point that I have made in these Orders is that the Health Act 1999 places NHS trusts on the same footing as other NHS bodies. They are no longer free-standing, autonomous organisations, but are part of the NHS. In the NHS stocktake last year, one of our most important findings on the debts that we inherited as a result of the internal market was that collaboration had to be a major objective in developing the new national health service in Wales. No one is an island and everybody must co-operate and collaborate. We are moving forward by commissioning and developing our health services through health improvement programmes. The trusts are there to deliver, not to decide how we spend money. Strategically, the Assembly now has the opportunity to develop the health service to respond to the health needs of the people of Wales, with health improvement programmes being devised and developed by the health authorities in partnership with the local health groups. The trusts must then develop the services. That is the difference in the way that we are working.

Yr wyf yn falch, Dai, fod eich plaid yn cefnogi'r Gorchmynion. Datganasoch eich pryderon am y farchnad fewnol. Rhaid eich bod yn ei chanol hi pan oeddech yn feddyg teulu yn dal cronfa, a rhannwn eich pryderon. Nododd Kirsty yn glir y cydwrthwynebiad i ddal cronfeydd gan feddygon teulu. Mynegodd Dai ei bryderon am rôl yr ymddiriedolaethau hefyd. Un pwynt a wneuthum yn y Gorchmynion hyn yw bod y Ddeddf Iechyd 1999 yn rhoi ymddiriedolaethau'r NHS ar yr un sylfaen â chyrff NHS eraill. Nid ydynt bellach yn gyrff annibynnol sydd yn sefyll ar wahân, ond yn rhan o'r NHS. Yn adroddiad cloriannu yr NHS y llynedd, un o'n canfyddiadau pwysicaf ynghylch y dyledion a etifeddasom o ganlyniad i'r farchnad fewnol oedd bod rhaid i gydweithio fod yn amcan pwysig wrth ddatblygu'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru. Nid oes neb yn ynys a rhaid i bawb gydweithredu a chydweithio. Yr ydym yn symud ymlaen drwy gomisiynu a datblygu ein gwasanaethau iechyd drwy raglenni gwella iechyd. Mae'r ymddiriedolaethau yno i gyflenwi, nid i benderfynu sut yr ydym yn gwario arian. O ran strategaeth, mae cyfle'n awr i'r Cynulliad ddatblygu'r gwasanaeth iechyd i ymateb i anghenion iechyd pobl Cymru, gyda rhaglenni gwella iechyd a gaiff eu dyfeisio a'u datblygu gan yr awdurdodau iechyd mewn partneriaeth â'r grwpiau iechyd lleol. Rhaid i'r ymddiriedolaethau wedyn ddatblygu'r gwasanaethau. Dyna'r gwahaniaeth yn y modd yr ydym yn gweithio.

Tackling health inequalities must be a part of

Rhaid cynnwys ymdrin ag

our agenda. It is interesting, Ieuan, that you raised the issue of heart disease in questions to the First Secretary earlier today. We must link prevention and rehabilitation to health inequalities in Wales and recognise that it must be a part of our debates in this Chamber. All Assembly Members have a responsibility to be strategic and not parochial, although we must ensure that the interests of our local populations are being adhered to and that we understand their health needs. However, we now have an opportunity to be more strategic and to be responsible for how we consider the health gain and the clinical evidence that we sought when we discussed the importance of primary eyecare development in Committee last week.

anghydraddoldebau iechyd yn ein hagenda. Mae'n ddiddorol, Ieuan, eich bod wedi codi mater clefyd y galon yn y cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd yn gynharach heddiw. Rhaid inni gysylltu atal ac ailsefydlu ag anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru a chydnabod bod rhaid i hynny fod yn rhan o'n dadleuon yn y Siambr hon. Mae cyfrifoldeb ar holl Aelodau'r Cynulliad i fod yn strategol ac nid yn blwyfol, er bod rhaid inni sicrhau y cedwir at fuddiannau ein poblogaethau lleol a'n bod yn deall eu hanghenion iechyd. Fodd bynnag, mae gennym gyfle'n awr i fod yn fwy strategol ac i fod yn gyfrifol am y modd yr ystyriwn welliant iechyd a'r dystiolaeth glinigol a geisiasom pan drafodasom bwysigrwydd datblygu gofal golwg sylfaenol yn y Pwyllgor yr wythnos diwethaf.

Ieuan Wyn Jones: I accept that we must consider this strategically. However, do you accept that health inequalities within regions is a major problem in Wales? Whatever strategy you have, it is not right that, if you live in Llangefni or Blaenau Gwent, for example, you are more likely to have cardiac surgery healthcare problems than if you live in the south-east of England. How do you tackle local health inequalities within that strategy?

Ieuan Wyn Jones: Derbyniaf fod rhaid inni ystyried hyn yn strategol. Fodd bynnag, a ydych yn derbyn bod anghydraddoldebau iechyd oddi mewn i ranbarthau'n broblem fawr yng Nghymru? Pa strategaeth bynnag sydd gennych, nid yw'n iawn, os ydych yn byw yn Llangefni neu ym Mlaenau Gwent, er enghraifft, eich bod yn fwy tebygol o gael problemau gofal iechyd o ran llawdriniaeth ar y galon na phe baech yn byw yn ne-ddwyrain Lloegr. Sut yr ydych yn ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd lleol oddi mewn i'r strategaeth honno?

Jane Hutt: That is one of the major issues that the South Wales East Regional Committee discussed in its recent meeting. We considered cardiac services and the impact not only of the worst heart disease, for example in Gwent, but the lack of access to cardiac services there. We must consider that issue and responsibility locally, regionally and nationally. The Health and Social Services Committee has agreed to a review of the formula in Wales. That will not provide us with easy answers on how we relate resources to health inequalities, but this is not just about the health service.

Jane Hutt: Dyna un o'r materion pwysig a drafododd Pwyllgor Rhanbarthol Dwyrain De Cymru yn ei gyfarfod diweddar. Ystyriasom wasanaethau cardiaidd a'r effaith o gael nid yn unig y clefyd calon gwaethaf, er enghraifft, yng Ngwent, ond y diffyg mynediad at wasanaethau cardiaidd yno. Rhaid inni ystyried y mater hwnnw a chyfrifoldeb yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Cytunodd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar adolygiad o'r fformwla yng Nghymru. Ni fydd hynny'n rhoi atebion rhwydd inni ynghylch y modd y cysylltwn adnoddau ac anghydraddoldebau iechyd, ond nid â'r gwasanaeth iechyd yn unig y mae a wnelo hyn.

This goes back to points raised by Dai and others, particularly on targeting our communities with health action zones. We must target action across not only the provision of health services but across

Mae hyn yn mynd yn ôl at bwyntiau a godwyd gan Dai ac eraill, yn enwedig ynghylch targedu ein cymunedau drwy ranbarthau gweithredu iechyd. Rhaid inni dargedu gweithredu nid yn unig ar draws y

economic, educational and social actions in those communities. I hope that we will discuss that further in our 'A Better Wales' debate. If we do not get things right on the health front, much of our work to spend our European funding wisely will suffer. There will be missed opportunities if we do not integrate health action into how we develop our European programme. It goes beyond health service provision.

ddarpariaeth o wasanaethau iechyd ond ar draws gweithredoedd economaidd, addysgol a chymdeithasol yn y cymunedau hynny. Gobeithiaf y byddwn yn trafod hynny ymhellach yn ein dadl ar 'Gwell Cymru'. Os na chawn bethau'n iawn o ran iechyd, bydd llawer o'n gwaith i wario ein harian Ewropeaidd yn ddoeth yn dioddef. Collir cyfleoedd os na fyddwn yn integreiddio gweithredu iechyd yn y modd y datblygwn ein rhaglen Ewropeaidd. Mae'n mynd ymhellach na darpariaeth gwasanaeth iechyd.

The exciting new role of local health groups is important. In Powys, the local authority, the local health group, the health authority and the trust have come together to form an alliance. In other parts of Wales, local health groups that have existed for only a year are breaking new ground. Those groups include GPs, but also nurses and other team players.

Mae rôl newydd gyffrous y grwpiau iechyd lleol yn bwysig. Ym Mhowys, daeth yr awdurdod iechyd, y grŵp iechyd lleol, yr awdurdod iechyd a'r ymddiriedolaeth iechyd at ei gilydd i ffurfio cynghrair. Mewn rhannau eraill o Gymru, mae grwpiau iechyd lleol nad ydynt yn bod ond ers blwyddyn yn torri tir newydd. Mae'r grwpiau hynny'n cynnwys meddygon teulu, ond hefyd nyrsys a chwaraewyr tîm eraill.

Jenny Randerson: Are you aware that, in Cardiff, the local health group does not include local authority representatives because of a dispute about how nomination is made to it? Will you investigate that and encourage that representation?

Jenny Randerson: A ydych yn ymwybodol nad yw'r grŵp iechyd lleol yng Nghaerdydd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdod lleol oherwydd anghydfod ynghylch y modd y gwneir yr enwebiad iddo? A ydych yn fodlon ymchwilio i hynny ac annog y gynrychiolaeth honno?

Jane Hutt: I know about that situation and I am disappointed about it. I have made representations and will continue to do so. I am glad that it has been raised again in the Chamber. There is an opportunity for local health groups to break new ground because they are coterminous with local authorities and include a multi-disciplinary range of health professionals, the voluntary sector and lay members. We have local health groups chaired by pharmacists.

Jane Hutt: Gwn am y sefyllfa honno ac yr wyf yn siomedig yn ei chylch. Cyflwynais sylwadau a byddaf yn parhau i wneud hynny. Yr wyf yn falch ei bod wedi ei chodi eto yn y Siambr. Mae cyfle i grwpiau iechyd lleol dorri tir newydd am eu bod yn cydffinio ag awdurdodau lleol ac yn cynnwys amrediad amlddisgyblaethol o weithwyr iechyd proffesiynol, y sector gwirfoddol ac aelodau lleyg. Mae gennym grwpiau iechyd lleol a fferyllwyr yn gadeiryddion arnynt.

Kirsty Williams: Do you accept that, although local health groups include a wide range of healthcare professionals, there has been much disquiet from professions allied to medicine, who do not have a dedicated representative on the local health groups? There has also been a campaign by the Royal College of Nursing and other nursing bodies to ensure that there is a nurse on the executive of the local health groups.

Kirsty Williams: A ydych yn derbyn, er bod grwpiau iechyd lleol yn cynnwys amrediad eang o weithwyr gofal iechyd proffesiynol, fod llawer o anniddigrwydd wedi bod ymysg y proffesiynau sydd yn gysylltiedig â meddygaeth sydd heb gynrychiolydd penodol ar y grwpiau iechyd lleol? Bu ymgyrch hefyd gan y Coleg Nyrsio Brenhinol a chyrff nyrsio eraill i sicrhau bod nyrs ar weithrediaeth y grwpiau iechyd lleol.

Jane Hutt: We have debated those issues in the past and I have discussed them with colleagues, including professions allied to medicine—the people at primary care level whom Ieuan mentioned. Local health groups are working out how they can involve as many players as they need. Their relations with community health councils are important. Many nurses act as clinical governance leads in local health groups. They provide opportunities for nurses to break new ground. In your communities, local health groups and their chairs and leading players will break new ground. They are helping the sort of changes that we need in this collaboration.

Jane Hutt: Yr ydym wedi trafod y materion hynny yn y gorffennol ac fe'u trafodais â chydweithwyr, gan gynnwys y proffesiynau sydd yn gysylltiedig â meddygaeth—y bobl ar lefel gofal sylfaenol y cyfeiriodd Ieuan atynt. Mae grwpiau iechyd lleol yn datrys sut y gallant gynnwys cynifer o chwaraewyr ag y mae arnynt eu hangen. Mae eu perthynas â chynghorau iechyd cymdeithas yn bwysig. Mae llawer o nyrsys yn gweithredu fel arweinyddion rheolaeth glinigol mewn grwpiau iechyd lleol. Darparant gyfleoedd i nyrsys dorri tir newydd. Yn eich cymunedau, bydd grwpiau iechyd lleol a'u cadeiryddion a'u chwaraewyr arweiniol yn torri tir newydd. Maent yn cefnogi'r math o newidiadau y mae arnom eu hangen drwy'r cydweithredu hwn.

This goes back to joint working between health and social care. I spent most of yesterday at West Wales General Hospital and Prince Philip Hospital, where I discussed the problems of bed blocking and the fact that we still have people in hospitals throughout Wales who should be in the community. We must ensure that the joint working through the Health Act 1999 delivers. However, this Health Act and these changes have only just come on board. You cannot change 18 years of how the previous Government ran the health service—which ended up being totally divisive—overnight. We must build bridges with local government. I assure David—and I welcome the fact that he wants us to make this work—that we will build on some of the benefits of GP fundholding.

Mae hyn yn mynd yn ôl at weithio ar y cyd rhwng gofal iechyd a gofal cymdeithasol. Treuliais y rhan fwyaf o'r diwrnod ddoe yn Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru ac Ysbyty'r Tywysog Philip, lle y trafodais broblemau blocio gwelyau a'r ffaith bod gennym bobl o hyd mewn ysbytai ledled Cymru a ddylai fod yn y gymuned. Rhaid inni sicrhau bod y gweithio ar y cyd drwy'r Ddeddf Iechyd 1999 yn cyflawni'r bwriad. Fodd bynnag, nid yw'r Ddeddf Iechyd hon a'r newidiadau hyn ond newydd ein cyrraedd. Ni allwch newid 18 mlynedd o'r modd y rhedodd y Llywodraeth flaenorol y gwasanaeth iechyd—a oedd yn gwbl gynhennus yn y diwedd—dros nos. Rhaid inni godi pontydd gyda llywodraeth leol. Rhoddaf sicrwydd i David—a chroesawaf y ffaith ei fod am inni gael hyn i weithio—y byddwn yn adeiladu ar rai o'r manteision o ddal cronfeydd gan feddygon teulu.

4:01 p.m.

We must move to a primary care-led health service. Last week, we had an excellent conference of local health groups at Llandrindod Wells. They are raring to go and want to take on more of a strategic and commissioning role. They are not interested in abandoning working as trusts. They want to work in partnership. However, they want to exercise as much power and influence as they can in their local communities in partnership with local government, and work with the health authorities who have a more

Rhaid inni symud tuag at wasanaeth iechyd a arweinir gan ofal sylfaenol. Yr wythnos diwethaf, cawsom gynhadledd ragorol o grwpiau iechyd lleol yn Llandrindod. Maent yn ysu am fynd ymlaen ac am ymgymryd â mwy o'r rôl strategol a chomisiynu. Nid ydynt am roi'r gorau i weithredu fel ymddiriedolaethau. Maent am weithio mewn partneriaeth. Fodd bynnag, maent am arfer cymaint o bŵer a dylanwad ag y gallant yn eu cymunedau lleol mewn partneriaeth â llywodraeth leol, a gweithio gyda'r

strategic role across regions. In a couple of weeks there will be a conference about primary care pilot schemes where we will look at teamwork. Ieuan referred to teams in communities, and the fact that we need to ensure that we have salary options, particularly in the Valley communities where it is difficult to attract new GPs when existing ones retire. We also need to ensure that through those primary care initiatives we tackle the health inequalities that we have discussed and that prevention and rehabilitation are high on the agenda.

awdurdodau iechyd sydd â rôl fwy strategol ar draws rhanbarthau. Ymhen ychydig wythnosau bydd cynhadledd am gynlluniau peilot gofal sylfaenol lle y byddwn yn ystyried gwaith tîm. Cyfeiriodd Ieuan at dimau mewn cymunedau, a'r ffaith bod angen inni sicrhau bod gennym ddewisiadau cyflog, yn enwedig yng nghymunedau'r Cymoedd lle y mae'n anodd denu meddygon teulu newydd pan fo'r rhai presennol yn ymddeol. Rhaid inni hefyd sicrhau, drwy'r mentrau gofal sylfaenol hynny, ein bod yn mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau iechyd a drafodasom a bod atal ac ailsefydlu yn uchel ar yr agenda.

This is again an opportunity for the Assembly to move forward with a new health service for Wales. We must renew it. Politicians here have a strong role to play. Therefore, you should back your local health groups, make sure that you know them, work with them and take on board the fact that they will be supportive of the renewed health service in Wales.

Mae hyn yn gyfle eto i'r Cynulliad symud ymlaen gyda gwasanaeth iechyd newydd i Gymru. Rhaid inni ei adnewyddu. Mae rôl gryf i'w chwarae gan wleidyddion yma. Felly, dylech gefnogi'ch grwpiau iechyd lleol, sicrhau eich bod yn eu hadnabod, gweithio gyda hwy ac amgyffred y ffaith y byddant yn gefnogol i'r gwasanaeth iechyd wedi'i adnewyddu yng Nghymru.

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn gyntaf ar y cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Iechyd 1999 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2000.

The Presiding Office: We will vote first on the motion to approve the Health Act 1999 (Commencement No. 2) (Wales) Order 2000.

Cynnig: O blaid 33, Ymatal 0, Yn erbyn 6.
Motion: For 33, Abstain 0, Against 6.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Dafis, Cynog
Davies, Andrew
Davies, Geraint
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Essex, Sue
German, Michael
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Gwyther, Christine
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Elin

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Bourne, Nick
Davies, Glyn
Graham, William
Melding, David
Morgan, Jonathan
Rogers, Peter

Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lloyd, David
Michael, Alun
Morgan, Rhodri
Randerson, Jenny
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty
Williams, Phil

Derbyniwyd y cynnig.

Motion adopted.

Y Llywydd: Pleidleisiwn yn awr ar y cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Iechyd 1999 (Practisiau Deiliad Cronfa) (Trosglwyddo Asedau, Arbedion, Hawliau a Rhwymedigaethau a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2000.

The Presiding Officer: We will now vote on the motion to approve the Health Act 1999 (Fundholding Practises) (Transfer of Assets, Savings, Rights and Liabilities and Transitional Provisions) (Wales) Order 2000.

Cynnig: O blaid 37, Ymatal 0, Yn erbyn 6.
Motion: For 37, Abstain 0, Against 6.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Dafis, Cynog
Davies, Andrew
Davies, Geraint
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Feld, Val
German, Michael
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Gwyther, Christine
Halford, Alison
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lloyd, David
Michael, Alun
Morgan, Rhodri
Randerson, Jenny
Sinclair, Karen
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty
Williams, Phil

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Bourne, Nick
Davies, Glyn
Graham, William
Melding, David
Morgan, Jonathan
Rogers, Peter

Derbyniwyd y cynnig.

Motion adopted.

Cynnig Trefniadol
Procedural Motion

The Presiding Officer: I have decided to allow the Business Secretary to propose, under Standing Order No. 6.9, that the Assembly debates the motion as set out on the agenda as a matter of urgent public importance.

Y Llywydd: Yr wyf wedi penderfynu caniatáu i'r Trefnydd gynnig, o dan Reol Sefydlog Rhif 6.9, fod y Cynulliad yn trafod y cynnig fel y'i nodir ar yr agenda fel mater brys sydd o bwys cyhoeddus.

The Business Secretary (Andrew Davies): I propose that

Y Trefnydd (Andrew Davies): Cynigiaf fod

the Assembly, under Standing Order No. 6.15, debates the motion to note the Orders made under the urgency procedure, and the future handling of subordinate legislation as set out on the agenda.

y Cynulliad, o dan Reol Sefydlog Rhif 6.15, yn trafod y cynnig i nodi'r Gorchmynion a wnaethpwyd o dan y weithdrefn frys, a'r modd y trafodir is-ddeddfwriaeth yn y dyfodol fel y'i nodir ar yr agenda.

Nick Bourne: Will the Business Secretary enlighten the Chamber as to why this procedure is being invoked? Why are we not using the normal urgency procedure in relation to these Orders? The customary procedure is for urgent Orders to be passed under the urgency procedure. I am not clear why this procedure is being followed today.

Nick Bourne: A wnaiff y Trefnydd oleuo'r Siambr ynghylch y rheswm am alw ar y weithdrefn hon? Pam nad ydym yn defnyddio'r weithdrefn frys arferol mewn perthynas â'r Gorchmynion hyn? Y weithdrefn arferol yw pasio Gorchmynion brys o dan y weithdrefn frys. Ni ddeallaf pam y dilynir y weithdrefn hon heddiw.

Andrew Davies: We are using a procedural motion because the Orders had not been drafted in time to table them for business today and to give the five days' notice required under Standing Orders. That is why, in consultation with the Presiding Officer, we agreed to adopt this procedure. If you agree to debate this, I will give a full explanation outlining the reasons why we are making these Orders under the urgency procedure.

Andrew Davies: Yr ydym yn defnyddio cynnig trefniadol am nad oedd y Gorchmynion wedi eu drafftio mewn pryd i'w cyflwyno ar gyfer y busnes heddiw ac i roi'r pum niwrnod o rybudd sydd yn ofynnol o dan y Rheolau Sefydlog. Dyna pam, mewn ymgynghoriad â'r Llywydd, y penderfynasom fabwysiadu'r weithdrefn hon. Os cytunwch i drafod hyn, rhoddaf eglurhad llawn a fydd yn disgrifio'r rhesymau pam yr ydym yn gwneud y Gorchmynion hyn o dan y weithdrefn frys.

Nick Bourne: I would be grateful if we could have the explanation now. It appears to me that this is being done for the convenience of the Executive rather than because it is a matter of true urgency. The urgency procedure is there for urgent Orders. If there is a problem with the drafting, we are entitled to know why this is being proposed under Standing Order No. 6.15, rather than Standing Order No. 22, which relates to subordinate legislation.

Nick Bourne: Byddwn yn ddiolchgar os gallem gael yr eglurhad yn awr. Ymddengys i mi fod hyn yn cael ei wneud er hwylustod i'r Weithrediaeth yn hytrach nag am ei fod yn fater o frys gwirioneddol. Mae'r weithdrefn frys yno ar gyfer Gorchmynion brys. Os oes problem ynghylch y drafftio, mae gennym hawl i wybod pam y mae hyn yn cael ei gynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 6.15, yn hytrach na Rheol Sefydlog Rhif 22, sydd yn ymwneud ag is-ddeddfwriaeth.

Alun Michael: It might be a good idea to reconsider the language we use. The words 'urgency procedure' make it sound as if Nick Bourne might even be right. The urgency procedure is meant to deal with matters that can be dealt with expeditiously in order that this Assembly concentrates on matters which are worthy of debate and where there are issues of substance to be discussed. There has always been a mass of secondary legislation—much of it almost automatic—requiring little more than the change of one piece of legislation to a differently titled Bill. We should concentrate on reality rather than appearances.

Alun Michael: Gallai fod yn syniad da ailystyried y geiriau a ddefnyddiwn. Mae'r geiriau 'gweithdrefn frys' yn gwneud iddi swnio fel petai'n bosibl y gallai Nick Bourne fod yn iawn hyd yn oed. Mae'r weithdrefn frys i fod i'w defnyddio i ddelio â materion y gellir delio â hwy'n gyflym er mwyn i'r Cynulliad hwn ganolbwyntio ar faterion sydd yn deilwng o'u trafod a lle y mae materion sylweddol i'w trafod. Bu cruglwyth o ddeddfwriaeth eilaidd erioed—llawer ohoni bron yn awtomatig—gan ofyn fawr mwy na newid un darn o ddeddfwriaeth i Fesur o dan enw gwahanol. Dylem ganolbwyntio ar wirionedd yn hytrach nag ymddangosiadau.

Jocelyn Davies: Could you clarify a matter? I understood that these Orders have already been made under the urgency procedure and you are not asking us for a resolution on making these. The procedural motion under Standing Order No. 6.9 allows us to vote on whether we can have a debate about the use of the urgency procedure. I took it that that is was this proposed debate was about this afternoon.

Jocelyn Davies: A allech roi gwedd eglurach ar un mater? Deallais fod y Gorchmynion hyn wedi eu gwneud eisoes o dan y weithdrefn frys ac nad ydych yn gofyn inni am benderfyniad ar wneud y rhain. Mae'r cynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.9 yn caniatáu inni bleidleisio ynghylch a allwn gael dadl am y defnydd o'r weithdrefn frys. Cymerais mai am hynny yr oedd y ddadl a gynigir y prynhawn yma.

Andrew Davies: Those from Plaid Cymru and the Conservative Party who have spoken—with the exception of William Graham—will not be aware of the discussions in the Business Committee where it agreed to the use of the urgency procedure because these Orders had to be made by 1 April. Given the drafting difficulties and the fact that these Orders had largely originated from Whitehall, there was insufficient time to make these under standard procedure. That is why we are using the urgency procedure, as Jocelyn rightly said, to make these. The proposed debate this afternoon is about the use of the procedure and not about the content of the Orders.

Andrew Davies: Ni fydd y rhai o Blaid Cymru a'r Blaid Geidwadol a siaradodd—heblaw am William Graham—yn ymwybodol o'r trafodaethau yn y Pwyllgor Busnes lle y cytunwyd i ddefnyddio'r weithdrefn frys am fod rhaid gwneud y Gorchmynion hyn erbyn 1 Ebrill. Yng ngolwg yr anawsterau wrth ddrafftio a'r ffaith bod y Gorchmynion hyn yn deillio'n bennaf o Whitehall, nid oedd digon o amser i'w gwneud o dan y weithdrefn arferol. Dyna pam yr ydym yn defnyddio'r weithdrefn frys, fel y dywedodd Jocelyn yn gywir, i'w gwneud. Mae'r ddadl a gynigir y prynhawn yma yn ymwneud â'r defnydd o'r weithdrefn ac nid cynnwys y Gorchmynion.

The Presiding Officer: Before I call for a vote on the procedural motion, I should perhaps underline the fact that my role under Standing Order No. 6.9 is to consider whether I should allow the Assembly to have an opportunity to vote on whether it considers these issues as a matter of urgency. It is open to the Welsh Conservative group to exercise its right to vote against the procedural motion.

Y Llywydd: Cyn imi alw am bleidlais ar y cynnig trefniadol, dylwn efallai danlinellu'r ffaith mai fy rôl o dan Reol Sefydlog Rhif 6.9 yw ystyried a ddylwn ganiatáu cyfle i'r Cynulliad bleidleisio ynghylch a yw o'r farn bod y materion hyn yn fater o frys. Mae grŵp Ceidwadol Cymru'n rhydd i arfer ei hawl i bleidleisio'n erbyn y cynnig trefniadol.

4:11 p.m.

Cynnig: O blaid 32, Ymatal 6, Yn erbyn 7.
Motion: For 32, Abstain 6, Against 7.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Dafis, Cynog
Davies, Andrew
Davies, Geraint
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Essex, Sue
Feld, Val
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Halford, Alison
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lloyd, David
Michael, Alun
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Phil

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Bates, Mick
Black, Peter
German, Michael
Humphreys, Christine
Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Bourne, Nick
Cairns, Alun
Davies, Glyn
Graham, William
Melding, David
Morgan, Jonathan
Rogers, Peter

Derbyniwyd y cynnig.

Motion adopted.

Gorchmynion Brys
Urgent Orders

The Business Secretary (Andrew Davies): I propose that

the Assembly notes that the following Orders have been made under the urgency procedure:

Y Trefnydd (Andrew Davies): Cynigiaf fod

y Cynulliad yn nodi bod y Gorchmynion canlynol wedi cael eu gwneud o dan y weithdrefn frys:

the Sea Fishing (Enforcement of Measures for the Recovery of the Stock of Cod) (Irish Sea) (Wales) Order 2000;

Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau ar gyfer Adfer y Stoc Penfreision) (Môr Iwerddon) (Cymru) 2000;

the Non-Domestic Rating (Alteration of Lists and Appeals) (Amendment) (Wales) Regulations 2000;

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2000;

the Non-Domestic Rating (Demand Notices) (Amendment) (Wales) Regulations 2000;

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Hawlio) (Diwygio) (Cymru) 2000;

the Local Authorities (Capital Finance) (Amendment) (Wales) Regulations 2000; and

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Diwygio) (Cymru) 2000; ac

recognises that subordinate legislation may need to be made urgently from time to time and asks the Business Secretary to arrange for the Business Committee to give urgent consideration to future handling of subordinate legislation to minimise the number of Orders that need to be made under this procedure.

yn cydnabod y gall fod angen gwneud is-ddeddfwriaeth ar frys o dro i dro ac yn gofyn i'r Trefnydd drefnu bod y Pwyllgor Busnes yn rhoi ystyriaeth frys i'r mater o ddelio ag is-ddeddfwriaeth yn y dyfodol i gadw nifer y Gorchmynion y mae angen eu gwneud drwy gyfrwng y weithdrefn hon i'r lleiafswm.

I thank the Assembly Members and the Presiding Officer for allowing this motion to be proposed today. I gave the Business Committee a commitment that I would allow time in Plenary for Assembly Members to discuss the principles of the Orders that have to be made before 1 April by the urgency procedure. These are, in the main, Orders that must be made for proper financial administration, and in the case of one agricultural Order, because of the risk of infraction proceedings against the UK for non-implementation of EU obligations.

Diolchaf i Aelodau'r Cynulliad ac i'r Llywydd am ganiatáu cynnig y cynnig hwn heddiw. Rhoddais ymrwymiad i'r Pwyllgor Busnes y caniatawn amser yn y Cyfarfod Llawn i Aelodau'r Cynulliad drafod egwyddorion y Gorchmynion y mae'n rhaid eu gwneud cyn 1 Ebrill drwy'r weithdrefn frys. Gorchmynion yw'r rhain, yn bennaf, y mae'n rhaid eu gwneud er mwyn gweinyddiaeth ariannol briodol, ac yn achos un Gorchymyn amaethyddol, oherwydd y perygl o achos am dorri rheolau yn erbyn y DU am beidio â gweithredu rhwymedigaethau i'r UE.

I agree that it is important for all Assembly Members to engage in the process of making subordinate legislation. That is why I, and my Cabinet colleagues, are committed to making subordinate legislation using the standard procedure, which engages Members in the process. However, as pointed out by my colleague Alun Michael, the former First Secretary, there will be times when it will be necessary that Orders are made using the urgency procedure. That procedure is laid down in our Standing Orders. We have used this procedure before, with the Assembly's agreement. There was all-party support to implement the Beef Bones (Amendment)

Cytunaf ei bod yn bwysig i holl Aelodau'r Cynulliad fod â rhan yn y broses o wneud is-ddeddfwriaeth. Dyna pam yr wyf fi, a'm cydweithwyr yn y Cabinet, wedi ymrwymo i wneud is-ddeddfwriaeth drwy ddefnyddio'r weithdrefn arferol, sydd yn cynnwys yr Aelodau yn y broses. Fodd bynnag, fel y nodwyd gan fy nghydweithiwr Alun Michael, y cyn-Brif Ysgrifennydd, bydd adegau pan fydd angen gwneud Gorchmynion drwy ddefnyddio'r weithdrefn frys. Nodir y weithdrefn honno yn ein Rheolau Sefydlog. Defnyddiasom y weithdrefn hon o'r blaen, gyda chytundeb y Cynulliad. Yr oedd cefnogaeth gan yr holl bleidiau i weithredu'r

(Wales) Regulations 1999 to lift the beef on the bone ban and there was also agreement on the Plant Health (Amendment) (Wales) Order 1999 and the Potatoes Originating in Egypt (Amendment) (Wales) Regulations 2000, which were made using the urgency procedure to safeguard public health and implement an EC directive. Contrary to popular belief, that was a genuine Order that I proposed.

Rheoliadau Esgyrn Cig Eidion (Diwygio) (Cymru) 1999 i godi'r gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn ac yr oedd cytundeb hefyd ar y Gorchymyn Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) 1999 a'r Rheoliadau Tatws sydd yn Tarddu o'r Aifft (Diwygio) (Cymru) 2000, a wnaethpwyd drwy ddefnyddio'r weithdrefn frys er mwyn gwarchod iechyd cyhoeddus a gweithredu cyfarwyddeb o'r CE. Yn groes i'r gred boblogaidd, yr oedd hwnnw'n Orchymyn gwirioneddol a gynigiais.

The use of the urgency procedure is limited to circumstances where the consequences of delaying the implementation of legislation would be detrimental to Wales or the Assembly. When the use of the urgency procedure was last discussed by the Assembly after the summer recess, I explained that we must be pragmatic when deciding which procedure to use and make decisions on a case by case basis. This is still true. All Assembly subordinate legislation is subject to thorough scrutiny by the Legislation Committee and, where necessary, by the appropriate Subject Committee. However, their involvement must, on occasions, be retrospective.

Mae'r defnydd o'r weithdrefn frys wedi ei gyfyngu i amgylchiadau lle y byddai canlyniadau oedi cyn gweithredu deddfwriaeth yn niweidiol i Gymru neu i'r Cynulliad. Pan drafodwyd y defnydd o'r weithdrefn frys ddiwethaf gan y Cynulliad ar ôl toriad yr haf, eglurais fod rhaid inni fod yn bragmatig wrth benderfynu pa weithdrefn i'w defnyddio a phenderfynu fesul achos. Mae hyn yn wir o hyd. Mae holl is-ddeddfwriaeth y Cynulliad yn cael ei harchwilio'n drylwyr gan y Pwyllgor Deddfau a, lle y bo angen, gan y Pwyllgor Pwnc priodol. Fodd bynnag, rhaid i'r rhan a gymerant fod yn ôl-weithredol, ar rai adegau.

I read yesterday in the press that almost 600 pieces of legislation are missing. This is arrant nonsense and I would like to explain why. Some two years ago, before devolution, officials in the Welsh Office made an assessment of the number of pieces of subordinate legislation made in a sample year. The year was 1995. The assessment was based on the number of statutory instruments made in that year by: the Secretary of State for Wales; the Secretary of State for Wales in conjunction with a Minister or by the Secretary of State jointly; Ministers other than the Secretary of State for Wales, made under functions which it was thought, at that stage in the progress of the Government of Wales Bill, might ultimately be transferred to the Assembly; and an estimate of some 400 instruments, which might be made under what is now Part Four of Standing Order No. 22—local statutory instruments—and subordinate legislation made otherwise than by statutory instrument under what is now Part Five of Standing Order No. 22.

Darllenais ddoe yn y wasg fod bron 600 o ddarnau o ddeddfwriaeth ar goll. Dwli hollol yw hyn a hoffwn egluro pam. Rhyw ddwy flynedd yn ôl, cyn datganoli, gwnaeth swyddogion yn y Swyddfa Gymreig asesiad o nifer yr is-ddeddfau a wnaethpwyd mewn blwyddyn sampl. Y flwyddyn honno oedd 1995. Yr oedd yr asesiad yn seiliedig ar nifer yr offerynnau statudol a wnaethpwyd yn y flwyddyn honno gan: Ysgrifennydd Gwladol Cymru; Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn cysylltiad â Gweinidog neu gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar y cyd; Gweinidogion heblaw am Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a wnaethpwyd o dan swyddogaethau y credid, ar yr adeg honno yn hynt Mesur Llywodraeth Cymru, y gallent gael eu trosglwyddo yn y pen draw i'r Cynulliad; ac amcangyfrif o tua 400 o offerynnau, a allai gael eu gwneud o dan yr hyn sydd yn awr yn Rhan Pedwar o Reol Sefydlog Rhif 22—offerynnau statudol lleol—ac is-ddeddfwriaeth a wneir drwy fodd heblaw drwy offeryn statudol o dan yr hyn sydd yn awr yn Rhan Pump o Reol Sefydlog

Rhif 22.

This estimate accounted for some 600 instruments, but the evidence so far is insufficient for any sensible conclusions to be drawn about the expected total annual volume of Assembly subordinate legislation in this the first year of law-making. However, it would appear that the estimate of 600 instruments was inaccurate. This is not surprising since at that time there was no central record of such legislation. One of the first things I did as Business Secretary was to attempt to compile a central register. As members of the Business Committee know, on many occasions I have tried to ensure that Orders are passed under standard, not urgency procedure. Compiling this central register has been a huge logistics exercise for officials. Most of this legislation originates either in Whitehall or Westminster, or is the result of European directives. At this stage in our development, we have originated little legislation of our own. Therefore, we are largely dependent on Whitehall and the European Union, in terms of the timetable for drafting Orders. Ieuan Wyn Jones, Jenny Randerson and William Graham, as members of the Business Committee are aware of the difficulties faced in this area. The difficulties are caused by the constraint on resources for drafting Orders ourselves and the need to comply with our statutory obligations under the Government of Wales Act 1998 for such legislation to be bilingual.

Yr oedd yr amcangyfrif hwn yn rhoi cyfrif am 600 o offerynnau, ond nid yw'r dystiolaeth hyd yn hyn yn ddigon i ddod i unrhyw gasgliadau synhwyrol ynghylch cyfanswm blynyddol disgwyliedig is-ddeddfwriaeth y Cynulliad yn y flwyddyn gyntaf hon o ddeddfu. Fodd bynnag, ymddengys fod yr amcangyfrif o 600 o offerynnau'n anghywir. Nid yw hyn yn syndod gan nad oedd cofnod canolog o ddeddfwriaeth o'r fath bryd hynny. Un o'r pethau cyntaf a wneuthum i fel Trefnydd oedd ceisio llunio cofrestr ganolog. Fel y gŵyr aelodau o'r Pwyllgor Busnes, ceisiais sicrhau ar lawer achlysur y câi Gorchmynion eu pasio o dan y weithdrefn arferol, nid yr un frys. Bu'r gwaith o lunio'r gofrestr ganolog hon yn ymarfer anferth mewn logisteg i'r swyddogion. Mae'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth hon yn deillio un ai o Whitehall neu o San Steffan, neu mae'n ganlyniad i gyfarwyddebau Ewropeaidd. Ar yr adeg hon yn ein datblygiad, ychydig o ddeddfwriaeth a gychwynasom ni ein hunain. Felly, yr ydym yn dibynnu i raddau helaeth ar Whitehall a'r Undeb Ewropeaidd, o ran yr amserlen ar gyfer drafftio Gorchmynion. Mae Ieuan Wyn Jones, Jenny Randerson a William Graham, fel aelodau o'r Pwyllgor Busnes yn ymwybodol o'r anawsterau a wynebwyd yn y maes hwn. Achosir yr anawsterau gan y cyfyngiad ar adnoddau ar gyfer drafftio Gorchmynion gennym ni ein hunain a'r angen i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 i ddeddfwriaeth o'r fath fod yn ddwyieithog.

Since September 1999, when the first instruments were submitted to the Assembly's procedures, some 117 pieces of statutory instruments have been made. Of that total, 43 are general, in line with Standing Order No. 22, Part One; three are subject to parliamentary procedure, in line with Standing Order No. 22, Part Two; 59 are local, in line with Standing Order No. 22, Part Four; and there are 12 pieces of subordinate legislation made otherwise than by statutory instrument, in line with Standing Order 22, Part Five. In addition, some 80 pieces of legislation are in preparation in the Office of the Counsel General.

Ers Medi 1999, pan gyflwynwyd yr offerynnau cyntaf i weithdrefnau'r Cynulliad, gwnaethpwyd tua 117 o offerynnau statudol. O'r cyfanswm hwnnw, mae 43 yn gyffredinol, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 22, Rhan Un; mae tri'n ddarostyngedig i weithdrefn seneddol, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 22, Rhan Dau; mae 59 yn lleol, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 22, Rhan Pedwar; ac mae 12 is-ddeddf a wnaethpwyd drwy ddull heblaw drwy offeryn statudol, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 22, Rhan Pump. At hynny, mae tua 80 o eitemau o ddeddfwriaeth yn cael eu paratoi yn Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol.

4:21 p.m.

There has been a constant flow of Assembly subordinate legislation. The numbers in the system have increased significantly in recent weeks, as many pieces of subordinate legislation are due to come into effect on 1 April—the start of the financial year. The timetable is largely dictated by Whitehall, Westminster and European directives. We are examining our procedures and ensuring that we are involved as far as possible in the early drafting of Orders. It is unsatisfactory for Orders to be considered within a short time span and we are considering how we can manage the process, as I reported to the Business Committee. Therefore, we are engaged in reviewing the system, the numbers and the workflow.

Bu llif cyson o is-ddeddfwriaeth y Cynulliad. Bu cynnydd sylweddol yn y niferoedd yn y system yn yr wythnosau diwethaf, gan fod llawer o eitemau o is-ddeddfwriaeth i fod i ddod i rym ar 1 Ebrill—dechrau'r flwyddyn ariannol. Gosodir yr amserlen yn bennaf gan Whitehall, San Steffan a chyfarwyddebau Ewropeaidd. Yr ydym yn ystyried ein gweithdrefnau ac yn sicrhau bod gennym gysylltiad i'r graddau mwyaf posibl â'r drafftio cynnar o Orchmynion. Mae'n anfoddhaol ystyried Gorchmynion o fewn cyfnod byr ac yr ydym yn ystyried y modd y gallwn reoli'r broses, fel yr adroddais i'r Pwyllgor Busnes. Felly, yr ydym wrthi'n adolygu'r system, y niferoedd a'r llif gwaith.

Substantial work is underway by officials in the Office of the Counsel General, the Cabinet Secretariat and the Office of the Presiding Officer to examine the whole process, as the Presiding Officer is aware. The Business Committee will consider the handling of subordinate legislation that has been made and that which is in the system, to enable us to gauge likely future volumes and identify the areas where the Assembly's capacity for legislative scrutiny and innovation in policy—an important point that we must bear in mind—can best be utilised. This is the right and responsible approach.

Mae gwaith sylweddol mewn llaw gan swyddogion yn Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet a Swyddfa'r Llywydd i archwilio'r broses gyfan, fel y gŵyr y Llywydd. Bydd y Pwyllgor Busnes yn ystyried y modd y trafodwyd yr is-ddeddfwriaeth a wnaethpwyd a'r hyn sydd yn y system, fel y gallwn fwrw amcan o'r meintiau yn y dyfodol a dynodi meysydd lle y gellir defnyddio orau gallu'r Cynulliad ar gyfer archwilio deddfwriaethol ac arloesi mewn polisi—pwynt pwysig y mae'n rhaid inni ei gofio. Dyma'r dull cywir a chyfrifol o weithredu.

We are establishing a new and different system for law-making by subordinate legislation in Wales. In the Assembly's system there is greater accountability, consultation, legislative scrutiny and, increasingly, we can be independent of Whitehall policy and timetables. However, in our early months of operation, we have largely been constrained by forces outside our control. The Assembly is also creating law bilingually for the first time in the United Kingdom. It is wholly appropriate that we should already be reviewing our administrative processes to ensure that the Assembly has the best possible means of achieving these aims.

Yr ydym yn sefydlu system newydd a gwahanol ar gyfer deddfu drwy is-ddeddfwriaeth yng Nghymru. Yn system y Cynulliad ceir mwy o atebolrwydd, ymgynghori, archwilio deddfwriaethol a gallwn fod yn fwyfwy annibynnol o bolisi ac amserlenni Whitehall. Fodd bynnag, yn ein misoedd cynnar o weithredu, yr ydym wedi ein cyfyngu gan rymoedd sydd y tu hwnt i'n rheolaeth. Mae'r Cynulliad hefyd yn creu deddfwriaeth yn ddwyieithog am y tro cyntaf yn y Deyrnas Unedig. Mae'n gwbl briodol ein bod eisoes yn adolygu ein prosesau gweinyddol er mwyn sicrhau bod y dulliau gorau posibl gan y Cynulliad i gyflawni'r nodau hyn.

I return to the points made in yesterday's *The Western Mail*. There is no evidence

Dychwelaf at y pwyntiau a wnaethpwyd yn *The Western Mail* ddoe. Nid oes tystiolaeth o

whatsoever that,

gwbl fod,

‘London…officials hold Orders back because they know that the legal department in Cardiff is overburdened by work…a log jam is building up on the desk of either the former First Secretary or the present one.’

‘swyddogion yn Llundain yn dal Gorchmynion yn ôl am y gwyddant fod yr adran gyfreithiol yng Nghaerdydd o dan faich gormodol o waith...mae tagfa’n datblygu ar ddesg un ai’r cyn-Brif Ysgrifennydd neu’r un presennol.’

Frankly, these ideas are fanciful. It is true that we are experiencing intense pressure of work at the point of preparation for the bilingual text of draft Assembly subordinate legislation. This has been discussed in the Business Committee and addressed in the review of our administrative processes. Practical solutions have been identified, as members of the Business Committee know. These proposals will be taken forward in the coming weeks and represent a serious and business-like response to the real challenges that we face in achieving the Assembly’s aims as a law-making body.

Mewn gwirionedd, mae’r syniadau hyn yn ffansïol. Mae’n wir ein bod yn profi pwysau gwaith aruthrol ar y pwynt lle y paratoir ar gyfer testun dwyieithog is-ddeddfwriaeth ddrafft y Cynulliad. Trafodwyd hyn yn y Pwyllgor Busnes a rhoddwyd sylw iddo yn yr adolygiad ar ein prosesau gweinyddol. Dynodwyd atebion ymarferol, fel y gŵyr aelodau’r Pwyllgor Busnes. Bwrir ymlaen â’r cynigion hyn yn yr wythnosau sydd i ddod ac maent yn mynegi ymateb difrifol ac effeithiol i’r heriau gwirioneddol a wynebwn wrth gyflawni nodau’r Cynulliad fel deddfwrfa.

I turn to the four Orders in the motion. Christine Gwyther will explain the background to the Sea Fishing (Enforcement of Measures for the Recovery of the Stock of Cod) (Irish Sea) (Wales) Order 2000. I am sure that you cannot wait for that. Peter Law will explain the background to the three local government Orders.

Trof at y pedwar Gorchymyn yn y cynnig. Bydd Christine Gwyther yn egluro cefndir y Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau ar gyfer Adfer y Stoc Penfreision) (Môr Iwerddon) (Cymru) 2000. Yr wyf yn sicr eich bod yn ysu am glywed hynny. Bydd Peter Law yn egluro’r cefndir i’r tri Gorchymyn llywodraeth leol.

The Secretary for Agriculture and Rural Development (Christine Gwyther): Believe it or not, this is important, as many of the fishermen who attend my surgeries will attest. The Sea Fishing (Enforcement of Measures for the Recovery of the Stock of Cod) (Irish Sea) (Wales) Order 2000 provides for the implementation of a ban on cod fishing in the northern part of the Irish Sea from mid February to 30 April. Outline proposals for the ban were only agreed with EU partners on 21 January. This necessitated the use of the urgency procedure.

Yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (Christine Gwyther): Coeliwch neu beidio, mae hyn yn bwysig fel y bydd llawer o’r pysgotwyr a ddaw i’m cymorthfeydd yn tystio. Mae’r Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau ar gyfer Adfer y Stoc Penfreision) (Môr Iwerddon) (Cymru) 2000 yn darparu ar gyfer gweithredu gwaharddiad ar bysgota am benfreision yn rhan ogleddol Môr Iwerddon o ganol Chwefror i 30 Ebrill. Ar 21 Ionawr y cytunwyd ar y cynigion bras ar gyfer y gwaharddiad gyda phartneriaid yn yr UE. Yr oedd hyn yn peri bod angen defnyddio’r weithdrefn frys.

The International Council for the Exploration of the Sea—the EU’s main advisers on fish stock dynamics—has advised that the cod stock in the Irish Sea is in a poor state. Acting in the light of this advice, the EU Council of Ministers decided in December

Mae’r Cyngor Rhyngwladol er Archwilio’r Moroedd—prif ymgynghorwyr yr UE ar ddynameg stociau pysgod—wedi rhybuddio bod y stoc penfreision ym Môr Iwerddon mewn cyflwr gwael. Gan weithredu yng ngoleuni’r cyngor hwn, penderfynodd

that the total allowable catch for cod in the Irish Sea in 2000 should be reduced to 2,100 tonnes. It was over 5,000 tonnes last year. The ICES and the European Commission also agreed a joint declaration expressing the immediate need to develop an Irish Sea cod recovery plan to give breeding cod in the Irish Sea every opportunity to produce the maximum amount of spawn this spring. Representatives from the UK, Ireland, Belgium, France and the Netherlands, all of which have cod quota in the Irish Sea, participated in discussions with the European Commission in Brussels on 21 January and agreed an outline plan.

Cyngor Gweinidogion yr UE yn Rhagfyr y dylid lleihau cyfanswm y dalfeydd o benfreision a ganiateir ym Môr Iwerddon yn 2000 i 2,100 tunnell fetrig. Yr oedd dros 5,000 tunnell fetrig y llynedd. Cytunodd y Cyngor Rhyngwladol er Archwilio'r Moroedd a'r Comisiwn Ewropeaidd hefyd ar ddatganiad ar y cyd yn mynegi'r angen brys i ddatblygu cynllun adfer penfreision ym Môr Iwerddon er mwyn rhoi pob cyfle i'r penfreision silio ym Môr Iwerddon gynhyrchu'r swm mwyaf posibl o silod y gwanwyn hwn. Yr oedd cynrychiolwyr o'r DU, Iwerddon, Gwlad Belg, Ffrainc a'r Iseldiroedd, sydd oll â chwota penfreision ym Môr Iwerddon, wedi cymryd rhan mewn trafodaethau gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ym Mrwsel ar 21 Ionawr a chytunasant ar gynllun bras.

This Order is a one-off response to an unforeseeable conservation problem facing one particular fish stock. Discussions have already begun with UK colleagues with whom we manage this stock and with the other interested EU member states about more long-term measures to ensure a sustainable fishery.

Mae'r Gorchymyn hwn yn ymateb unwaith ac am byth i broblem cadwraeth na ellid ei rhagweld sydd yn wynebu un stoc benodol o bysgod. Dechreuodd trafodaethau eisoes gyda chydweithwyr yn y DU yr ydym yn cydreoli'r stoc hon â hwy a'r aelod wladwriaethau eraill yn yr UE sydd â buddiant ynghylch mesurau tymor hwy i sicrhau pysgodfa gynaliadwy.

There are another 19 stocks over which the Assembly has management powers. All of these have the potential to require urgent management action at any time and, where this occurs, the urgency procedure may need to be invoked again. Fish dynamics is an imprecise subject and the EU often calls for urgent action to be taken to conserve vulnerable stocks.

Mae 19 stoc arall y mae gan y Cynulliad bwerau rheoli drostynt. Gallai fod yn ofynnol cymryd camau rheoli brys ar gyfer pob un o'r rhain ar unrhyw adeg a, lle y digwydd hynny, mae'n bosibl y bydd angen galw ar y weithdrefn frys eto. Mae dynameg pysgod yn bwnc anfanwl ac mae'r UE yn galw'n aml am gymryd camau brys i gadw stociau sydd yn wan.

The European Union also manages fish stocks by means of technical conservation measures such as net size restrictions, controls on gear types and fishing methods. The Assembly is much better able to influence the timetable for the introduction of these measures, but there may still be occasions where the EU calls for urgent action. Failure to meet the EU implementation dates for new measures can result in infraction proceedings, as the Business Secretary mentioned earlier.

Mae'r Undeb Ewropeaidd hefyd yn rheoli stociau pysgod drwy fesurau cadwraeth technegol fel cyfyngiadau ar faint rhwydi, rheoliadau ynghylch mathau o offer a dulliau pysgota. Mae gan y Cynulliad lawer mwy o allu i ddylanwadu ar yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r mesurau hyn, ond mae'n bosibl y ceir adegau o hyd lle y bydd yr UE yn galw am weithredu ar frys. Gallai methiant i gyflawni dyddiadau gweithredu'r UE ar gyfer mesurau newydd arwain at achosion am dorri rheolau, fel y dywedodd y Trefnydd yn gynharach.

The Secretary for Local Government and

Yr Ysgrifennydd Llywodraeth Leol a Thai

Housing (Peter Law): Sometimes I wish that I were before you talking about Irish Sea cod. By the time I have finished reading these three Orders, you will wish it too.

(Peter Law): Byddai'n dda gennyf weithiau pe bawn o'ch blaen yn siarad am benfreision ym Môr Iwerddon. Erbyn imi orffen darllen y tri Gorchymyn hyn, bydd yn well gennych chi hefyd.

The Non-Domestic Rating (Alteration of Lists and Appeals) (Amendment) (Wales) Regulations 2000 are technical in nature and only serve to update existing legislation by specifying the dates by which any appeals against rateable value can be backdated. The regulations closely follow similar regulations made by the Department of the Environment, Transport and the Regions and ensure consistency of treatment for Welsh ratepayers.

Mae'r Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2000 yn dechnegol eu natur a'u hunig bwrpas yw diweddaru deddfwriaeth bresennol drwy ddynodi'r dyddiadau y gellir ôl-ddyddio unrhyw apelau yn erbyn gwerthoedd ardrethol atynt. Mae'r rheoliadau'n agos iawn i reoliadau tebyg a wnaethpwyd gan Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau ac yn sicrhau triniaeth gyson i drethdalwyr yng Nghymru.

The changes introduced by these regulations will help to make the business rate appeals procedure more efficient and user-friendly. The limits on the backdating of appeals will provide an incentive for the early negotiation and settlement of appeals and changes to information requirements will give ratepayers a better understanding of their assessments. Late changes to the draft regulations were required before statutory consultation with the Council on Tribunals could take place. If these regulations had not been made, there would have been no legislative basis for ratepayers to make an appeal against their rateable values from 1 April 2000.

Bydd y newidiadau a gyflwynir drwy'r rheoliadau hyn yn gymorth i wneud y weithdrefn apelau trethi busnes yn fwy effeithlon a hwylus. Bydd y cyfyngiadau ar ôl-ddyddio apelau yn cymell negodi a setlo apelau a bydd newidiadau mewn gofynion gwybodaeth yn rhoi gwell dealltwriaeth i'r trethdalwyr o'u hasesiadau. Yr oedd angen newidiadau hwyr yn y rheoliadau drafft cyn y gellid cynnal yr ymgynghoriad statudol â'r Cyngor Triwbiwnlysoedd. Pe na bai'r rheoliadau hyn wedi eu gwneud, ni fyddai sail ddeddfwriaethol i drethdalwyr apelio yn erbyn eu gwerthoedd ardrethol o 1 Ebrill 2000.

The Non-Domestic Rating (Demand Notices) (Amendment) (Wales) Regulations 2000 specify the contents of the explanatory notes to accompany rate bills, which are known technically as demand notices and are issued by billing authorities in mid March. Under the terms of the regulations, rate demand notices are required to contain certain information about the commercial properties to which they relate including rateable values, a statement of the rating multiplier and details of how the demand is affected if applicable by rate relief. Explanatory notes must also accompany a rate demand notice.

Mae'r Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Hawlio) (Diwygio) (Cymru) 2000 yn dynodi cynnwys y nodiadau eglurhaol sydd i'w rhoi gyda biliau trethi, a elwir yn dechnegol yn hysbysiadau hawlio ac a roddir gan awdurdodau bilio yng nghanol mis Mawrth. O dan amodau'r rheoliadau, mae'n ofynnol i hysbysiadau hawlio trethi gynnwys gwybodaeth benodol am yr eiddo masnachol y maent yn ymwneud â hwy gan gynnwys gwerthoedd ardrethol, datganiad o'r lluosydd ardrethu a manylion am effaith cymorth trethi ar yr hysbysiad, os yw'n berthnasol. Rhaid rhoi nodiadau eglurhaol hefyd gyda hysbysiad hawlio trethi.

Separate but similar regulations have been made in England. The regulations are technical in nature. They update existing legislation and specify information to be included with rate bills regarding the date by

Gwnaethpwyd rheoliadau ar wahân ond tebyg yn Lloegr. Mae'r rheoliadau o natur dechnegol. Maent yn diweddaru deddfwriaeth bresennol ac yn dynodi gwybodaeth sydd i'w chynnwys gyda biliau

which any appeals against rateable value can be backdated. Late changes to the draft regulations necessitated further Welsh drafting which, in turn, led to a delay in bringing forward regulations. Welsh councils collect about £50 million in non-domestic rates each month. If these regulations had not been made, councils would have been unable to proceed with their billing process before the beginning of the new financial year, resulting in cash flow difficulties.

trethi ynghylch y dyddiad y gellir ôl-ddyddio unrhyw apelau yn erbyn gwerthoedd ardrethol ato. Yr oedd newidiadau hwyr yn y rheoliadau drafft yn golygu bod angen drafftio pellach ar gyfer Cymru a arweiniodd, yn ei dro, at oedi cyn cyflwyno'r rheoliadau. Mae cynghorau Cymru'n casglu tua £50 miliwn o drethi annomestig bob mis. Pe na bai'r rheoliadau hyn wedi eu gwneud, ni fuasai modd i gynghorau fynd ymlaen â'u proses bilio cyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd, gan arwain at anawsterau llif arian.

The Local Authorities (Capital Finance) (Amendment) (Wales) Regulations 2000 amends Regulations 40, 41 and 42 of the Local Authorities (Capital Finance) Regulations 1997 to take account of the Accounting Standards Board's application note Amendment to Financial Reporting Standard 5—Reporting Substance of Transactions—Private Finance Initiative and Similar Contracts and the Treasury taskforce technical note on how to account for PFI transactions. The effect of the amendment to Regulation 40 is that the balance sheet treatment of a PFI deal does not affect whether it is a private finance transaction for the purposes of the regulations. Adopting this approach is in keeping with the Assembly's aim of simplifying the capital finance regulations. Several queries arose from the formal consultation on the proposed amendment, as a result of which further discussions were held with local authorities, the Chartered Institute of Public Finance and Accountancy and the public-private partnership project. This prevented a draft being put forward in time to follow the standard procedure for subordinate legislation.

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Diwygio) (Cymru) 2000 yn diwygio Rheoliadau 40, 41 a 42 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Cymru) 1997 er mwyn rhoi cyfrif am nodyn cymhwyso'r Bwrdd Safonau Cyfrifo, Diwygiad i Safon Adrodd Ariannol 5—Adrodd Sylwedd Gweithrediadau—Cyllid Menter Preifat a Chontractau Tebyg a nodyn technegol tasglu'r Trysorlys ynghylch sut i roi cyfrif am weithrediadau'r fenter cyllid preifat. Effaith y diwygiad i Reoliad 40 yw nad yw'r modd yr ymdrinnir â chytundeb menter cyllid preifat ar y fantolen yn effeithio ar ba un a ydyw'n weithrediad cyllid preifat i ddibenion y rheoliadau. Mae mabwysiadu'r dull hwn yn gyson â nod y Cynulliad o symleiddio rheoliadau cyllid cyfalaf. Cododd sawl cwestiwn o'r ymgynghoriad ffurfiol ar y diwygiad arfaethedig, ac o ganlyniad i hynny cynhaliwyd trafodaethau pellach ag awdurdodau lleol, Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a'r prosiect partneriaeth gyhoeddus-preifat. Yr oedd hyn wedi atal cyflwyno drafft mewn pryd i ddilyn y weithdrefn arferol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.

4:31 p.m.

The Accounting Standards Board application note will take effect from 1 April 2000—any local authority PFI contract signed after this date will no longer have to observe the contract structure test as it is currently laid out in Regulation 40. Councils need confirmation of the basis on which they are to structure final business cases. An equivalent regulation will come into force in England on 1 April—any delay in having a corresponding amendment in place in Wales would have

Daw nodyn cymhwyso'r Bwrdd Safonau Cyfrifo i rym o 1 Ebrill 2000—ni fydd unrhyw gontract menter cyllid preifat gan awdurdod lleol a arwyddir ar ôl y dyddiad hwn yn gorfod cadw at y prawf strwythur contract fel y'i nodir ar hyn o bryd yn Rheoliad 40. Mae ar gynghorau angen cadarnhad am y sail y maent i strwythuro achosion busnes terfynol arni. Daw rheoliad cyfatebol i rym yn Lloegr ar 1 Ebrill—byddai unrhyw oedi cyn rhoi diwygiad cyfatebol ar

hindered progress on the development of councils' business cases and could lead to additional costs on their part.

waith yng Nghymru wedi llesteirio cynnydd ar ddatblygu achosion busnes cynghorau a gallai arwain at gostau ychwanegol ar eu rhan.

Jocelyn Davies: I will not comment on specific Orders, but in general on the urgency procedure. The use of the urgency procedure causes concern. The Standing Order that permits it assumes that it will be used in exceptional circumstances. That is important, because this procedure allows the Cabinet to make legislation without notifying Members, without consulting anybody, without seeking the approval of the Business Committee, without referring it to the Legislation Committee and without the approval of Plenary. Can you imagine a similar situation in Westminster, for example, where the Cabinet could make law, in isolation, that came into force straight away? I do not think so.

Jocelyn Davies: Nid wyf am wneud sylw ar Orchmynion penodol, ond yn gyffredinol ar y weithdrefn frys. Mae'r defnydd o'r weithdrefn frys yn peri pryder. Mae'r Rheol Sefydlog sydd yn ei chaniatáu yn rhagdybio y caiff ei defnyddio mewn amgylchiadau eithriadol. Mae hynny'n bwysig, oherwydd mae'r weithdrefn hon yn caniatáu i'r Cabinet wneud deddfwriaeth heb hysbysu'r Aelodau, heb ymgynghori â neb, heb geisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Busnes, heb ei chyfeirio i'r Pwyllgor Deddfau a heb gymeradwyaeth y Cyfarfod Llawn. A allwch ddychmygu sefyllfa debyg yn San Steffan, er enghraifft, lle y gallai'r Cabinet wneud deddf, ar ei ben ei hun, a ddeuai i rym ar unwaith? Ni chredaf felly.

That, however, is the present position here and we must not underestimate the value of Assembly Orders. This is a legislature, and these are the pieces of legislation that we make—that is our work at present. The potential of the urgency procedure means that it should be used sparingly. The Standing Orders state that it can only be used if it is not reasonably practicable to use the standard procedures. That term is difficult to define and so I have looked at the guidance on this matter, which you can all find in your e-mail inbox under public folders. It states that the Cabinet might consider the use of urgency procedure if the Order involved a public health or similar emergency, a quantified risk of breaching UK or European law that involves notification by the Commission of infraction proceedings—a condition which, I believe, one of today's Orders meets—outside bodies being deprived of their necessary powers if the Order is not made urgently, or the need to bring into force primary legislation, that is, a Commencement Order.

Fodd bynnag, dyna'r sefyllfa sydd yma ar hyn o bryd a rhaid inni beidio â thanbrisio gwerth Gorchmynion y Cynulliad. Deddfwrfa yw hon, a'r rhain yw'r deddfau a wnawn—dyna'n gwaith ar hyn o bryd. Mae potensial y weithdrefn frys yn golygu y dylid ei defnyddio'n gynnil. Dywed y Rheolau Sefydlog na ellir ei defnyddio oni bai nad yw'n rhesymol ymarferol defnyddio'r gweithdrefnau arferol. Anodd yw diffinio'r amod honno ac felly edrychais ar y cyfarwyddyd ar y mater hwn, y gallwch oll ei ganfod yn eich blwch derbyn negeseuon e-bost o dan ffolderi cyhoeddus. Dywed y gallai'r Cabinet ystyried defnyddio gweithdrefn frys os yw'r Gorchymyn yn ymwneud â iechyd cyhoeddus neu argyfwng tebyg, perygl mesuredig o dorri cyfraith y DU neu Ewrop sydd yn golygu hysbysiad gan y Comisiwn ynghylch achos o dorri rheolau—amod y credaf fod un o'r Gorchmynion heddiw yn ei gyflawni—amddifadu cyrff allanol o'u pwerau angenrheidiol os na wneir y Gorchymyn ar frys, neu'r angen i weithredu deddfwriaeth sylfaenol, hynny yw, Gorchymyn Cychwyn.

These grounds are specific. The guidance also outlines the grounds where the Cabinet will not use the urgency procedure. The scenarios cited are a wish to follow a UK department timetable, a wish to replicate

Mae'r sail hon yn benodol. Mae'r cyfarwyddyd hefyd yn disgrifio'r sail lle na fydd y Cabinet yn defnyddio'r weithdrefn frys. Y senarios a grybwyllir yw dymuniad i ddilyn amserlen un o adrannau'r DU,

English Orders, or drafting and administrative delays. If we were honest, we have not always followed these guidelines.

dymuniad i atgynhyrchu Gorchmynion Lloegr, neu oedi wrth ddrafftio neu weinyddu. A bod yn onest, nid ydym wedi dilyn y canllawiau hyn bob amser.

We are told that many Orders are time-sensitive in that they must be in place, for example, by 1 April. This does not justify urgency, but may mean that, if the Order is not prepared well enough in advance, there is no other choice available to us but to make it. Those are different mattes. That is not, in any way, a criticism of the Assembly staff involved. They work flat out, and I would like to hear what changes we are making to ensure that staff are not being continually overworked.

Dywedir wrthym fod llawer o Orchmynion yn sensitif i amser i'r graddau bod rhaid iddynt fod ar waith, er enghraifft, erbyn 1 Ebrill. Nid yw hyn yn cyfiawnhau brys, ond gallai olygu, os na pharatoir Gorchymyn yn ddigon ymlaen llaw, nad oes dewis arall ar gael i ni ond ei wneud. Maent yn faterion gwahanol. Nid yw hyn yn feirniadaeth o gwbl ar staff y Cynulliad sydd yn gysylltiedig. Maent yn gweithio'n ddiarbed, a hoffwn glywed pa newidiadau yr ydym yn eu gwneud i sicrhau na chaiff staff eu gorweithio o hyd.

On the urgency procedure, I will make a comparison with Westminster, where the production of Orders is considered to be undemocratic. There must be a 21-day lapse between the production of the Order and its coming into force, so that the Statutory Instruments Joint Committee can debate it and so that others can make representations on it. We had clarification on this point in the Legislation Committee this morning. Here, the instrument could come into force on the same day that it is made without anybody knowing, except the Cabinet. You could go further and compare that with the way that we deal with local statutory instruments. We are given 10 days' notice of any temporary traffic restriction throughout Wales. You have all received e-mails of that type. So, where is our priority? We are notified of traffic restrictions but not of legislation that we have made that could affect every part of Wales. I raised this with the Business Secretary last September.

Ynghylch y weithdrefn frys, yr wyf am wneud cymhariaeth â San Steffan, lle yr ystyrir bod cynhyrchu Gorchmynion yn annemocrataidd. Rhaid cael oedi o 21 diwrnod rhwng cynhyrchu Gorchymyn a'i roi mewn grym, fel y gall y Cydbwyllgor Offerynnau Statudol ei drafod ac fel y gall eraill gyflwyno sylwadau yn ei gylch. Cawsom eglurhad ar y pwynt hwn yn y Pwyllgor Deddfau y bore yma. Yma, gallai'r offeryn ddod i rym ar yr un diwrnod ag y'I gwnaethpwyd heb i neb wybod, ar wahân i'r Cabinet. Gallech fynd ymhellach a chymharu hynny â'r modd yr ymdriniwn ag offerynnau statudol lleol. Rhoddir 10 niwrnod o rybudd I ni am unrhyw gyfyngiad traffig dros dro ledled Cymru. Yr ydych oll wedi derbyn negeseuon e-bost o'r fath. Felly, ar beth y rhoddwn flaenoriaeth? Fe'n hysbysir am gyfyngiadau traffig ond nid am ddeddfwriaeth a wnaethom a allai effeithio ar bob rhan o Gymru. Codais hyn gyda'r Trefnydd fis Medi diwethaf.

You could argue that our ability to revoke the Orders within 40 days ensures that urgency is not abused and that, often, an amendment is much more appropriate and revocation should be the last resort. It is much better that we improve our procedures so that the urgency procedure is only used in exceptional circumstances. I recommend that Standing Order No. 22 be revisited and that we review our internal systems honestly and thoroughly so that we can get this right and ensure that the urgency procedure does not become the

Gallech ddadlau fod ein gallu i ddiddymu'r Gorchmynion o fewn 40 niwrnod yn sicrhau na chamddefnyddir y weithdrefn frys a bod diwygiad, yn aml, yn llawer mwy priodol ac na ddylid diddymu ond yn niffyg pob dim arall. Mae'n well o lawer inni wella ein gweithdrefnau fel na ddefnyddir y weithdrefn frys ond mewn amgylchiadau eithriadol. Argymhellaf y dylid ailystyried Rheol Sefydlog Rhif 22 ac y dylem adolygu ein systemau mewnol yn onest ac yn drwyadl fel y gallwn gael hyn yn iawn a sicrhau na ddaw

norm. Brian Hancock has just indicated to me that the draft business statement sets aside time to debate this topic on 5 April.

y weithdrefn frys yn norm. Mae Brian Hancock newydd ddangos i mi fod y datganiad busnes drafft yn neilltuo amser I drafod y pwnc hwn ar 5 Ebrill.

Nick Bourne: This matter is of great concern, contrary to what the former First Secretary seems to suggest. We are being asked to look at the Disapplication of Procedural Requirements (Urgency). That terminology suggests that that should be exceptional. The meaning of 'urgency procedure' is apparent to everybody here, but Alun Michael would like to re-term it 'urgency' even though it is clear, as Jocelyn Davies has just demonstrated, that this procedure should be exceptional. Like her, I have no criticism of Assembly staff and from what I gather from the Legislation Committee, this is not the Assembly's fault. However, there is a fault somewhere. Legislation cannot become urgent business simply because we get it two or three days before it must pass into law. That does not make it urgent. This urgency procedure is not in place for the administrative convenience of Andrew Davies and the Labour Party. These are serious issues that need to be debated on behalf of the people of Wales. It is not sufficient to decide that something is urgent because Whitehall has just passed it on to us, which is what I suggest is happening.

Nick Bourne: Mae hyn yn fater o bryder mawr, yn groes i'r hyn yr ymddengys fod y cyn-Brif Ysgrifennydd yn ei awgrymu. Gofynnir inni edrych ar Ddadgymhwyso Gofynion Gweithdrefnol (Brys). Mae'r derminoleg honno'n awgrymu y dylai fod yn eithriadol. Mae ystyr 'gweithdrefn frys' yn amlwg i bawb sydd yma, ond hoffai Alun Michael ei hailenwi'n 'frys' er ei bod yn amlwg, fel y mae Jocelyn Davies newydd ddangos, y dylai'r weithdrefn hon fod yn eithriadol. Fel hithau, nid oes gennyf feirniadaeth o staff y Cynulliad ac o'r hyn a gasglaf o'r Pwyllgor Deddfau, nid bai'r Cynulliad yw hyn. Fodd bynnag, mae bai yn rhywle. Ni chaiff deddfwriaeth ddod yn fusnes brys dim ond am ein bod yn ei derbyn ddeuddydd neu dri cyn bod rhaid ei rhoi mewn grym. Nid yw hynny'n ei gwneud yn fater brys. Nid yw'r weithdrefn frys hon ar waith er hwylustod gweinyddol Andrew Davies a'r Blaid Lafur. Mae'r rhain yn faterion difrifol y mae angen eu trafod ar ran pobl Cymru. Nid digon yw penderfynu bod rhywbeth yn fater o frys am fod Whitehall newydd ei drosglwyddo i ni, sef yr hyn yr awgrymaf sydd yn digwydd.

In the Legislation Committee this morning, we were asked to consider four pieces of legislation, all of which are going through on the urgency procedure. One of them relates to the revaluation of business rates. It is a standard piece of legislation that is made every five years. Surely, you could see that coming. You cannot say that it has suddenly bitten you on the heel and that you did not know about it; of course you did. There is no earthly reason why that legislation should have to go through on the urgency procedure.

Yn y Pwyllgor Deddfau y bore yma, gofynnwyd inni ystyried pedair eitem o ddeddfwriaeth, y mae pob un ohonynt yn mynd drwy'r weithdrefn frys. Mae un ohonynt yn ymwneud ag ailbrisio trethi busnes. Mae hynny'n ddarn o ddeddfwriaeth arferol sydd yn cael ei wneud bob pum mlynedd. Siawns nad oeddech yn gallu gweld hynny'n dod. Ni allwch ddweud yn sydyn ei fod wedi'ch brathu ar eich sawdl ac na wyddech amdano; yr oeddech, wrth gwrs. Nid oes rheswm ar y ddaear pam y dylai'r ddeddfwriaeth honno fynd drwodd drwy'r weithdrefn frys.

The Business Secretary, in his customary way of trying to take the heat out of the issue, spoke as if he were reading the *Yellow Pages,* as if these issues were not urgent. We have all agreed on two or three Orders going through on urgency, for example, the Beef Bones (Amendment) (Wales) Regulations

Yn ei ffordd arferol o geisio tawelu'r dyfroedd, siaradodd y Trefnydd fel petai'n darllen y *Yellow Pages,* fel pe na bai'r materion hyn yn rhai brys. Yr ydym oll wedi cytuno I ddau neu dri Gorchymyn fynd drwodd fel materion brys, er enghraifft, Rheoliadau Esgyrn Cig Eidion (Diwygio)

1999. That was a legitimate use of the urgency procedure. Other legitimate uses would include legislation to do with matters such as the Sea Empress. However, Andrew did not mention that, so far, 20 pieces of legislation have been made under urgency procedure. Perhaps he would like to pick one of them at random and tell us why he considers that it was urgent. Would you like to pick one, Andrew?

(Cymru) 1999. Yr oedd hynny'n ddefnydd teg o'r weithdrefn frys. Byddai defnydd teg hefyd yn cynnwys deddfwriaeth ynghylch materion fel y Sea Empress. Fodd bynnag, ni ddywedodd Andrew fod 20 darn o ddeddfwriaeth, hyd yn hyn, wedi cael eu gwneud drwy'r weithdrefn frys. Efallai yr hoffai ddewis un ohonynt ar hap a dweud wrthym pam y mae o'r farn ei fod yn fater o frys. A hoffech ddewis un, Andrew?

Andrew Davies: No.

Andrew Davies: Na hoffwn.

Nick Bourne: I will pick one at random. Number 13—the National Health Service (Travelling Expenses and Remission of Charges) Amendment (Wales) Regulations 1999. Why on earth did it need to go through on the urgency procedure? Let us pick another at random, number 9—the Local Authorities (Calculation of Council Tax Base) (Wales) (Amendment) Regulations 1999. Why did that have to go through on urgency procedure?

Nick Bourne: Dewisaf un ar hap. Rhif 13—Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Lleihau Taliadau) (Diwygio) (Cymru) 1999. Pam ar y ddaear yr oedd angen iddo fynd drwy'r weithdrefn frys? Gadewch inni ddewis un arall ar hap, rhif 9—Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail Treth y Cyngor) (Cymru) (Diwygio) 1999. Pam y bu'n rhaid i hwnnw fynd drwy'r weithdrefn frys?

The Legislation Committee members who were at our meeting this morning will know that I raised this point with the lawyers. They told me that a substantial number of these Orders were to come. Many of them will be made under the urgency procedure. The lawyers do not know what is happening either. It is time for us to get our act together and to stop making excuses about the infancy of this body. It is time to have a change from what happened under the previous administration, when we did not get tough with Westminster, and it is time to say that we need to see these Orders in good time so that we can debate them.

Gŵyr aelodau'r Pwyllgor Deddfau oedd yn ein cyfarfod y bore yma fy mod wedi codi'r pwynt hwn gyda'r cyfreithwyr. Dywedasant wrthyf fod nifer sylweddol o'r Gorchmynion hyn i ddod. Bydd llawer ohonynt yn cael eu gwneud drwy'r weithdrefn frys. Ni ŵyr y cyfreithwyr beth sydd yn digwydd ychwaith. Mae'n bryd inni roi trefn ar bethau a rhoi'r gorau i wneud esgusion ynghylch babandod y corff hwn. Mae'n bryd inni gael newid o'r hyn a ddigwyddodd o dan y weinyddiaeth flaenorol, pan nad oeddem yn troi tu min at San Steffan, ac mae'n bryd inni ddweud bod angen inni weld y Gorchmynion hyn mewn da bryd fel y gallwn eu trafod.

These issues are important—as Christine Gwyther has admitted and I am sure that Peter Law feels the same—otherwise they would not be legislation, so for heaven's sake get your act together. The Conservative group will vote against this motion because we do not think that you will get your act together. It is high time that you did.

Mae'r materion hyn yn bwysig—fel y cyfaddefodd Christine Gwyther ac yr wyf yn siŵr bod Peter Law yn cytuno—neu fel arall ni fyddent yn ddeddfwriaeth, felly er mwyn y nefoedd rhowch drefn ar eich pethau. Bydd y grŵp Ceidwadol yn pleidleisio'n erbyn y cynnig hwn am na chredwn y byddwch yn rhoi trefn ar eich pethau. Mae'n hen bryd ichi wneud hynny.

4:41 p.m.

This tidal wave of inertia and speaking as if reading the *Yellow Pages*, as if these were not

Ni fydd yr ymchwydd hwn o syrthni a siarad fel pe bai'n darllen y *Yellow Pages*, fel pe na

important issues, will not do.

bai'r rhain yn faterion pwysig, yn gwneud y tro.

Peter Black: I was not going to comment on the use of the urgency procedure. I wanted to comment on one of the Orders, the Local Authorities (Capital Finance) (Amendment) (Wales) Regulations 2000, which seeks to exclude private finance initiative agreements from the regulations on the capital finance system. I ask Peter Law, as the Assembly Secretary for Local Government and Housing, whether he will review the capital finance regulations much more broadly to seek further reforms to enable local authorities to have greater flexibility in the amount of money that they can spend on their capital finance projects and to encourage them to use as much private finance as possible to supplement their money, without being penalised by having to set aside credit agreements and so on against those sums. It is important that we seek to increase local authorities' capital expenditure. All local authorities have huge problems of backlogs of maintenance, not just of roads but also school and other buildings. There is also a huge demand for capital infrastructural projects, many of which could be used to match Objective 1 funding, if appropriate. It would be useful if, as well as bringing this forward under the urgency procedure, there was a review of the capital finance regulations to see how much better a version we can provide for local authorities.

Peter Black: Nid oeddwn am wneud sylw ar y defnydd o'r weithdrefn frys. Yr oeddwn am wneud sylw ar un o'r Gorchmynion, yn benodol Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Diwygio) (Cymru) 2000, sydd yn ceisio hepgor cytundebau menter cyllid preifat o'r rheoliadau ar y system cyllid cyfalaf. Gofynnaf i Peter Law, fel yr Ysgrifennydd Cynulliad dros Lywodraeth Leol a Thai, a yw'n fodlon adolygu'r rheoliadau cyllid cyfalaf yn helaethach o lawer er mwyn ceisio diwygiadau pellach i alluogi awdurdodau lleol i gael mwy o hyblygrwydd o ran y swm o arian y gallant ei wario ar eu prosiectau cyllid cyfalaf a'u hannog i ddefnyddio cymaint ag y bo modd o gyllid preifat i ychwanegu at eu harian, heb gael eu cosbi drwy orfod neilltuo cytundebau credyd ac yn y blaen ar gyfer y symiau hynny. Mae'n bwysig inni geisio cynyddu gwariant cyfalaf awdurdodau lleol. Mae gan yr holl awdurdodau lleol broblemau anferth o ran ôl-groniadau cynnal a chadw, nid yn unig ar ffyrdd ond ar ysgolion ac adeiladau eraill hefyd. Mae galw aruthrol am brosiectau seilwaith cyfalaf, y gellid defnyddio llawer ohonynt i gyfateb i arian Amcan 1, os yw'n briodol. Byddai'n fuddiol, yn ogystal â chyflwyno hyn o dan y weithdrefn frys, pe bai adolygiad o'r rheoliadau cyllid cyfalaf i weld beth yw'r fersiwn gorau y gallwn ei ddarparu i'r awdurdodau lleol.

Jenny Randerson: I would take a slightly more charitable approach than Nick Bourne on the legislation procedures. That does not alter our deep concern about the issue. We are prepared to support the motion today because we believe the last clause expresses clearly the concern that is shared on all sides. We are giving the administration the benefit of the doubt on this occasion because we are aware that Whitehall has not quite got the hang of devolution yet and we trust that the First Secretary, the Business Secretary and all the Assembly Secretaries will make known in no uncertain terms our views on how these Orders are coming through to us. We also trust that they will urgently reorganise support procedures accordingly. I heard some talk around Christmas time of setting up a special unit to deal with this matter, but that

Jenny Randerson: Hoffwn ymdrin â'r gweithdrefnau deddfwriaethol mewn modd ychydig mwy haelfrydig na Nick Bourne. Nid yw hynny'n newid ein pryder mawr ynghylch y mater. Yr ydym yn barod i gefnogi'r cynnig heddiw am ein bod yn credu bod y cymal olaf yn mynegi'n glir y pryder sydd gan bawb ar bob ochr. Yr ydym yn rhoi mantais yr amheuaeth i'r weinyddiaeth y tro hwn am ein bod yn ymwybodol nad yw Whitehall wedi llwyr ddeall datganoli eto a hyderwn y bydd y Prif Ysgrifennydd, y Trefnydd a'r holl Ysgrifenyddion Cynulliad yn rhoi ar ddeall yn blwmp ac yn blaen ein barn ar y modd y daw'r Gorchmynion drwodd atom. Hyderwn hefyd y byddant yn aildrefnu gweithdrefnau cynnal ar frys yn unol â hynny. Clywais ryw sôn tua adeg y Nadolig am sefydlu uned arbennig i ddelio

has not yet been done. We need greater urgency of response. This shoal of measures coming through to us with a tight deadline will reoccur every couple of months. We must gear ourselves to deal with it. We all have to deal with it, not only the Executive. All our procedures and Committees have to be ready to deal with it. I am extremely unhappy with a form of blackmail that says that if you do not put this legislation through, everything will fall apart because it all has to be made by 1 April. We are greatly entertained by Peter Law's regular e-mails telling us about the closure of the M4 for four hours next Thursday—do not stop doing it, because it is important—but there are many more significant things that should be coming through to us regularly on our e-mails and giving us early warning. We need a much more rigorous and well-paced approach to legislation, not just to the legislation handed down from Westminster but also to our own legislation and the primary legislation which we seek to influence at Westminster. We have not yet tackled those issues. The Business Committee visited Scotland yesterday to see how it deals with legislation. We were told that Scotland had established mechanisms at Westminster to look at how legislation goes through there and also to look at European Union legislation. Liaison with Westminster on these issues is important.

â'r mater hwn, ond nid yw hynny wedi ei wneud eto. Mae arnom angen ymateb cyflymach. Bydd y cruglwyth hwn o fesurau sydd yn dod drwodd i ni â therfynau amser tynn yn ailddigwydd bob yn ddau fis. Rhaid inni ymaddasu i ddelio ag ef. Rhaid inni oll ymdrin ag ef, nid y Weithrediaeth yn unig. Rhaid i'n holl weithdrefnau a Phwyllgorau fod yn barod i ymdrin ag ef. Yr wyf yn anfodlon iawn â ffurf ar flacmel sydd yn dweud, os na rowch y ddeddfwriaeth hon drwodd, bydd popeth yn disgyn oddi wrth ei gilydd am fod rhaid gwneud y cwbl erbyn 1 Ebrill. Cawn ein difyrru'n fawr gan negeseuon e-bost rheolaidd Peter Law yn dweud wrthym am gau'r M4 am bedair awr ddydd Iau nesaf—peidiwch â rhoi'r gorau i hynny, oherwydd mae'n bwysig—ond mae llawer o bethau pwysicach a ddylai ddod drwodd atom yn rheolaidd drwy ein e-bost gan roi rhybudd buan i ni. Mae arnom angen dull llawer mwy trwyadl a chyflym o ymwneud â deddfwriaeth, nid yn unig y ddeddfwriaeth a drosglwyddir o San Steffan ond hefyd ein deddfwriaeth ein hunain a'r ddeddfwriaeth sylfaenol y ceisiwn ddylanwadu arni yn San Steffan. Nid ydym wedi ymdrin â'r materion hynny eto. Ymwelodd y Pwyllgor Busnes â'r Alban ddoe i weld sut y mae'n delio â deddfwriaeth. Dywedwyd wrthym fod yr Alban wedi sefydlu mecanweithiau yn San Steffan i edrych ar y modd y mae deddfwriaeth yn mynd drwodd yn y fan honno a hefyd i edrych ar ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd. Mae cysylltu â San Steffan ar y materion hyn yn bwysig.

In conclusion, we still accept—although the Conservatives may not accept it—that these are early days. However, after a year we will not be able to say that. We expect progress, or our patience—and I say this as an ordinary Assembly Member not only as a Liberal Democrat—will run out and matters will get rejected that should not because people are irritated by the procedures that we are following, or not following, depending on how one looks at it.

I derfynu, yr ydym yn dal i dderbyn—er efallai nad yw'r Ceidwadwyr yn ei derbyn—mai dyddiau cynnar yw'r rhain. Fodd bynnag, ar ôl blwyddyn ni fyddwn yn gallu dweud hynny. Disgwyliwn gynnydd, neu bydd ein hamynedd—a dywedaf hyn fel Aelod Cynulliad cyffredin ac nid yn unig fel Democrat Rhyddfrydol—yn dod i ben a chaiff materion eu gwrthod na ddylid eu gwrthod am fod pobl wedi eu gwylltio gan y gweithdrefnau yr ydym yn eu dilyn, neu'n peidio â'u dilyn, yn ôl eich safbwynt.

The Presiding Officer: Peter Law, under Standing Order No. 7.4, has asked to explain a material point in his original speech.

Y Llywydd: Mae Peter Law, o dan Reol Sefydlog Rhif 7.4, wedi gofyn am gael egluro pwynt o sylwedd yn ei araith wreiddiol.

Peter Law: I am no longer responsible for e-mails concerning the M4 or the Menai Bridge. Sue Essex now deals with them.

Peter Law: Nid wyf bellach yn gyfrifol am negeseuon e-bost sydd yn ymwneud â'r M4 neu Bont Menai. Sue Essex sydd yn ymwneud â hwy'n awr.

I take Peter Black's point about an item on capital finance in the future. That would be good and I hope that the new Chair of the Committee allows it to be placed on the agenda in the future. We will hear a great deal about local government capital finance shortly.

Derbyniaf bwynt Peter Black ynghylch eitem ar gyllid cyfalaf yn y dyfodol. Byddai hynny'n dda a gobeithiaf y bydd Cadeirydd newydd y Pwyllgor yn caniatáu ei rhoi ar yr agenda yn y dyfodol. Byddwn yn clywed llawer iawn am gyllid cyfalaf llywodraeth leol cyn hir.

This Local Authorities Capital Finance (Wales) Regulations 2000 amendment was brought in because it had to coincide with a change in accounting practices. It was important at that time to enter into a dialogue with local authorities through the partnership council's capital sub-group. I also consulted the Chartered Institute of Public Finance and Accountancy's private partnership to get its point of view. Time had to be allowed for consultation and that meant that we went over the set deadline. Several queries were raised during that consultation that required further examination by officials and further discussion with those local authorities and CIPFA. That prevented a draft being put forward in time to follow the standard procedure. I regret that, but it happened because we wanted to get it right. The amendment adopted in Wales now allows maximum flexibility within the standard accounting practices in the way private finance transactions are treated. Having consulted these authorities, it was decided that the wording adopted in England might create uncertainty in some cases about how private finance initiative deals can be financed. I am satisfied that what we did was in the interests of Wales and that is what devolution is about.

Cyflwynwyd y diwygiad hwn drwy Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Cymru) 2000 am fod rhaid iddo gyd-ddigwydd â newid mewn arferion cyfrifo. Yr oedd yn bwysig bryd hynny ddechrau deialog ag awdurdodau lleol drwy is-grŵp cyfalaf y cyngor partneriaeth. Ymgynghorais hefyd â phartneriaeth breifat y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth i gael ei barn. Yr oedd yn rhaid caniatáu amser i ymgynghori a golygai hynny ein bod wedi mynd heibio i'r terfyn amser a osodwyd. Codwyd nifer o gwestiynau yn ystod yr ymgynghoriad hwnnw yr oedd angen eu harchwilio ymhellach gan swyddogion a'u trafod ymhellach â'r awdurdodau lleol hynny a'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Yr oedd hynny wedi rhwystro cyflwyno drafft mewn pryd i ddilyn y weithdrefn arferol. Mae'n edifar gennyf am hynny, ond digwyddodd am ein bod am ei gael yn iawn. Mae'r diwygiad a fabwysiadwyd bellach yng Nghymru yn caniatáu'r hyblygrwydd mwyaf posibl oddi mewn I'r arferion cyllido arferol yn y modd yr ymdrinnir â gweithrediadau cyllid preifat. Ar ôl ymgynghori â'r awdurdodau hyn, penderfynwyd y gallai'r geiriad a fabwysiadwyd yn Lloegr greu ansicrwydd mewn rhai achosion ynghylch y modd y gellir ariannu cytundebau menter cyllid preifat. Yr wyf yn sicr bod yr hyn a wnaethom er budd Cymru a dyna bwrpas datganoli.

Andrew Davies: I will try not to sound like talking pages this time. The points have been well made and I would not disagree with most of them. I am grateful for Jenny's support and her understanding of the process. I reiterate that using urgency procedure is

Andrew Davies: Yr wyf am geisio peidio â swnio fel tudalennau llafar y tro hwn. Gwnaethpwyd y pwyntiau'n dda ac ni fyddwn yn anghytuno â'r rhan fwyaf ohonynt. Yr wyf yn ddiolchgar am gefnogaeth Jenny a'i dealltwriaeth o'r broses.

exceptional. I can assure you that I have had battles, as have my colleagues, behind the scenes so that most of the legislation has come forward—Peter Law knows this in particular—so that Orders are not dealt with under urgency. For your information I outline how Orders were made under the Welsh Office. Orders would be made by officials. They would be given to Ministers in their overnight bag or the weekend box and would be signed off and implemented on the following Monday. We cannot do that any more. We do not wish to do that any more. We want a system that is open, transparent, accountable and allows legislation to be scrutinised.

Ailadroddaf fod defnyddio'r weithdrefn frys yn eithriadol. Gallaf eich sicrhau imi ymladd brwydrau, fel y gwnaeth fy nghydweithwyr, y tu ôl i'r llenni fel bod y rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth wedi dod ymlaen—mae Peter Law yn gwybod hyn yn arbennig—fel nad ymdrinnir â Gorchmynion o dan y weithdrefn frys. Er gwybodaeth i chi disgrifiaf sut y gwneid Gorchmynion o dan y Swyddfa Gymreig. Gwneid gorchmynion gan swyddogion. Fe'u rhoddid i Weinidogion yn eu bag dros nos neu yn y blwch penwythnos ac fe'u harwyddid a'u gweithredu y dydd Llun canlynol. Ni allwn wneud hynny mwyach. Ni ddymunwn wneud hynny mwyach. Yr ydym am gael system sydd yn agored, yn dryloyw, yn atebol ac yn caniatáu archwilio deddfwriaeth.

Jocelyn Davies: Are you asking us today to approve these Orders or are they already made?

Jocelyn Davies: A ydych yn gofyn inni gymeradwyo'r Gorchmynion hyn heddiw ynteu a ydynt wedi eu gwneud eisoes?

4:51 p.m.

Andrew Davies: They have already been made and the motion is to note them, as you can see by the wording. Urgency procedure is exceptional. We have tried—and I mentioned my role in this earlier—to establish a central register of legislation that—

Andrew Davies: Fe'u gwnaethpwyd eisoes ac mae'r cynnig i'w nodi, fel y gallwch weld o'r geiriad. Mae'r weithdrefn frys yn eithriadol. Ceisiasom—a soniais am fy rhan yn hynny'n gynharach—sefydlu cofrestr ganolog o ddeddfwriaeth—

Cynog Dafis: I am an ignoramus in this field but I am at a loss to understand why it is urgent to note what has already been done.

Cynog Dafis: Yr wyf yn anwybodusyn yn y maes hwn ond methaf yn lân â deall pam mai mater brys yw nodi yr hyn a wnaethpwyd eisoes.

Andrew Davies: This procedure has been used in order to bring this to the attention of the Assembly and to ask you to note the Orders that have been made. I will come to Nick's point in a moment. The last clause of the motion is my request to the Business Committee that we take this process forward. There are immense difficulties due to the change of culture caused by the way that legislation is passed by this Assembly. Officials at all levels are used to dealing with legislation in the old way. It has taken a huge logistic and organisational change to get the corporate body to look at this process differently. It takes time. I mentioned in my opening speech that most of these Orders originate in Whitehall. The draft is within the

Andrew Davies: Mae'r weithdrefn hon wedi ei defnyddio er mwyn dod â hyn i sylw'r Cynulliad a gofyn ichi nodi y Gorchmynion sydd wedi'i gwneud. Dof at bwynt Nick mewn eiliad. Cymal olaf y cynnig yw cais gennyf fi i'r Pwyllgor Busnes ein bod yn mynd â'r broses hon yn ei blaen. Mae anawsterau aruthrol o ganlyniad i'r newid diwylliant oherwydd y modd y caiff deddfwriaeth ei phasio gan y Cynulliad hwn. Mae swyddogion ar bob lefel wedi arfer ag ymdrin â deddfwriaeth yn yr hen ddull. Bu angen newid logistig a threfniadol anferth i gael y corff corfforaethol i edrych yn wahanol ar y broses hon. Cymer amser. Soniais yn fy araith agoriadol bod y rhan fwyaf o'r Gorchmynion hyn yn deillio o

primary legislation that is passed by Westminster and Whitehall. We have a problem with resources in the Assembly. The officials who draft Orders are often the same officials who respond to Assembly questions, draft papers for Subject Committees and draft speeches and papers for Ministers. There are massive resource implications, as Ieuan and other members of the Business Committee will know, particularly with the problem of translating the Orders to comply with the Welsh Language Act 1993.

Whitehall. Mae'r drafft oddi mewn i'r ddeddfwriaeth sylfaenol a gaiff ei phasio gan San Steffan a Whitehall. Mae gennym broblem o ran adnoddau yn y Cynulliad. Yr un swyddogion yn aml sydd yn drafftio Gorchmynion a hefyd yn ymateb i gwestiynau'r Cynulliad, yn drafftio papurau ar gyfer Pwyllgorau Pwnc ac yn drafftio areithiau a phapurau i Weinidogion. Mae goblygiadau aruthrol o ran adnoddau, fel y gŵyr Ieuan ac aelodau eraill y Pwyllgor Busnes, yn enwedig gyda'r broblem o gyfieithu'r Gorchmynion i gydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Nick Bourne: I would like the Business Secretary to confirm two points. First, by voting against this motion, we are not holding up any legislation because it has already been made in the same way as it used to be made, a way that you were deploring. Secondly, you said, and I accept what you are saying, that this procedure should be exceptional. It is the case, as I quoted, that 20 pieces of legislation have been made by urgency procedure since 11 August 1999. I was given the information by the Library about half an hour before entering the Chamber at 2 p.m. so I am sure that it is accurate. As that is the case, do you not think that a third of the legislation can scarcely be called exceptional? By voting against this, are we not sending a message to Whitehall that we will not tolerate the sort of tardiness that you are indicating, as responsibility for that should be laid at Whitehall and not at the Assembly?

Nick Bourne: Byddai'n dda gennyf pe bai'r Trefnydd yn cadarnhau dau bwynt. Yn gyntaf, drwy bleidleisio'n erbyn y cynnig hwn, nid ydym yn atal unrhyw ddeddfwriaeth am ei bod wedi ei gwneud eisoes yn yr un modd ag yr arferid ei gwneud, modd yr oeddech chi'n gresynu ato. Yn ail, dywedasoch, a derbyniaf yr hyn a ddywedwch, y dylai'r weithdrefn hon fod yn eithriadol. Mae'n wir, fel y dywedais, fod 20 darn o ddeddfwriaeth wedi eu gwneud drwy'r weithdrefn frys ers 11 Awst 1999. Rhoddwyd yr wybodaeth imi gan y Llyfrgell tua hanner awr cyn imi ddod i'r Siambr am 2 p.m. felly yr wyf yn sicr ei bod yn gywir. Gan fod hynny'n wir, oni chredwch mai prin y gellid galw un rhan o dair o'r ddeddfwriaeth yn eithriadol? Drwy bleidleisio'n erbyn hyn, onid ydym yn anfon neges i Whitehall na fyddwn yn goddef y math o arafwch a nodwch, gan y dylid rhoi'r cyfrifoldeb am hynny ar Whitehall ac nid ar y Cynulliad?

Andrew Davies: My understanding is that voting against this will not stop the Orders being made, but the motion recognises that they are exceptional.

Andrew Davies: Yr hyn a ddeallaf fi yw na fydd pleidleisio'n erbyn hyn yn atal y Gorchmynion rhag cael eu gwneud ond mae'r cynnig yn cydnabod eu bod yn eithriadol.

Alun Michael *rose—*

Alun Michael *a gododd—*

Andrew Davies: I will take the former First Secretary's intervention in a minute. We are not trying to manage the process, as I said earlier. We are instituting organisational changes to consider how we can manage the subordinate legislation process differently. As Jenny said, the members of the Business Committee visited the Scottish Parliament yesterday to look at how it had dealt with this process. It is different for Scotland because it

Andrew Davies: Derbyniaf ymyriad y cyn-Brif Ysgrifennydd mewn munud. Nid ydym yn ceisio rheoli'r broses, fel y dywedais yn gynharach. Yr ydym yn cychwyn newidiadau trefniadol er mwyn ystyried sut y gallwn eu defnyddio i reoli'r broses is-ddeddfwriaeth yn wahanol. Fel y dywedodd Jenny, ymwelodd aelodau'r Pwyllgor Busnes â Senedd yr Alban ddoe i edrych ar y modd yr oedd wedi ymdrin â'r broses hon. Mae'n

has primary legislative powers and can therefore dictate the primary legislative framework, which we cannot do directly.

wahanol i'r Alban am fod ganddi bwerau deddfu sylfaenol ac felly'n gallu gosod y fframwaith deddfwriaeth sylfaenol, rhywbeth na allwn ni ei wneud yn uniongyrchol.

Alun Michael: It is cheeky for a member of the Conservative Party to talk about pushing legislation through after the way things were done in 18 of the last 20 years. Is this not a misunderstanding about the nature of secondary legislation? Some secondary legislation is technical because the primary legislation has changed, perhaps, in nothing more important than the title. Sometimes the secondary legislation is almost implicit in the way that the primary legislation has been introduced. What exists is the flexibility to change it without the need for primary legislation. When it is appropriate to change it, there may well be a serious, important and creative role for this Assembly to play in that. Therefore the passage of the first set of secondary legislation as a consequence of primary legislation is not necessarily where this Assembly can make a big impact. Will there not be a more important role in developing the flexibility that is allowed by secondary legislation in subsequent years as the Assembly grows and matures?

Alun Michael: Mae'n ddigywilydd i aelod o'r Blaid Geidwadol sôn am wthio deddfwriaeth drwodd ar ôl y ffordd y gwneid pethau yn 18 o'r 20 mlynedd diwethaf. Onid yw hyn yn gamsyniad ynghylch natur deddfwriaeth eilaidd? Mae rhai deddfwriaethau eilaidd yn dechnegol am fod y ddeddfwriaeth sylfaenol wedi newid, efallai, o ran dim mwy na'i henw. Weithiau mae'r ddeddfwriaeth eilaidd yn ymhlyg bron yn y modd y cyflwynwyd y ddeddfwriaeth sylfaenol. Yr hyn a geir yw'r hyblygrwydd i'w newid heb yr angen am ddeddfwriaeth sylfaenol. Pan yw'n briodol ei newid, mae'n ddigon posibl y bydd rôl ddifrifol, bwysig a chreadigol i'w chwarae gan y Cynulliad hwn yn hynny. Felly, nid hynt y set gyntaf o ddeddfwriaeth eilaidd o ganlyniad i ddeddfwriaeth sylfaenol o reidrwydd yw'r lle y gall y Cynulliad hwn gael effaith fawr. Oni fydd rôl bwysicach wrth ddatblygu'r hyblygrwydd a ganiateir drwy ddeddfwriaeth eilaidd yn y blynyddoedd sydd i ddod wrth i'r Cynulliad dyfu ac aeddfedu?

Andrew Davies: Alun makes a valid point. Whatever the estimate or outcome will be, we will deal with a large number of statutory instruments. We need to revisit our procedures as set out under Standing Orders. In some ways—and I think that the Business Committee shares this view—the procedures are incredibly cumbersome. We are coming round to the idea that we need to prioritise our consideration of statutory instruments, as Alun Michael said, so that we focus on those where we can make a substantial difference. Those that are merely technical or that do not have a major impact can be dealt with via a fast track or other procedure. That will ensure that optimum use is made of the time and effort that Assembly Members expend on the legislative process and that our resources are concentrated on those items of legislation where we can make a major difference.

Andrew Davies: Mae Alun yn gwneud pwynt dilys. Beth bynnag fydd yr amcangyfrif neu'r canlyniad, byddwn yn ymdrin â nifer fawr o offerynnau statudol. Mae angen inni ailystyried ein gweithdrefnau fel y'u nodir o dan y Rheolau Sefydlog. Ar rai ystyron—a chredaf fod y Pwyllgor Busnes o'r un farn—mae'r gweithdrefnau'n anhygoel o drwsgl. Yr ydym yn tueddu at y syniad bod angen inni drefnu ein hystyriaeth o offerynnau statudol yn ôl blaenoriaeth, fel y dywedodd Alun Michael, fel ein bod yn canolbwyntio ar y rhai lle y gallwn wneud gwahaniaeth sylweddol. Gellir ymdrin â'r rhai nad ydynt ond yn dechnegol neu heb effaith fawr drwy weithdrefn dull carlam neu weithdrefn arall. Bydd hynny'n sicrhau'r defnydd gorau posibl o'r amser a'r ymdrech y mae Aelodau'r Cynulliad yn eu rhoi i'r broses ddeddfwriaethol a bod ein hadnoddau wedi eu canolbwyntio ar yr eitemau hynny o ddeddfwriaeth lle y gallwn wneud gwahaniaeth o bwys.

The administration regrets using the urgency

Mae'n ofid gan y weinyddiaeth ddefnyddio'r

procedure. We do not do so lightly and try to avoid its use whenever practicably possible, as Jocelyn Davies said. Although it is regrettable, there will be occasions on which we will have to use this procedure. However, we are committed to ensuring that the legislative process is open, transparent and can be scrutinised by the Assembly as a whole and in Subject Committees and the Legislation Committee.

weithdrefn frys. Ni wnawn hynny'n ddifeddwl a cheisiwn osgoi ei defnyddio pryd bynnag y bo modd, fel y dywedodd Jocelyn Davies. Er bod hynny'n destun gofid, bydd adegau pan fydd yn rhaid inni ddefnyddio'r weithdrefn hon. Fodd bynnag, yr ydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y broses ddeddfwriaethol yn agored, yn dryloyw ac y gellir ei harchwilio gan y Cynulliad fel cyfangorff ac mewn Pwyllgorau Pwnc ac yn y Pwyllgor Deddfau.

Cynnig: O blaid 25, Ymatal 10, Yn erbyn 7.
Motion: For 25, Abstain 10, Against 7.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Davies, Andrew
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Feld, Val
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Halford, Alison
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Law, Peter
Michael, Alun
Middlehurst, Tom
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Sinclair, Karen
Williams, Kirsty

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Dafis, Cynog
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Hancock, Brian
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lloyd, David
Ryder, Janet
Thomas, Rhodri Glyn

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Bourne, Nick
Cairns, Alun
Davies, Glyn
Graham, William
Melding, David
Morgan, Jonathan
Rogers, Peter

Motion adopted.

Derbyniwyd y cynnig.

Y Llywydd: Dyna ddiwedd busnes heddiw. Diolch i'r Aelodau.

The Presiding Officer: That is the end of today's business. I thank the Members.

Daeth y cyfarfod i ben am 5 p.m.
The session ended at 5 p.m.